


Y BLAENORIAID A'U GWAITH

Cwrs Hyfforddi a Llawlyfr



Y BLAENORIAID A'U GWAITH

Cwrs Hyfforddi a Llawlyfr





Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad: Sut i ddefnyddio'r llyfr hwn	7
Cydnabyddiaeth	8
<hr/>	
1. Beth yw Blaenor?	9
Addoliad agoriadol	9
Cyflwyniad	9
"Blaenoriaid" yn y Beibl	10
Datblygiad swydd y blaenor yn hanes yr Eglwys	12
<hr/>	
2. "Swydd Ddisgrifiad" y Blaenor	15
Addoliad agoriadol	15
Cyflwyniad	15
Y blaenor a'r Gweinidog	18
Blaenoriaid ifainc	19
Sut mae ethol blaenoriaid?	19
Sut mae "rhyddhau" blaenor o'i waith?	20
<hr/>	
3. Gweithio a Chenhadu	23
Addoliad agoriadol	23
Cyflwyniad	23
Cwestiynau i'w hystyried:	24
1. Pa mor hawdd yw hi i ymwelydd ddod i mewn i'ch eglwys chi?	24
2. O gael profi'ch bywyd eglwysig, a fyddai dieithryn yn dod i ddeall mwy am Dduw yng Nghrist? Nodyn arbennig i eglwysi bychain	25
3. O'ch cwrdd y tu allan i'r eglwys, a dod i ddeall eich bod yn Gristion, sut ddarlun a gâi rhywun o Dduw yng Nghrist?	25
Trafodaeth	25
"Gwaith Cartref"	26
<hr/>	
4. Gwaith Bugeiliol y Blaenor	27
Addoliad agoriadol	27
Cyflwyniad	27
Gofal bugeiliol	27
Curo ar y drws	28
"Sgwrs bwysig"	29
Aelodau absennol	31
Gweddïo	33
Gofalu amdanoch chi'ch hunan: Astudiaeth Feiblaidd	33
Gwaith i'r grŵp: Chwarae rôl	35
Dysgu mwy am ofal bugeiliol	35



5. Ymweld â'r cleifion a'r sawl a gafodd brofedigaeth	37
Addoliad agoriadol	37
Cyflwyniad	37
Gweinidogaethu i'r cleifion	38
Iachâd Cristnogol	39
Ymweld â chleifion terfynol wael	39
Gweinidogaethu i'r sawl sy'n galaru	40
Sut ddylwn i ymateb i'r galar?	41
.....	
6. Pontio'r Cenedlaethau: Gweinidogaethu gyda phobl ifainc	43
Cyflwyniad	43
Y cyfarfod cyntaf: Doniau	43
Yr ail gyfarfod: Gofid a phoen	45
Y trydydd cyfarfod: Breuddwydio	46
Y pedwerydd cyfarfod: Cwestiynau	47
Adnoddau at y gwaith	48
.....	
7. Y Blaenor a'r Cyfundeb	49
Addoliad agoriadol	49
Cyflwyniad	49
Yr Henaduriaeth	49
Y Gymdeithasfa (Y Sasiwn)	51
Y Gymanfa Gyffredinol	52
Yr Eglwys tu hwnt i'r Cyfundeb	53
Atodiad: Hanes y Cyfundeb	54
.....	
8. Y Blaenoriaid yn Cwrdd	61
Addoliad agoriadol	61
Cyflwyniad	61
Pwrpas y cyfarfod	61
Trefnu'r ystafell	62
Agenda'r cyfarfod	63
Materion ariannol	66
Cyfrifoldeb cyfreithiol	68
.....	
Diwedd glo: Beth Nesaf?	69



Cyflwyniad:

Sut i ddefnyddio'r llyfr hwn

Wrth ysgrifennu'r llyfr hwn, fe geisiwyd cadw dau fath o ddefnydd mewn cof:

1. Cwrs hyfforddi blaenoriaid neu ddarpar-flaenoriaid

Os ydych yn arwain cwrs o'r fath, yna noder bod yma lawer mwy o ddeunydd ymhob sesiwn nag y gellir yn rhesymol ei ddefnyddio. Rhaid paratoi ymlaen llaw a dethol a dewis y meysydd trafod hynny sydd fwyaf perthnasol i'ch sefyllfa chi. Peidiwch â bod ofn hepgor pethau - gellir dod yn ôl atynt rywbryd eto.

Gall "cwrs hyfforddi" fod yn un o nifer o bethau:

- Gall fod yn benwythnos llawn ar y cyd, fel a geir yn Nhrefeca, lle yr anelir at gyflwyno'r holl faes dros ryw chwe sesiwn, yn ogystal â chymdeithasu a thrafod yn anffurfiol.
- Gall fod yn gyfres o gyfarfodydd ar noson waith, neu'n ddau neu dri Sadwrn, ar gyfer eglwys, gofalaeth neu henaduriaeth.
- Gall fod yn un neu fwy o drafodaethau o fewn cyfarfod blaenoriaid neu gyfarfod henaduriaeth, ac yn gyfle i adael yr agenda arferol ac edrych ar bethau o bersbectif gwahanol.

Ymhob achos, rhaid i rywun neu rywrai gynllunio ymlaen llaw, amseru'r sesiwn neu'r sesiynau, a gweld beth yw'r ffordd orau i ddefnyddio'r amser a'r bobl sydd ar gael.

2. Llyfr i'w ddarllen gan flaenor unigol, neu i'w rannu rhwng y blaenoriaid iddynt ddarllen gartref.

Os mai dyna a wnewch, yna meddwl ac ystyried a wnewch yn hytrach na "thrafod" yn yr adrannau a nodir "Trafodwch". Fe gewch chi fwy o gyfle na'r grŵp i gael golwg ar bob adran, ond peidiwch â theimlo ei fod yn faes arholiad! Os dewch ar draws rhywbeth y credwch y dylid ei drafod gyda'r holl flaenoriaid neu gyda'r henaduriaeth, gwnewch nodyn o'r peth a gofyn a ellir ei osod ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Os dewch i'r casgliad y dylid cynnal cwrs hyfforddi yn eich eglwys, gofalaeth, dosbarth neu henaduriaeth, yna gofynnwch a ellir trefnu un. Os nad yw hynny'n bosibl, holwch Gyfarwyddwr Hyfforddiant EBC ynglŷn â chysiau sydd ar gael.

Rhybudd: Nid gwaith y gellir ei ddysgu o lyfr yw gwaith blaenor. Fydd y llyfryn hwn ddim yn rhoi'r holl atebion i chi, nac yn eich troi yn "flaenor perffaith". Ei fwriad yw eich cynorthwyo i feddwl am y gwaith a gweld sut i'w wneud yn fwy effeithiol. Dymunwn fendith Duw arnoch yn eich astudio ac yn eich gwaith.



Cydnabyddiaeth

Seiliwyd y gwaith hwn i raddau helaeth ar waith dau o gyn Wardeiniaid Coleg Trefeca, sef y Parchg Tom Wright a'r diweddar Barchg Gwilym Ceiriog Evans, a nifer o Wardeiniaid Cynorthwyol, yn fwyaf arbennig y Parchg Jenny Garrard. Paratoesant gyrsiau ar gyfer Trefeca a'r Cyfundeb, ac fe bwyswyd yn helaeth arnynt.

Diolchir hefyd i'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig am adael i ni ddefnyddio, heb dâl hawlfraint a heb gyfyngiad, ddeunydd a nifer o'i chyhoeddiadau hi, sef:

Being an Elder gan Stephen Mayor

Exploring Eldership gan y Parchg Peter McIntosh

Called to be an Elder gan yr Adran Ffydd a Bywyd

United for Mission: Study Kit for Elders

"...Some are called to be elders" gan yr Adran Ffydd a Bywyd

Derbyniwyd caniatâd tebyg gan Eglwys yr Alban i ddefnyddio'n helaeth ddeunydd o'r gyfres o daflenni yn dwyn yr enw *Frontline*. Cydnabyddir yn enwedig y taflenni *Ministering to the Sick* gan Isobel Grigor a *Ministering in Loss Situations* gan Ken Lawson, a ddefnyddiwyd yn sail i Bennod 5, a "*Bridging the Generation Gap*" gan John Bell, a ddefnyddiwyd ym Mhennod 6.

Cafwyd caniatâd tebyg gan yr Eglwys sy'n Uno yn Awstralia i ddyfynnu o ddau o'i chyhoeddiadau hi, sef:

Your Church Can Come Alive gan Rowland Croucher (1990); a

Elders in a Church Come Alive gan David Merritt (1991).

Rhoddir diolch i'r enwadau hyn am eu hymrwymiad ecwmenaidd yn hyn o beth. Wrth ddefnyddio deunydd yr eglwysi eraill hyn, bu'n rhaid cyfaddasu yma ac acw fel bod y llyfr yn adlewyrchu trefn a thraddodiad Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ond fe hyderir y bydd y llyfr yn hwn o ddefnydd hefyd i'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig, ac i ddiaconiaid gyda'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr, Arweinwyr Dosbarth ac aelodau Cyngor Eglwysi gyda'r Wesleaid, ac eraill.

Gethin Rhys

Coleg Trefeca

Adfent 1998

ON Diwygiwyd a diweddarwyd y llyfr yn hwn gan yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant yn 2014, ac fe'i cyflwynir bellach fel argraffiad diwygiedig o'r gwaith gwreiddiol.

1: Beth yw Blaenor?

ADDOLIAD AGORIADOL

Darllen: Actau 20.17–38

Gwedd:

Dduw Dad, arwain fi yn awr wrth i mi geisio dy ffordd ar fy nghyfer. Crea ynof ymrwymiad newydd i'th wasanaeth. Gosod o'm blaen esiampl Crist Iesu. Llanw fi â doethineb yr Ysbryd Glân. Hyn a ofynnaf, gan ymddiried yn dy ras. Amen.

CYFLWYNIAD

Mae'r bennod hon, ar ôl y cyflwyniad sy'n dilyn, yn cynnwys Astudiaeth Feiblaidd am flaenoriaid a chrynodeb o ddatblygiad y swydd yn hanes yr eglwys. Gall y naill a'r llall o'r adrannau hyn fod yn sesiwn cyfan. Os dewisir defnyddio un yn unig ohonynt, yna fe argymhellir **yn gryf** defnyddio'r Astudiaeth Feiblaidd, a gwahodd aelodau'r grŵp i ddarllen yr adran hanesyddol gartref. Os bwriedir defnyddio Pennod 2 yn y cyfarfod nesaf, yna bydd yr ymarfer "Erbyn y tro nesaf" ar ddiwedd y bennod yn ffurfio dolen gyswllt rhwng y ddau gyfarfod.

Nid oes gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru y fath beth â "swydd ddisgrifiad" i flaenor, na rhestr glir o ddyletswyddau'r cyfarfod blaenoriaid yn ei gynswth. Yr hyn a geir yn Llawlyfr Trefn a Rheolau yw pwyslais ar gyfrifoldeb y blaenor gyda golwg ar gynulleidfa leol a'r Cyfundeb:

Y mae blaenor yr Eglwys Bresbyteriaid Cymru yn ŵr neu'n wraig a alwyd i wasanaethu'r eglwys leol trwy bleidlais a gynhaliwyd yn weddigar ac o dan arweiniad yr Ysbryd Glân. Cymer blaenoriaid ynghyd â'r gweinidog gyfrifoldeb fel tîm am fywyd, addoliad a thystiolaeth y gynulleidfa leol. Yn ôl eu doniau y maent i ymweld â'r cleifion, i addysgu'r ifanc, i arwain a chefnogi'r rhai sy'n ceisio Crist, ac i hyfforddi a chalonogi credinwyr. Disgwylir hefyd iddynt fod â gofal am y Cyfundeb cyfan. Byddant hwy yn Ymddiriedolwyr Rheolaethol yn eu heglwys leol ac y maent i weithio gyda'u cydflaenoriaid a'r gweinidogion i adeiladu corff Crist trwy holl lysoedd yr Eglwys.

Datganiad ar Swydd a Gwaith Blaenor sydd i'w ddarllen cyn enwebu neu ethol blaenoriaid newydd o Llawlyfr Trefn a Rheolau, Ionawr 2010 (tud. 7).

Trafodwch:

Sut y teimlwch o ddarllen y geiriau uchod? A ydynt yn codi braw arnoch? Ydych chi'n credu eich bod chi yn ymateb yn ddigonol i'w her?

Mae llawer o aelodau sy'n cael eu henwebu i fod yn flaenoriaid yn gwrthod, gan gredu nad ydynt yn deilwng o'r swydd ac na allant ysgwyddo'r holl gyfrifoldebau y credant sydd ymhlwg ynddi.

Rhaid pwysleisio mai tîm o bobl a geir yn flaenoriaid mewn eglwys a Henaduriaeth, a bod ganddynt gefnogaeth nid yn unig ei gilydd, ond hefyd rym Duw trwy'r Ysbryd Glân.

Pwrpas y sesiwn gyntaf hon, felly yw rhannu'n profiad o fod yn flaenoriaid (neu ein teimladau am fod yn ddarpar-flaenoriaid) a – gobeithio – cael ychydig o wybodaeth Feiblaidd ac ymarferol a fydd yn lliniaru peth ar ein gofidiau. Fe ddychwelwn ym Mhennod 3 Adran 3, ac eto yn adran olaf Pennod 4, at yr ymdeimlad sydd gan lawer ohonom ein bod yn annigonol ar gyfer y gwaith.



“BLAENORIAID” YN Y BEIBL

Os bwriedir defnyddio'r sylwadau hyn fel sail i drafodaeth, a hynny'n rhan o sesiwn yn hytrach nag yn sesiwn cyfan, yna bydd raid dewis o blith y cyfeiriadau Beiblaidd. Nodir â * yr adrannau sydd bwysicaf.

Cymhlethir pob astudiaeth Feiblaidd am y pwnc hwn gan y geiriau gwahanol a ddefnyddir yn yr Hebraeg a'r Roeg, a'r trosiadau gwahanol ohonynt i'r Gymraeg (ceir mwy o ddryswch byth yn yr holl gyfieithiadau Saesneg sydd ar gael!) Rhaid gofyn i chi droi at esbonwyr i gael eglurhad manwl ar y materion hyn. Nodiadau byrion yn unig a gynigir yma ar rai o'r prif gyfeiriadau. Fe gyfeirir eto at y Beibl yn y sesiynau sy'n dilyn.

Ewyllys Duw, a ddatguddiwyd yn Iesu Grist, yw cymodi'r greadigaeth gyfan â Duw: rhyddhau'r caethion a'r gorthrymedig, iacháu'r dall a'r briwedig o galon, achub pechaduriaid, concro marwolaeth trwy roi bywyd newydd, cyhoeddi'r newyddion da, dwyn cyfiawnder a shalom i bawb (**2 Corinthiaid 5.19; Luc 4.18-20; Galatiaid 3.28**). Trwy rym yr Ysbryd Glân, mae Duw yn galw merched a dynion i fod yn bobl Dduw, corff Crist ledled y byd (**Ioan 15.26; Rhufeiniaid 12; 1 Corinthiaid 12; 1 Pedr 2.9-10**).

Yn ôl tystiolaeth yr Ysgrhythur, mae galwad Duw nid yn unig yn trawsnewid y rhai nad oeddynt yn bobl i fod yn "bobl Dduw", ond mae hefyd yn rhoi i'r bobl hynny gymeriad a chenhadaeth arbennig. Bwriad sylfaenol Duw ar gyfer bob un yw iddynt fyw mewn cymundod ag Ef. Yn blant i Dduw, fe'n gelwir i fyw mewn cymuned â'n gilydd ac i weithio er ehangu'r gymuned gymodlon hon i holl greadigaeth Duw trwy dystio i ras, tosturi a chyfiawnder Duw a ddatgelwyd yng Nghrist, gofalu y naill am y llall, ac i wasanaethu o fewn y gymuned Gristnogol a thrwy'r byd.

Dyma genhadaeth pob un o bobl Duw. Ond mae'r Ysgrhythur yn datgan fod yna wahanol ddoniau gan wahanol aelodau'r corff (**1 Corinthiaid 12.4-10**). Rhoddir y doniau hyn er adeiladu'r corff cyfan, ac yn y Beibl fe geir hanes ymgais pobl Dduw i ddefnyddio'r doniau unigol hyn er lles y corff cyfan, a hynny yn cychwyn ymhell cyn geni Crist.

Yr yr **Hen Destament**, fe glywn am flaenoriaid ("henuriaid") ymysg yr Eifftiaid (**Genesis 50.7**) ac ymysg pobl Moab a Midian (**Numeri 22.7**), yn ogystal ag ymhlith pobl Israel.

***Numeri 11.10-25**: Darllenwch y darn hwn yn ofalus. Mae Duw yn rhannu yr ysbryd a fu ar Moses yn unig rhwng deg a thrigain o henuriaid, i fod yn gynorthwyyr iddo yn ei amryfal dasgau. Ai cynorthwyyr y gweinidog yw'r blaenoriaid? Os felly, beth am flaenoriaid mewn eglwys heb weinidog?

Noder tri pheth:

1. Fe gomisiynwyd yr henuriaid i gyflawni gwaith a chwrdd ag angen, nid er mwyn eu pleser na'u hanrhydedd eu hunain;
2. maent yn gorff, yn dîm, ac nid yn gasgliad o unigolion;
3. mae eu heffeithlonrwydd yn dibynnu ar ysbryd Duw.

Wedi i bobl Israel ymgartrefu ym Mhalestina, fe ymddengys i bob dinas gael corff o henuriaid, gyda chyfrifoldebau gweinyddol a chyfreithiol, megis datrys anghydfod teuluol (**Deuteronomium 25.5-10**) – gwaith y gall ambell i flaenor ei gael o hyd. Mi oedd yna gorff cenedlaethol, "henuriaid Israel", hefyd, a cheir mynych gyfeiriadau at hwnnw. Dyma'r corff y cyfeirir ato yn yr efengylau fel "Sanhedrin" – y corff a gondemniodd Iesu (**Mathew 26.57-68**). Dichon mai dynion doeth gyda chymhellion da oedd aelodau'r Sanhedrin; ond nid oes yr un cyngor, mwy na'r un unigolyn, yn anffaeledig. A fyddai'ch cyfarfod blaenoriaid neu'ch henaduriaeth chi wedi rhyddhau Iesu?

Nid oedd disgyblion Iesu yn gweithredu fel blaenoriaid yn ein hystyr ni, yn ôl a welwn yn yr efengylau. Ond ni fu'n hir cyn i'r swydd ddatblygu. Sylfaen a chartref yr Eglwys Fore oedd yr aelwyd a'r teulu – gweler **1 Corinthiaid 16.19, Rhufeiniad 16.15, Philemon 2, Colosiaid 4.15** ac yn y blaen. Nid "teulu bach" yn ein hystyr ni oedd hwn yn unig, ond teulu ehangach yn cynnwys sawl cenedlaeth, gweision a chaethweision. Yn y tŷ y



cafwyd pregethu a dysgu, ac yno y bwytawyd y bara a rhannu'r gwin. Byddai Cristnogion brafiach eu byd yn gwahodd eraill i ymuno â'r teulu ar gyfer yr achlysuron hyn, ac yn cefnogi'r gymuned yn ariannol.

Anodd i gymunedau felly bara'n hir iawn heb ryw fath ar arweinyddiaeth ddynol. Dengys y Testament Newydd i ni, gyda chryn onestrwydd, sut y bu i'r Eglwys Fore ymgodymu â materion arweinyddiaeth, ac â dadleuon diwinyddol ac yn y blaen. Yn y dyddiau cynnar iawn, wrth reswm, roedd yr apostolion, a fu gyda Iesu yn nyddiau ei gnawd, yn ennyn parch arbennig. Yn yr un modd, roedd eglwys Jerwsalem, canolfan wreiddiol Cristnogaeth, yn ddylanwadol tu hwnt. Ond nid oedd unrhyw drefn ffurfiol. Ymhen amser, ac yn enwedig pan ddaeth erledigaeth o ddifri, bu'n rhaid i'r eglwys sefydlu mwy o drefn.

Mae yn y Testament Newydd lawer o gyfeiriadau at flaenoriaid yn yr Eglwys Fore. Nid oes manylion ynglŷn â sut y cawsant eu penodi nac o ble y daethant. Ar un adeg, roedd pob un o'r gwahanol enwadau Anghydfurfiol yn ceisio dadlau mai eu patrwm nhw o flaenoriaid neu ddiaconiaid oedd y patrwm gwir Feiblaidd. Ond mewn gwirionedd nid yw'r Testament Newydd yn darparu digon o wybodaeth i ni allu barnu felly.

Yn ***Actau 20** (gweler yr addoliad agoriadol), mae Paul yn cyfleu ei neges ffarwél i henuriaid eglwys Effesus. Noder yn arbennig **adnodau 28-31**. Tasg y blaenoriaid yw parhau â gwaith yr apostolion o ofalu am y praid, ac yn enwedig eu harbed rhag gau athrawon. Ydy blaenoriaid cyfoes yn gweld fod iddynt swyddogaeth athrawiaethol neu ddiwinyddol felly?

Gwelir siars debyg yn **1 Pedr 5.1-4**, lle mae'r awdur yn galw ei hunan yn "henuriad", ac yn eu gorchymyn: "Bugeiliwch braidd Duw sydd yn eich gofal". Y tro hwn, gwelir gosod esiampl yn rhan o'r bugeilio.

Yn **Iago 5.14** fe ymddengys y dyletswydd o ymweld â'r cleifion: mae'r henuriaid i ymweld â'r claf a gweddio gydag ef, a'i eneinio ag olew. Math o feddyginiaeth oedd yr eneinio hwn. Ydy e o hyd yn berthnasol gyda datblygiad meddygaeth fodern?

Yn ***Actau 11.29-30** fe sonnir am ddanfôn rhoddion gyda Barnabas a Saul i helpu'r eglwys yn Jwdea, gyda henuriaid yr eglwys honno yn derbyn y rhoddion. Ai blaenoriaid sydd yn gyfrifol am arian yr eglwys? Ai dyma'r prif gyfrifoldeb a osodir arnynt?

Pan gododd anghydfod yn eglwys Antiochia, fe ddanfônwyd cenhadon yno o Jerwsalem a ddewiswyd gan yr apostolion a'r henuriaid, a'r apostolion a'r henuriaid yn Jerwsalem a ddaeth i ddyfarniad. (**Actau 15.2, 6, 22-29; 16.4-5**). Faint o waith blaenor heddiw sy'n ymwneud â datrys anghydfod o fewn yr eglwys?

Diddorol yw'r cyfeiriad yn **1 Timotheus 5.17**: "Y mae'r henuriaid sy'n arweinwyr da yn haeddu cael dwbl y gydnabyddiaeth, yn arbennig y rhai sydd yn llafurio ym myd pregethu a hyfforddi." Mi oedd o leiaf rai o'r henuriaid, felly, yn broffesiynol, yn cael eu cynnal gan yr eglwys. Mae'n awgrymu hefyd fod rhai o blith yr henuriaid yn pregethu a hyfforddi, ac eraill ddim. Dyma darddle'r syniad a geir gan rai eglwysi Presbyteriaid mai "blaenor sy'n dysgu" (teaching elder) yw'r gweinidog, a "blaenoriaid sy'n rheoli" (ruling elders) yw'r gweddill.

Roedd y blaenoriaid yn gweithredu fel corff – gweler **1 Timotheus 4.14**, lle dywedir i Timotheus gael ei ordeinio "trwy eiriau proffwydol ac arddodiad dwylo'r henuriaid". Mae'r iaith Roeg yn eglur mai fel corff (h.y. fel "henaduriaeth") y gwnaeth y blaenoriaid hyn – a dyna gyfiawnhad ein harfer ni o ordeinio'r blaenor mewn cyfarfod o'r henaduriaeth.

Yn **Actau 14.23** clywn am Paul a Barnabas yn penodi henuriaid ym mhob eglwys. Yn **Titus 1.5** dywedir i Paul gymell Titus i wneud yr un fath yng Nghreta. Pwy sydd â'r hawl i benodi blaenoriaid? Ydy'n trefn ni yn addas, gweddus a Beiblaidd? (Llawlyfr Trefn 2010, tt.7-8. Gweler hefyd Pennod 2 yn y llyfr hwn. Ceir rheolau gwahanol ar gyfer eglwysi cyd-enwadol ond pwysleisiodd Cymanfa Gyffredinol 2013 yr angen am etholiad ym mhob sefyllfa [Gweithrediadau y Gymanfa Gyffredinol, Adroddiad Bwrdd y Gymanfa Gyffredinol, Rhif 13.1.1, t.46).

Ond nid oedd henuriaid gan bob eglwys. Yn **Actau 13.1**, er enghraifft, cyfeirir at ddim ond "proffwydi ac athrawon" yn Antiochia. Yn **Philipiad 1.1** cyfeirir at "esgobion a diaconiaid" yn unig. Nid oedd rhaid i bob

eglwys leol fod yn unffurf. Faint o amrywiaeth trefn sy'n briodol i'n heglwys ni? Ydy blaenoriaid ordeiniedig yn hanfodol i bob eglwys leol? Os felly, beth am yr eglwysi hynny – rhai bychain, fynychaf – lle nad oes yr un blaenor bellach? Datganodd Cymanfa Gyffredinol 2013 y dylid, yn ddelfrydol, gael o leiaf un blaenor ym mhob eglwys, y dylai'r Henaduriaeth benodi blaenoriaid o eglwys gyfagos i oruchwylio bywyd cynulleidfa heb flaenoriaid pe bai angen (a nodwyd eu cyfrifoldebau). Os na ellir codi blaenoriaid mewn cynulleidfa felly o fewn saith mlynedd y dylid uno'r gynulleidfa honno â chynulleidfa gyfagos (gw. Gweithrediadau y Gymanfa Gyffredinol 2013, Adroddiad y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth, rhif 1.4.1, t. 82)

Yn y Testament Newydd, gelwir henuriaid hefyd yn "esgobion". Gweler, yn enwedig, ***Titus 1.5-8**, lle defnyddir y ddau enw am yr un swydd. Ond fe ddaeth y ddau air i olygu dwy swydd wahanol yn fuan wedi hynny. Ystyr "esgob" (*episcopos* yn y Roeg) yw "arolygydd" (gweler troednodyn y BCN 1988 i **Titus 1.7**). Defnyddir yr un gair yn **1 Timotheus 3.1-7**, sy'n rhestru rhinweddau angenrheidiol yr arolygwyr.

Felly, daeth yr "esgob/arolygydd" yn gadeirydd ar gorff y blaenoriaid, sef ar yr henaduriaeth fel petai. Dyma ddechrau'r datblygu mawr ar swydd yr esgob, a barodd trwy'r Oesoedd Canol (gweler yr adran nesaf). Dyma hefyd pam y mae llawer o waith esgob Anglicanaidd neu Babyddol yn cael ei gyflawni yn ein trefn ni gan yr henaduriaeth fel corff.

Yn olaf, awgrymir eich bod yn troi at ***Lyfr y Datguddiad 4 & 5**. Yma fe geir disgrifiad byw o ran yr "henuriaid" yn addoliad y nef. Plygant o flaen gorsedd Duw ac addoli'r Oen. Pa faint bynnag yw ein consyrn gweinyddol a bugeiliol, nac anghofiwn mai pennaf waith y blaenor – fel pob Cristion arall – yw addoli Duw.

Nid oes yn y Testament Newydd, felly, lawlyfr ar gyfer gwaith blaenor na henaduriaeth. Ond mae'n amlwg fod y patrwm Beiblaidd yn golygu penodi ymhob eglwys leol gorff o bobl ymroddedig, wedi'u dewis yn ddoeth a'u comisiynu'n briodol, i ofalu am les yr eglwys a'i haelodau ymhob ffordd bosibl.

Trafodwch:

I ba raddau y mae'r adrannau o'r Beibl a nodwyd yn rhoi "swydd ddisgrifiad" neu restr o ddyletswyddau perthnasol i'n cyfnod ni?

DATBLYGIAD SWYDD Y BLAENOR YN HANES YR EGLWYS

Er gwaetha'r sail Feiblaidd a nodwyd, fe ddiflannodd swydd yr "henuriad" o hanes yr eglwys am ganrifoedd. Gellir nodi tri rheswm, yn fras, am hyn:

1. Yr awydd am hierarchaeth. Mae dynion a merched yn dueddol iawn o geisio gosod pob swydd mewn hierarchi. Doedd hynny ddim yn wir am henuriaid, diaconiaid, esgobion, proffwydi ac ati yn yr Eglwys Fore, fel y gwelsom. Ond cyn bo hir, fe "dacluswyd" pethau. Daeth yr esgob yn ben ar eglwysi dros ardal eang, gyda presbyteros (henuriad, o'i gyfieithu) ymhob eglwys a diaconiaid yn ei gynorthwyo. Dyma'r "weinidogaeth driphlyg" a weithredir, ar ffurf ychydig yn wahanol, gan Anglicaniaid, Eglwysi Uniongred y Dwyrain a Phabyddion o hyd.
2. Datblygu'r syniad o'r "weinidogaeth". Wrth i nifer helaeth o bobl droi oddi wrth baganiaeth ac ymuno â'r eglwysi bychain, cymharol ddi-drefn ac anffurfiol, fe ddaeth yr angen am sicrhau fod yr aelodau newydd yn deall safonau a buchedd Gristnogol. Dyma'r rheswm, felly, dros agor gagendor rhwng y "weinidogaeth" broffesiynol, a'r "lleygwyr" cyffredin – bwlch nad yw'n eglur o gwbl yn y Testament Newydd (gweler, er enghraifft, **1 Corinthiaid 12**).
3. Datblygu'r offeiriadaeth. O fewn y weinidogaeth, datblygodd y presbyteroi yn "offeiriad", tebycach i offeiriadaeth yr Hen Destament, gyda'r gallu i wneud pethau a waharddwyd i leygwyr, megis llywyddu yn y cymundeb, cynnig maddeuant pechodau neu gyhoeddi bendith Duw yn gyhoeddus. Nid oes i'r gwahaniaethau hyn sail yn y Testament Newydd.



Gyda'r Diwygiad Protestannaidd, ail-ddarganfuwyd gweinidogaeth ehangach i ddynion (ond nid eto i ferched) oddi fewn i'r eglwys. I John Calfin (1509–1564) y gellir priodoli sefydlu trefn yr eglwys Ddiwygiedig. Fe rannodd e swyddi'r Eglwys Fore yn ddau – y rhai oedd dros dro ac yn berthnasol i'r eglwysi cynnar hynny yn unig (e.e. apostolion, proffwydi ac efengylwyr) a'r swyddi parhaol. Roedd pedair o'r rhain, meddai (Ordinances 1541):

1. bugeiliaid – a oedd i gyhoeddi'r Gair a gweinyddu'r sacramentau;
2. doctoriaid – a oedd i ddysgu;
3. blaenoriaid – a oedd i gynnig gofal bugeiliol ac arweiniad cenhadol;
4. diaconiaid – a oedd i wasanaethu'r tlodion.

Gwelai Calfin sail ysgrythurol i'r rhestr yn y cyfeiriadau at "ddoniau'r Ysbryd" yn **Rhufeiniaid 12.4–8** a **1 Corinthiaid 12.28**. Gan gredu fod pob un o'r "doniau" yn cyfateb i swydd arbennig o fewn yr eglwys, fe ystyriai Calfin y blaenoriaid yn arweinwyr – roeddynt wedi'u hethol o blith y bobl i fod yn gyfrifol gyda'r esgobion (h.y. y bugeiliaid) am oruchwylio moesoldeb a gweithredu disgyblaeth.

Anodd gweld ar sail pa adnodau y dosranodd Calfin y cyfrifoldebau hyn, ond fe gydiodd y syniad, a daeth henuriaid, hynny yw blaenoriaid neu presbyteroi fel y'u gelwid yn y Roeg, yn nodwedd amlwg o'r eglwysi Diwygiedig. Dyna darddiad, felly, yr eglwysi "Presbyteriaidd". Yng Ngenefa dan reolaeth Calfin, fe etholid y Blaenoriaid yn flynyddol a'r bwriad oedd iddynt fod yn swyddogion cyflogedig, llawn amser.

Nid tan 1581 yn *Second Book of Discipline*, Andrew Melville yn yr Alban y cafwyd y syniad fod i'r blaenor swydd am oes. Yn ystod yr 17eg ganrif fe ddatblygodd y syniad nad llygwr cyffredin oedd y blaenor. Dylid galw'r blaenor yn "flaenor llywodraethol", o'i wrthgyferbynnu'r â'r "blaenor dysgu", sef y gweinidog. Dadleuodd Comisiynwyr yr Alban yr achos hwn yng Nghymanfa Westminster ym 1644 a luniodd Gyffes Westminster, ond nid enillon nhw'r dydd ar y mater hwnnw. Serch hynny, erbyn y 18fed ganrif – cyfnod Howell Harris – roedd y syniad wedi cydio ymysg yr eglwysi Presbyteriaidd neu Galfinaidd.

Gwelir i Calfin hefyd ail-gyflwyno swydd y "diacon", oedd yn ymwneud â gwaith dyngarol ac elusennol yr eglwys (gweler **Actau 6.1–6**). Nid oedd y diaconiaid hyn yn cael eu hordeinio. Wrth i'r eglwysi Diwygiedig ddatblygu, fe fu yna duedd i swyddi'r blaenoriaid a'r diaconiaid orgyffwrdd, ac yna cael eu cyfuno. Erbyn hyn, ar y cyfan ceir diaconiaid yn yr eglwysi Annibynnol a Bedyddiedig, a blaenoriaid yn yr eglwysi Presbyteriaidd, a'r naill yn cyflawni swyddogaeth debyg iawn i'r llall.

Yn dilyn y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru, fe fabwysiadodd y Methodistiaid Calfinaidd drefn unigryw, oherwydd eu hamgylchiadau unigryw – hyd 1811 ffurfio yr oeddynt "seiadau" (cymdeithasau) o fewn yr eglwys wladol. Mae Gomer Roberts yn esbonio beth ddigwyddodd yn y blynyddoedd cynnar fel a ganlyn:

Dysgodd [Howell] Harris rywbeth am drefn y seiadau Seisnig yn ystod ei ymweliad â Llundain [yn 1739], a mabwysiadodd eu termau, megis band (cwmni bychan o wŷr neu wragedd), leader a steward, ... a ofalai am gasgliadau'r seiat. Gwyddys i Harris geisio penodi stiwardiaid ymhob seiat o gyloch Trefeca yn 1741, sef y rhai mwyaf ysbrydol o blith yr aelodau, a'u gwaith oedd holi profiad a disgyblu. ... Yn ddiweddarach daeth y term goruchwyliwr i fri yn y seiadau Cymraeg, eithir ymhen amser daethpwyd i'w adnabod fel blaenor a'i swydd a'i waith yn cyfateb i'r leader ac i'r steward fel ei gilydd.

(Y Deffroad Mawr t. 167)

Nid oedd gan y Methodistiaid cynnar weinidogion (ar wahân i'r ychydig a ordeiniwyd gan yr Eglwys Wladol), ac fe alwyd y rhai a chanddynt ofal am y seiadau yn gynghorwyr neu exhorters:

Gwahaniaethwyd rhwng cynghorwyr cyhoeddus ("public exhorters") a chynghorwyr preifat neu anghyhoedd ("private exhorters"); y cyntaf i ofalu am nifer o seiadau ac i ymweld â hwy yn eu tro, a'r ail i wasanaethu yn ôl eu hamser a'u doniau mewn dwy neu dair seiat. Nid oedd y cynghorwyr i fynd y tu allan i'w cylch ond trwy ymgynghoriad a chaniatâd. Disgwylid i'r cynghorwyr cyhoeddus ymweld â seiadau'u gofal, gyda chymorth y rhai anghyhoedd, ddwywaith y mis. ... Nodir gwaith y cynghorwyr ag amryw ymadroddion – "over-look, take care, watch over, visit the societies, &c." Disgwylid adroddiad ysgrifenedig oddi wrthynt am gyflwr y seiadau, a manylion am eu haelodau, i'w trafod yn y sasiwn (op cit., t. 181).

Nid oedd y blaenoriaid na'r cynghorwyr yn cael eu hethol gan y gynulleidfa, felly trefn Fethodistaidd yn hytrach na threfn Bresbyteraidd oedd hon. Erbyn cyfnod Thomas Charles, roedd y blaenoriaid yn ogystal â'r cynghorwyr yn aelodau yn y cwrdd misol (yr hyn a elwir bellach yn henaduriaeth) a'r Sasiwn. Ond gan y cyrff hynny y caent eu penodi o hyd nes i Charles berswadio'r Sasiwn tua 1800 i ganiatáu i bob cymdeithas ddewis ei blaenoriaid ei hun, a'r rheini yn aelodau o'r Sasiwn yn rhinwedd cael eu hethol. Ys dywed John Roberts,

Dyma'r cam mawr a wnaeth y cylch caeëdig o offeriaid a gofalwyr penodedig, i fesur, yn gorff o gynrychiolwyr.

(Methodistiaeth Galŷinaidd Cymru, Darlith Davies 1930, t. 129)

Cadarnhawyd y daith i gyfeiriad Presbyteriaeth gan roi i gorff y Sasiwn yr hawl i ordeinio gweinidogion. Fe fabwysiadwyd yr enw "Eglwys Bresbyteraidd Cymru" i adlewyrchu hynny yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif. Dechreuwyd yr arfer o "ordeinio" blaenoriaid yn ffurfiol, yn hytrach na'u "neilltuo" yn unig, yn Ebrill 1948.

Ond ni daeth yr "Hen Gorff" yn gyfangwbl debyg i gyrff Presbyteraidd eraill, ychwaith. Roedd y ffaith fod blaenoriaid yn cael eu hethol am eu hoes, a bod hawl gan bob un ohonynt (ac nid cynrychiolwyr etholedig yn unig) i fynychu y Cwrdd Misol a'r Sasiwn yn golygu na ddaeth y cyrff hyn erioed yn gyrff cwbl gynrychioliadol eu naws.

Fe ddychwelwn at y materion hynny a'u hoblygiadau ym Mhennod 7.

Trafodwch:

1. Ydy'r ffaith ein bod wedi gwyro mor bell oddi wrth drefn wreiddiol Howell Harris yn dangos ein diffyg dealltwriaeth o'i waith? Neu a ydyw yn dangos fod amserau a chyd-destun wedi newid? A oes rywbeth gennym i'w ddysgu gan ei drefn ef?
2. Beth yw prif waith y blaenor – bod yn gynrychiolydd etholedig y bobl, neu fod yn swyddog ordeiniedig yn yr eglwys?

Erbyn y tro nesaf:

Beth ddylai fod yn "swydd ddisgrifiad" y blaenor cyfoes? Efallai y gallech baratoi rhestr erbyn y cyfarfod nesaf.



2: “Swydd Ddisgrifiad” y Blaenor

ADDOLIAD AGORIADOL

Darllen: Numeri 11.16–30; Effesiaid 4.22–32

Gweddi: I'w darllen yn ymatebol gan Arweinydd (A) a'r grŵp cyfan.

A: Os oeddent yn credu fod bod yn henuriaid
yn golygu statws yn hytrach na chyfrifoldeb;
os oeddent yn credu mai tasg ar gyfer eu harweinydd arwrol
oedd cario “baich y bobl”,
yna fe'u gorfodwyd gan Dduw i newid eu meddwl.

Pawb: **Clyw ein gweddi, Arglwydd,
dros bawb sy'n cario baich dioddefaint y byd ar eu hysgwyddau:
y tlodion sy'n talu am bechodau'r bras eu byd;
y sawl sydd heb ffrindiau am eu bod yn ceisio heddwch;
gweithwyr elusennau sy'n wynebu gwewyr a phoen dioddefaint;
a thros y sawl sy'n gwadu fod dyletswydd arnynt dros eraill,**

A: Nid yw cychwyn y daith yn warant y byddwn yn cyrraedd y nod;
nid yw profi grym Duw unwaith yn golygu ei fod ar gael bob tro yn ôl ein dymuniad ni.

Pawb: **Bydd yn gymorth i ni, Arglwydd, yn barhaus.
Rhanna faich a llawenydd dy wasanaeth di
tu hwnt i rengoedd y rhai a ddewiswyd eisoes
i'r sawl sy'n gweithio yn y maes.**

Trosiad o Pamela Turner, *Journeying* (Llawlyfr Gweddi 1997, 25 Mai)

CYFLWYNIAD

Fel y gwelwyd yn adran ddiwethaf Pennod 1, nid oes i'r Eglwys Bresbyteraidd offeiriad nac esgobion. Credwn fod rhan yr unigolion hyn mewn eglwysi eraill yn cael ei chwarae gan ein llysoedd, yr Henaduriaeth, y Gymdeithasfa a'r Gymanfa (gweler Pennod 7).

Felly yn sail i'n trafodaeth ar waith y blaenor y mae un o gredöau canolog ein traddodiad Diwygiedig, sef **offeiriadaeth yr holl gredinwyr**. Golyga hyn fod gweinidogaethu a rhedeg yr eglwys yn waith i holl bobl Duw ac nid i ychydig dethol neu ambell unigolyn. Gan yr eglwys leol gyfan yr etholir y blaenoriaid, ac i'r eglwys leol a'r Henaduriaeth gyfan (o dan awdurdod Duw) y maent yn atebol.



Mae Iesu Grist, yr Arglwydd a groeshoeliwyd ac a gyfodwyd, yn trigo ymysg holl bobl Duw. Fe weithredir yr awdurdod sy'n llifo o'i bresenoldeb yn bennaf gan y corff cyfan. ... Caiff pob gweinidogaeth ei hawdurdod gan Iesu Grist er gwasanaethu ac adeiladu'r corff cyfan. Yng nghwrs hanes, yn aml fe anghofwyd am yr awdurdod hwn a roddwyd i gymuned gyfan y credinwyr. Mae'r gred fod pob aelod o gorff Crist yn rhannu mewn un offeriadaeth frenhinol gyffredin ar y cyd yn arwain at bwyslais parhaus ymysg yr eglwysi Diwygiedig fod yr Ysbryd Glân yn rhoi'r brif awdurdod i cymuned gynulleidig yr Eglwys gyda golwg ar bob agwedd ar lywodraeth eglwysig.

(Lukas Vischer (gol.), *Elders in the Reformed Churches Today* (Cynghrair Fyd-eang yr Eglwysi Diwygiedig, Genefa, 1991), t. 12)

Beth, felly, a olygir wrth **ordeinio** blaenor? Fe ordeinir gweinidogion hefyd, wrth gwrs. Beth yw ystyr hynny? Nid oes unrhyw "hud a lledrith" ynghylch ordeinio. Nid yw'r rhoi i rywun ryw alluoedd cyfriniol nad oedd ganddo neu ganddi gynt. Ond nid yw hynny'n golygu nad yw o bwys. Mae'n gydnabyddiaeth ar ran yr Eglwys i'r person hwn gael ei alw, a hynny gan Dduw, i weinidogaeth arbennig o fewn gweinidogaeth gyfan yr Eglwys; mae'n weddi, yn gofyn am fendith Duw ar yr unigolyn hwn; ac mae'n weithred o awdurdodi, yn gosod y person hwn ar wahân ar gyfer ei weinidogaeth arbennig ac yn ei gomisiynu i'w chyflawni yn enw'r Eglwys gyfan.

Os yw hyn oll yn wir am weinidogion y gair a'r sacramentau, yna mae'r arfer o ordeinio blaenoriaid – a fabwysiadwyd gan y Cyfundeb ym 1948 – yn dyst i'r gred Ddiwygiedig fod angen y math hwn o gomisiynu ar y sawl sy'n gweithredu'r weinidogaeth hon hefyd, a bod yna bartneriaeth arbennig rhwng y gweinidog a'r blaenoriaid. Fe fydd y blaenoriaid yn cefnogi'r bugail yn ei ddyletswyddau arbennig o bregethu a gweinyddu'r sacramentau, gan ei annog a rhoi iddo arweiniad beirniadol. Yn ei dro, bydd y bugail yn gwasanaethu'r blaenoriaid wrth iddo gyhoeddi'r Gair, ac felly gyhoeddi sylfaen eu gweinidogaeth a'u tystiolaeth hwy fel blaenoriaid.

Wrth gwrs, mewn llawer o'n heglwysi nid oes yna bellach weinidog y gair a'r sacramentau. Yn y sefyllfa honno fe fydd yn rhaid i'r blaenoriaid sicrhau fod gweinidogaeth pregethu a'r sacramentau yn parhau o fewn y gynulleidfa. Mewn ambell sefyllfa, fe fydd angen i'r blaenoriaid eu hunain ysgwyddo cyfrifoldebau a fyddai fel arall yn cwmpo ar ysgwyddau'r gweinidog. Fe fydd angen i flaenor fod yn gyfrifol am gadeirio ac arwain cyfarfodydd hefyd.

Yn y rhan fwyaf o eglwysi Cristnogol, ystyrir ordeinio rhywun i'r weinidogaeth yn rhywbeth parhaol, a bery am oes y person hwnnw. Wrth gwrs, nid yw bob tro yn eglur beth yw ei ystyr wedi i rywun ddewis "gadael y weinidogaeth", ond o ran egwyddor rhywbeth parhaol ydyw. Mae ordeinio blaenor yn gydnabyddiaeth barhaol yn yr un modd. Unwaith i fab neu ferch gael eu dewis gan eu cyd-aelodau fel rhywun â chanddynt y doniau anghenrheidiol ar gyfer y weinidogaeth hon, ni ellir tynnu'r gydnabyddiaeth honno yn ôl. Nid yw ethol blaenoriaid yn fater o gystadleuaeth poblogrwydd – gall poblogrwydd ddiflannu'n sydyn iawn (fel y gwnaeth yn hanes Iesu rhwng Sul y Blodau a Gwener y Groglith). Ac nid yw blaenor bob amser yn gwasanaethu fel blaenor. Os yw'n symud o un eglwys i un arall, nid yw'n flaenor yn ei eglwys newydd oni bai ei fod yn cael ei ethol o'r newydd. Trafodir achlysuron eraill pan fydd angen "rhyddhau" blaenor o'i ddyletswyddau yn ddiweddarach yn y bennod hon.

Pan ordeinir gweinidog, neu ei sefydlu mewn gofalaeth newydd, mae'n ymrwymo i dasgau a chyfrifoldebau neilltuol (*Llawlyfr Trefn a Rheolau* tud. 77 – gweler isod). Er nad yw'r rhestr honno yn cwmpasu holl waith y gweinidog, mae'n rhoi arweiniad clir o ran blaenoriaethau. Nid oes restr swyddogol debyg i flaenoriaid – ond gweler Pennod 8 am y gofynion a restrir yn y *Llawlyfr Trefn* ac awgrymiadau eraill ar gyfer agenda cyfarfodydd.



Trafodwch (1):

P'un o'r rhain fyddech chi'n ei ystyried yn hanfodol i bob blaenor? A pha rai sy'n dasgau hanfodol i o leiaf rai o blith blaenoriaid pob eglwys?

1. Cymryd eich tro wrth ddrws y capel i groesawu aelodau ac ymwelwyr.
2. Mynychu addoliad cyhoeddus yn rheolaidd.
3. Cynorthwyo gyda dosbarthu bara a gwin y cymundeb.
4. Ymweld ag aelodau yn eu cartrefi o fewn ardal arbennig.
5. Gwneud mynychu cyfarfodydd yr Henaduriaeth yn flaenoriaeth dros ymrwymadau cymdeithasol.
6. Cynorthwyo gyda chyfrif y casgliad ar ôl oedfa'r Sul.
7. Ymweld â newydd-ddyfodiaid i'r fro a'u gwahodd i'r capel.
8. Darllen yr ysgrythur neu gymryd rhyw ran arall mewn arwain addoliad cyhoeddus.
9. Arwain dosbarth Beiblaidd neu ddosbarth ysgol Sul yr oedolion.
10. Cysylltu â thrigolion eraill yn yr ardal nad ydynt yn aelodau o'r gynulleidfa.
11. Datblygu a gweithredu cynlluniau efengylu o fewn y gynulleidfa a'r fro.
12. Meithrin gwaith ecwmenaidd yn y cylch.
13. Cadw safonau disgyblaethol yr eglwys, gan gynnwys tynnu enwau oddi ar restr yr aelodau pan fo angen (Gweler Pennod 4).
14. Trefnu ysgol Sul y plant a gwaith ieuenctid.
15. Trefnu gwaith Cymorth Cristnogol o fewn yr eglwys.
16. Cynnal a chadw'r adeiladau (gyda chymorth arolygon tymhorol yr Henaduriaeth).
17. Darllen *The Treasury* a/neu *Y Goleuad* a chyfnodolion Cristnogol eraill.
18. Mynychu'r Cwrdd Gweddi a chyfarfodydd eraill yr wythnos.
19. Mynychu cyrsiau hyfforddi.
20. Cadw mewn cysylltiad â defnyddwyr eraill yr adeiladau.
21. Mynychu oedfaon cymundeb neu fedydd a gynhelir mewn tai annedd.

A hoffech ychwanegu rhywbeth arall at y rhestr?

Trafodwch (2):

Ffordd arall o ystyried yr un cwestiwn yw rhannu swyddogaethau'r blaenoriaid yn bedwar categori, sef:

1. Gofalu am bobl/bugailio;
2. Gweinyddu'r eglwys;
3. Cynllunio ymlaen, meddu ar a rhannu gweledigaeth at y dyfodol;
4. Bod yn arweinydd i'r eglwys ac i'r gymdeithas leol.

O osod y peth fel hyn, hawdd gweld na fydd y rhan fwyaf o flaenoriaid unigol yn anelu at gyflawni mwy nag un neu ddau o'r rhain. Fe ellir cyflawni'r holl swyddogaethau hyn dim ond o weithredu fel tîm, yn rhannu cyfrifoldebau ac yn rhannu'r baich.

1. Ym mha un o'r pedwar categori y teimlwch fod eich galluoedd chi fwyaf defnyddiol?
2. O fewn eich cyfarfod blaenoriaid, faint sydd ar eu gorau ymhob un o'r pedwar maes?
3. Oes yna gynrychiolaeth gytbwys o'r agweddau hyn yn eich plith, neu a ydyw un agwedd yn tra-arglwyddiaethu ar y lleill?
4. Ydym ni'n gofyn i flaenoriaid wneud gwaith neilltuol, neu ofyn iddynt fod a dod yn bobl neilltuol?

Trwy gydol y llyfr hwn, ar y tîm fydd y pwyslais – ni fydd disgwyl i unrhyw flaenor unigol wynebu'r holl gyfrifoldebau a gweithredu yn yr holl feysydd a amlinellir. Ond gyda'i gilydd, fe fyddai'n beth da i flaenoriaid eich eglwys neu'ch gofalaeth o leiaf ystyried yr holl feysydd.

Y BLAENOR A'R GWEINIDOG

Fe fydd llawer blaenor yn teimlo mai rhywbeth nas cyfeiriwyd ato uchod yw eu prif dasg – "cynorthwyo'r gweinidog". Dyna fydd cred ambell weinidog hefyd! Ond yr hyn a addunedir gan flaenor wrth gael ei ordeinio yw "cydweithio'n deyrngar â'r Gweinidog a'ch Cyd-Flaenoriaid..." (Llawlyfr Trefn a Rheolau t. 86) – h.y. bod yn rhan o dîm. Nid yw'n bosibl i'r gweinidog fod ymhobman yr un pryd, ac felly bydd raid i'r blaenoriaid, wrth "gydweithio â'r Bugail", gymryd at waith arweinyddol a gweinyddol o fewn eu cylch eu hunain.

Mae nifer o'n heglwysi bellach yn **ddi-weinidog am dymor hir** am na ellir ffurfio gofalaeth resymol yn y cylch. Yma, y blaenoriaid fydd yn ysgwyddo llawer o faich y gweinidog hefyd. Fe geir cymorth yr Henaduriaeth i drefnu pregethwyr ar rai Suliau, gweinidogion i weinyddu'r cymundeb, ac ati. Hefyd y mae gan yr henaduriaeth hawl i enwebu blaenoriaid ar gyfer cael eu hyfforddi i weinyddu'r sacramentau o'i mewn.

Fe all y bydd blaenoriaid mewn sefyllfaoedd fel hyn yn cael Pennod 8, sy'n sôn am drefnu a chynnal cyfarfod, yn arbennig o ddefnyddiol. A chofiwch fod pob blaenor yn rhan o dîm y tu hwnt i'w eglwys leol, o fewn yr Henaduriaeth, lle y ceir gweinidogion a blaenoriaid eraill a ddylai fod yn barod eu cymorth a'u cefnogaeth.

Ar gyfer eglwysi sydd â gweinidog – Trafodwch:

Os yw "b" yn golygu blaenor a "g" gweinidog, beth fyddai'ch gweledigaeth chi o berthynas y gweinidog a'r blaenoriaid? Ai:

1. G b b b b b b b
2. b b b b b b b
3. B B B B B B B – g
4. g g g g g g g g g
5. b b b b g b b b b

Gall cyflwyno gweinidog i blith tîm sefydlog o flaenoriaid fod yn rhyddhad weithiau – "gall hwn/hon wneud y gwaith i ni nawr!" Neu fe all fod yn fygythiad i dîm sydd eisoes yn gweithio'n gyfforddus. Fe all fod yn gatalydd i waith newydd, neu'n rhwystr i waith sydd eisoes ar droed.



Beth, felly, yw gwaith penodol gweinidog? Mae'r gwasanaeth sefydlu gweinidog yn cyfeirio at nifer o dasgau (Llawlyfr Trefn t. 77):

1. Ymroi i bregethu Efengyl Iesu Grist yn ei chyfoeth a'i phurdeb i bobl yr ofalaeth;
2. Gweinyddu'r Sacramentau gyda phob parchedig ofn;
3. Cyfrannu addysg grefyddol a darparu ar gyfer noddi ac adeiladu pobl yr ofalaeth yn y Ffydd;
4. Ymweld â'r trallodus a'r sawl a esgeulusa foddion gras;
5. Tystiolaethu i'r Efengyl mewn gair a gweithred i'r rhai sydd y tu allan i'r Eglwys.

Y rhain ddylai fod yn flaenoriaethau i'r gweinidog yn ei waith. Noder nad oes yma gyfeiriad at gynnal a chadw adeiladau na chodi arian na nifer o dasgau cyffelyb sydd yn rhan o faes gwaith y blaenoriaid.

Trafodwch:

1. P'un o'r pum tasg a osodir ar y gweinidog ddylid eu rhannu â'r blaenoriaid, a pha rai sy'n fusnes iddo fe/hi yn unig?
2. Edrychwch eto ar 21 tasg y blaenoriaid. Faint o'r rhain sy'n gyfrifoldeb i'r gweinidog hefyd?

BLAENORIAID IFAINC

Fe all y pennawd hwn fod yn dipyn o sioc – nid yw'n cyfateb i'r ddelwedd draddodiadol o flaenor i hwnnw fod yn ifanc! Ond fe all fod yn fanteisiol iawn i eglwys gael blaenoriaid ifainc.

Trafodwch:

A yw oed blaenor yn bwysig? Neu ai aeddfedrwydd sy'n bwysig?

Gall eglwysi ddiodef yn fawr nid trwy gael blaenoriaid ifainc, ond trwy ethol blaenoriaid anaeddfed. Fe all person 30 neu 50 neu 70 mlwydd oed fod yn gwbl anaeddfed, ac felly yn anaddas i ddal swydd blaenor, beth bynnag fo'i rinweddau eraill.

Os etholir rhywun ifanc yn flaenor, yna mae e neu hi yn flaenor. Ni ddylid ei gadw draw rhag gwaith pwysicaf yr eglwys, na chwaith ei arddangos ar bob achlysur fel pe bai'n anifail mewn swê. Mae pob blaenor yn aelod o'r tîm. Pan etholir blaenor y tro cyntaf, yna fe fydd angen cymorth arno i ddechrau ar y gwaith, nid oherwydd ei oedran ond am ei fod yn newydd. Mae hyn yn wir am flaenor newydd yn ei 60au neu'i 70au hefyd.

Fe all Cyfarfod Blaenoriaid ag ynddo rychwant eang o oedrannau osod esiampl i'r eglwys a'r gymdeithas o sut y gellir cydweithredu a chymdeithasu ar draws gagendor cenedlaeth. Gall y rhai hŷn ddysgu gan frwdfrydedd neu swildod yr ifainc; gall yr ifainc ddysgu gan geidwadaeth neu hunanhyder y rhai hŷn. Mae'n gyfle gwych i feithrin partneriaeth newydd.

SUT MAE ETHOL BLAENORIAID?

Fe esbonnir manylion y drefn ar gyfer ethol blaenoriaid yn Llawlyfr Trefn a Rheolau (tt 7-9). Gwelir yno mai mater yn bennaf i'r Henaduriaeth y bydd y blaenoriaid newydd yn ymuno â hi yw trefnu'r etholiad. Gall y blaenoriaid presennol mewn unrhyw eglwys ofyn am gael etholiad ar unrhyw adeg pan gredant fod hynny'n angenrheidiol; fel arall, fe gynigir cyfle unwaith pob saith mlynedd.

Dylid darllen y Datganiad ar Swydd a Gwaith Blaenor (t. 7 yn y Llawlyfr Trefn a Rheolau – gweler Pennod 1 y llyfr hwn) yn y cyfarfod lle yr etholir blaenoriaid.

Mae'n bwysig bod yr etholiad ei hun yn cael ei gynnal mewn awyrgylch tawel, gweddigar. Dyna pam y mae'r Llawlyfr Trefn yn gwahardd yr Henaduriaeth rhag cynnal etholiad os yw'r eglwys yn dioddef gan "derfysg ac ymbleidio" (t.7). Ni ddylid cymharu'r etholiad ag etholiad i lywodraeth leol, er enghraifft. Ni ddylid **byth** ganiatáu canfasio – yn wir fe fyddai hynny ynddo'i hunan yn arwydd o "ymbleidio" ac felly yn rheswm dros atal yr etholiad. Dylid cynnal yr etholiad, i'r graddau fod hynny'n ddynol bosibl, dan arweiniad Duw. Felly, os yw'r cyfarfod eglwysig yn dilyn oedfa'r Sul, yna dylid paratoi'r oedfa yn ofalus fel rhan ganolog o'r cyfarfod. Os cynhelir y cyfarfod ar adeg arall, yna dylid dechrau gyda chyfnod o addoli, a dylid cael gweddi yn union o flaen yr etholiad ei hunan.

Mae'n bwysig bod union drefn yr etholiad yn cael ei esbonio'n eglur i bawb sy'n bresennol. Mae'n arbennig o bwysig ei bod hi'n eglur a oes un bleidlais neu ddwy i fod (Llawlyfr Trefn tt. 7–8 para. 9 a 10). Mae hi hefyd yn bwysig egluro ymlaen llaw pa mor hir fydd gan y sawl a enwebir trwy bleidlais i benderfynu a ydynt i ganiatáu i'w henwau fynd gerbron yr Henaduriaeth i'w hystyried a'u hordeinio. Ni ddylid gosod unrhyw bwysau afresymol ar y sawl a enwebir. Unwaith eto, mae gweddio gyda hwynt ac ar eu rhan yn hynod bwysig. Pan nad oes yna weinidog yn yr eglwys, argymhellir yn gryf y dylid penodi gweinidog arall o'r Henaduriaeth i arwain a gofalu'n fugeiliol am y rhai a enwebwyd yn ystod y cyfnod pan fônt yn penderfynu, hyd nes y deuant yn flaenoriaid neu y penderfynant beidio â bwrw ymlaen.

Awgrymir mai'r lleiafswm o hyfforddiant y dylid ei drefnu gan yr Henaduriaeth ar gyfer y sawl a etholir, a hynny cyn eu hordeinio, yw'r canlynol:

- i. Cyfarfyddiad personol rhwng pob un a etholwyd a'r gweinidog (neu weinidog cyfagos os yw'r eglwys yn ddi-fugail) i weddio ac i drafod yr alwad;
- ii. Yn dilyn etholiad, dylid trefnu cyfarfod i bawb a etholwyd yn yr eglwys leol neu o fewn cylch arbennig (cyn iddynt ddod i benderfyniad), o dan arweiniad gweinidog a dau neu dri blaenor profiadol, i helpu'r sawl a etholwyd ddod i benderfyniad;
- iii. Dylai'r ymddiddan a drefnir gan yr Henaduriaeth fod yn rhan o'r broses o hyfforddi, yn ogystal â chyfle i brofi galwad y sawl a enwebwyd.

Dichon y byddai'r camau hyn yn rhoi cyfle i flaenoriaid newydd rannu profiadau a phroblemau ac i ddeall y mesur o ymroddiad a ddisgwyllir i'r gwaith.

SUT MAE "RHYDDHAU" BLAENOR O'I WAITH?

Efallai yr ymddengys yn rhyfedd i ofyn y cwestiwn hwn yn syth ar ôl trafod ethol blaenoriaid! Ond yn y traddodiad Presbyteraidd, lle yr ordeinir blaenor am ei oes, fe all ymddiswyddiad blaenor fod yn fater anodd. Os yr etholir blaenor ifanc – yn 25 mlwydd oed, dyweder, fe allai orfod gwasanaethu am drigain mlynedd heb orffwys! Does dim rhyfedd fod pobl ifanc weithiau yn gyndyn iawn i dderbyn eu henwebu!

Fe all amgylchiadau teuluol newid. Fe all blaenor deimlo galwad i faes newydd – i fod yn bregethwr llyeg, efallai, a bod yn absennol o'r cwrdd gartref yn amlach na pheidio. Fe all gwaith neu iechyd neu gant a mil o ffactorau olygu fod blaenor a fu'n weithgar a brwd yn ei chael hi'n anodd i barhau. Beth wedyn?

Rhaid cydnabod hefyd y gall grŵp bach o flaenoriaid, o hir arfer, gam-lywodraethu eglwys. Gallant gollu cysylltiad â'r "aelodau cyffredin", ac fe all aelodau cyffredin gollu pob dirnadaeth ar waith a dyletswyddau blaenor os nad oes cyfle i ethol rhai o'r newydd o bryd i'w gilydd. Ar eu gwaethaf, gall blaenoriaid rwystro aelodau eraill yr eglwys rhag cyflawni'r weinidogaeth y galwodd Crist hwy iddi.

Amlinella'r Llawlyfr Trefn a Rheolau (t. 8, par. 19) y modd y dylai blaenor ymddiswyddo o'i swydd, a phwysleisia ei fod wrth ymddeol neu ymddiswyddo yn rhoi heibio holl freintiau a chyfrifoldebau'r swydd honno yn y Cyfundeb gan gynnwys dal unrhyw swyddi a olyga wneud penderfyniadau o fewn ei eglwys ei



hun. Gall blaenor hefyd ymddiswyddo/ymddeol o'i swydd mewn eglwys am gyfnod o amser (sef nid mwy na phum mlynedd o'r dyddiad yr hysbysir yr eglwys o hynny) a bydd yn ystod y cyfnod hwnnw yn rhoi heibio holl freintiau a chyfrifoldebau'r swydd honno yn y Cyfundeb.

Gall y blaenoriaid – gan efallai ddilyn rhai o'r awgrymiadau yn gynharach yn y bennod hon ac yn y bennod nesaf – gynnal arolwg o'u gwaith bob hyn a hyn. Unwaith eto, byddai pob saith mlynedd yn gyfnod addas yn unol â'n trefn. Gellir ystyried wedyn a yw nifer, oedran, natur a diddordebau'r blaenoriaid o hyd yn gyfaddas i genhadaeth a bywyd yr eglwys. Wrth gwrs, rhaid gwneud hyn mewn modd sensitif a cheisio bod yn fugeiliol ac yn wrthrychol ar yr un pryd. Efallai y gallai'r Henaduriaeth fod o gymorth. Gellid wedyn awgrymu wrth gyfarfod yr eglwys sy'n ethol blaenoriaid pa fylchau a welwyd yn sgiliau'r blaenoriaid, a gofyn i'r aelodau gadw'r anghenion hynny mewn cof.

Yn y rhan fwyaf o'n heglwysi, nid oes trefn fel hyn. Os teimlwch fod yr amser wedi dod i sefyll o'r neilltu fel blaenor gweithredol, yna mynnwch air â'r gweinidog os oes yna un, neu â gweinidog cyfagos. Mae'n bwysig sicrhau fod y gynulleidfa yn deall eich cymhelliad, ac nid yn portreadu penderfyniad personol fel rhyw "sblit" fawr. Teg, felly, wrth dderbyn ei ethol, bod blaenor newydd yn nodi y gallai ei amgylchiadau newid ac felly na all o reidrwydd wasanaethu am oes gyfan.



3: Gweithio a Chenhadu

ADDOLIAD AGORIADOL

Darllen: Philipiaid 2.1-11; Mathew 28.18-20

Gweddi:

Arglwydd Iesu, ti yw Arglwydd pob dim, o adeg y creu a hyd byth. Ond ni phetrusaist i ddarostwng dy hun a dod yn un ohonom ni, gan ddangos i ni sut i fyw yn fodau dynol cyflawn yn dy fyd. Yn ystod dy fywyd ar ein daear, fe alwaist dy ddisgyblion i'th ddilyn di: i gyhoeddi'r Efengyl i'r tlodion, i iacháu'r cleifion, i gysuro'r briwiedig o galon, i ryddhau'r caethion a rhoi golwg i'r deillion. Ar ôl dy atgyfodiad, fe addewaist i'th ddisgyblion rodd yr Ysbryd Glân i gyflawni eu gwaith. Rho hyder i ni yn dy addewid, a rhyddha ni i ymddiried yn dy Ysbryd, fel y gallwn gyflawni dy waith a chyhoeddi'r Newyddion Da yn ein cymdogaeth a hyd eithafoedd y ddaear. Amen.

CYFLWYNIAD

"A ydych yn ... addo cydweithio'n deyrngar, â r Gweinidog a'ch Chyd-Flaenoriaid i hyrwyddo gwaith yr Eglwys a'i Chenhadaeth i'r Byd?"

Dyma ran o'r addewid gyntaf wrth ordeinio blaenoriaid. Noder bod yr addewid hon yn cyfeirio at waith blaenor yn "y Byd", ac nid oddi fewn i'r eglwys yn unig. Temtasiwn mawr i'r blaenoriaid yn eu cyfarfodydd yw edrych i mewn, syllu ar fogel yr eglwys fel petai, drwy'r amser. Ond mae'r ddyletswydd a osodir arnom fel blaenoriaid – ac fel eglwys – yn ehangach o lawer na hynny.

Wrth gwrs, haws dweud na gwneud. Fe all dyletswyddau ynglŷn â'r adeiladau, codi arian a chadw rhestr yr aelodau gymryd yr holl amser mewn cyfarfod ar ôl cyfarfod. Prin y gall y blaenoriaid esgeuluso trefnu oedfa'r Sul, dyweder – byddai rhywrai yn sicr o gwyno! Ond mae'n annhebyg y cawn gwynion am fethu â chenhadu yn y byd. Byddai ond yn rhy rwydd, felly, i gadw'r eglwys yn fyw yn weinyddol, ond anghofio fod cenhadu i'r byd yn rhan allweddol o bwrpas yr eglwys.

Ond am dasg! Cofier dau beth yn gyntaf:

1. Cyfrifoldeb y blaenoriaid yw "hyrwyddo" gwaith yr eglwys, nid cyflawni'r gwaith hwnnw i gyd ar eu pennau eu hunain. Mae'r tîm yn y cyswllt hwn yn fwy na'r blaenoriaid – mae'n cynnwys pob aelod. Fe ddylai fod diddordeb gan bob blaenor yn y materion hyn, ond dichon mai aelodau eraill fydd yn gwneud y gwaith, e.e., trefnu gweithgareddau Cymorth Cristnogol, neu hyrwyddo ymgyrch efengylu leol, neu godi ymwybyddiaeth o waith CWM.
2. Hawdd iawn i ni feddwl o hyd am "genhadon yn mynd allan i Affrica" wrth feddwl am genhadaeth yr eglwys i'r byd. I lawer o'n haelodau hyn, fe wreiddiodd y darlun hwn yn ddwfn o ddyddiau'r ysgol Sul. Ond mae'r byd wedi newid. Bellach mae CWM (Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang) yn trefnu i ni dderbyn cenhadon o eglwysi eraill yn ogystal ag i ninnau ddanfôn cenhadon dramor o Gymru.

Ac mae CWM hefyd yn ariannu llawer o brosiectau cenhadol a gynhelir yn llwyr gan eglwysi lleol – gan gynnwys cynlluniau o fewn ein Cyfundeb ni ac yn eciwmenaid yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion am hyn gan y Swyddfa Ganolog yng Nghaerdydd, a all ddweud wrthy ch hefyd am lawer mwy o gynlluniau a ariennir o fewn y Cyfundeb. A cheir digon o waith a ariennir gan eglwysi lleol eu hunain a henaduriaethau.

CWESTIYNAU I'W HYSTYRIED

Nid oes raid wrth "gynllun" uchelgeisiol er mwyn cenhadu i'r byd. Ystyriwch a thrafodwch y pwyntiau canlynol:

1. Pa mor hawdd yw hi i ymwelydd ddod i mewn i'ch eglwys chi?

- A oes yna hysbysfwrdd? Ydy'r manylion arno'n gywir? Ydy'r manylion hynny o help i rywun – er enghraifft, oes rhif ffôn cyswllt i bobl ei alw, neu gyfeiriad e-bost, neu'r ddau?
- Os daw dieithryn i'r oedfa, a fydd yn gwybod ym mha iaith y cynhelir yr oedfa? Oes trosiad ysgrifenedig ar gael o oedfa Gymraeg? Os nad oes, beth y cynghorir ymwelydd di-Gymraeg i'w wneud?
- Os daw rhywun mewn cadair olwyn, a fydd modd iddo gael mynediad? Yn rhwydd? A fydd lle cyfleus iddo eistedd? Beth am rywun yn cerdded â chymorth ffyn? Neu rywun dall? Neu fyddar?
- A fyddai plentyn yn cael croeso yn yr oedfa? Beth am faban swnllyd? Oes modd newid cewyn y baban yn rhywle? Neu'i fwydo? Os nad oes, beth y disgwylir i deuluoedd ifainc ei wneud os ydynt am addoli yn eich capel?
- A ydy'r adeilad yn edrych yn groesawus i'r ymwelydd? Oes rhywun wrth y drws i'w groesawu'n bersonol? A gaiff wybod enw'r sawl sy'n croesawu? A gaiff gyfarwyddyd ynglŷn â ffurf y gwasanaeth? (Er enghraifft, sut y byddai ymwelydd o'r Almaen yn gwybod i eistedd wrth weddio a sefyll wrth gannu, ac nid i'r gwrthwyneb, fel yn ei wlad ei hun?)
- A gaiff yr ymwelydd eistedd lle y myn? Neu a oes rhai seddi wedi'u cadw i deuluoedd neilltuol? Os felly, sut y disgwylir iddo wybod hynny? A fydd rhywun yn dod un munud cyn yr oedfa ac yn gofyn iddo symud gan ddweud "fy set i yw hon!"?
- Os daw rhywun sydd wedi arfer ag addoli yn y traddodiad Pentecostaidd, a fydd croeso iddo gyfrannu trwy siarad â thafodau, neu borthi'n uchel?
- Os daw rhywun â nam meddyliol sy'n golygu na all gadw'n hollol dawel yn ystod y bregeth, sut yr ymatebir i hynny gan y pregethwr a chan y gynulleidfa?

2. O gael profi'ch bywyd eglwysig, a fyddai dieithryn yn dod i ddeall mwy am Dduw yng Nghrist?

- Beth am ffurf addoliad yr eglwys? Os yw'n ddiflas a di-liw yna rydym yn dweud mai felly mae Cristnogaeth hefyd. Os yw'n fywiog ond yn ddi-drefn, yna fe ddywedwn fod Duw yn hwyl ond nad yw i'w gymryd o ddifrif. Os mai un llais a glywir am 90% o'r oedfa, yna rydym yn dweud fod crefydd wedi'i chanoli ar un arweinydd – boed hwnnw'n weinidog ai peidio. Sut orau mae trefnu fod ein haddoliad yn dystiolaeth go iawn i Grist?

(Mae'r cwrs Arwain Addoliad sydd ar gael gan Gyfarwyddwr Hyfforddiant EBC yn trin a thrafod y modd o lunio a chynnal oedfa.)

- Gall cynnwys yr oedfa hefyd dystio i'n brwdfrydedd o ran cenhadu i'r byd. Os daw dieithryn i oedfa sydd yn llawn beirniadaeth o bawb a phopeth y tu allan i'r eglwys, sut y bydd yr ymwelydd yn teimlo? A fydd yn debyg o ddychwelyd? Neu a fydd yn casglu mai crefydd hunangyfiawn sydd gennym?
- Beth am gymdeithas yr eglwys? Os yw'r eglwys yn gynhennus, yn llawn ymbleidio, neu yn oeraidd o ran ei chroeso, yna rydym i bob pwrpas yn cyhoeddi i'r byd "Dydy'r efengyl ddim yn gweithio". Ai dyna neges ein heglwys ni?

Cyfrifoldeb y blaenoriaid yw ystyried yr holl faterion hyn, er na fyddant o reidrwydd yn gallu mynd i'r afael â phob un ohonyn nhw ar unwaith. Fe fyddant yn gofyn am gymorth gan aelodau eraill, a chan yr Henaduriaeth a'r Cyfundeb, a chan eglwysi lleol o enwadau eraill. Bydd hyn yn arbennig o wir wrth feddwl



am waith sydd yn gofyn am sgiliau arbenigol, megis cadw golwg proffesiynol ar yr adeiladau, neu drefnu gwaith ieuenctid.

Nodyn arbennig i eglwysi bychain

Mewn eglwys o 500 aelod, fe ellir dechrau mynd i'r afael â'r holl faterion hyn. Mewn eglwys o 50 neu o 5, go brin y bydd modd ystyried hynny! Peidiwch â chael eich digalonni gan yr holl gwestiynau a godwyd. Gwell gwneud yr hyn sydd yn bosibl yn dda, na cheisio gwneud gormod a methu â dod i ben â dim ohono. Blaenoriaid lleol yn unig all farnu beth sydd ei wir angen yn lleol, a dyna ran o gryfder y drefn Bresbyteraidd o'i gweithredu'n iawn, sef bod arweinyddiaeth yr eglwys leol yn dod o blith pobl leol. Manteisiwch ar eich gwybodaeth eich hunain, a thrafodwch gyda'r aelodau eraill, i bennu blaenoriaethau. Manteisiwch ar ymweliadau'r Henaduriaeth i gael cyngor rhywrai o'r tu allan fydd yn deall eich sefyllfa ac yn awyddus i'ch helpu.

Ond mae yna un cwestiwn arall yn arosi i chi ei ystyried fel blaenor, ac efallai mai hwn yw'r cwestiwn mwyaf brawychus ohonynt i gyd:

3. O gwrdd â chi y tu allan i'r eglwys, a dod i ddeall eich bod yn Gristion, sut ddarlun a gâi rhywun o Dduw yng Nghrist?

Dyma'r cwestiwn sydd yn codi ofn ar lawer ohonom. O fod yn flaenor yn Eglwys Crist, fe fydd pobl yn barnu'r Eglwys, a hyd yn oed Grist ei hun, o edrych arnom ni. Sut allwn ni fyth ymgynraedd at y safonau priodol?

Adroddir yr hanes i ŵr fynd i weld seiciatrydd unwaith ac adrodd ei gŵyn – "Rwy'n teimlo'n berson cwbl annigonol". Ateb y seiciatrydd – "Gyfaill, mi wyt ti'n gwbl annigonol!" Nid problem seiciatryddol i rai unigolion yw bod yn annigonol, ond problem gyffredin i'r holl ddynolryw! (Gweler yr Astudiaeth Feiblaidd ar ddiwedd Pennod 4 am ragor am hyn).

Serch hynny, wedi dod i delerau â'n hamherffeithrwydd, mae'n rhaid i ni hefyd ddod i delerau â chyfrifoldeb bod yn flaenor. Mae'r cyfrifoldeb o gael hyfforddiant cyson yn rhan o hyn. Mae blaenor sydd yn ddiotal, neu yn hen-ffasiwn, yn ei (h)agwedd at y gwaith, yn hysbyseb wael nid yn unig i'r Eglwys, ond hefyd i Grist ei Hun. Fe argymhellir yn gryf, felly, fod pob blaenor yn ceisio pob cyfle posibl i ymarfogi ar gyfer gwasanaeth Crist. Fe olyga hynny nid yn unig fynychu'r oedfaon yn rheolaidd ar y Sul, ond hefyd y Cwrdd Gweddi a'r Dosbarth Beiblaidd. Fe olyga hefyd barodrwydd i fynychu cyfarfodydd arbennig a drefnir gan yr eglwys, yr ofalaeth, y Dosbarth neu'r Henaduriaeth i hyfforddi a chefnogi'r blaenoriaid, mynychu Cyfarfod Blaenoriaid y Sasiwn, a cheisio cyfle i fynychu cyrsiau yn lleol neu yn Nhrefeca. Fe fyddai'n rhesymol gofyn i bob blaenor fynychu un digwyddiad o'r fath bob blwyddyn, yn arwydd gweladwy o'i ymroddiad i'r gwaith a'i fod yn rhoi iddo flaenoriaeth dros ymrwymadau eraill, secwlar.

Trafodwch:

Dyma bedair eitem allai gyrraedd agenda'ch blaenoriaid. Fe'i seilir ar sefyllfaoedd go iawn.

1. Daw cymuned Hindwaidd leol atoch (ac fe all hyn ddigwydd mewn unrhyw ran o Gymru), yn gofyn am gael llogi ysgoldy'r capel yn wythnosol. Maent yn fodlon talu rhent rhesymol, ac yn addo cadw'r lle yn lân a chymen. Mae'r amserau a awgrymir yn gyfleus i'r capel, ac ni fyddant yn tarfu ar eich gweithgareddau o gwbl. Sut y dylid trafod hyn yng nghyfarfod y blaenoriaid?
2. Dywed y gweinidog wrth gyfarfod y blaenoriaid ei fod wedi treulio llawer o amser ers y cyfarfod diwethaf yn ymwneud â gwaith cenhadol, ac felly nid yw wedi gallu ymdopi â rhai tasgau gweinyddol. Fe ofynnir iddo beth oedd y cenhadu hwn, ac mae'n sôn am y canlynol:
 - i. Ymweld â chymydog yn ysbyty'r meddwl wedi iddo gael ei daro'n wael;

- ii. Cynnal angladd arweinydd gyda'r sgowtiaid lleol nad oedd yn Gristion ond a roddodd wasanaeth i'r Mudiad hwnnw ers 55 mlynedd;
- iii. Ymweld â chymdoges oedrannus oedd yn fusgrell, a pherswadio'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i dalu am le iddi mewn cartref hen bobl;
- iv. Treulio amser gyda theulu fu'n dioddef gan effaith caethiwed y fam i gyffuriau;
- v. Trefnu rhaglen addysg am alcohol i Glwb Ieuencid yr Awdurdod Lleol. Mae e'n mynychu'r Clwb hwnnw yn rheolaidd;
- vi. Trafod gyda'r awdurdod lleol ac eraill a all yr ysgol feithrin leol gael defnyddio'r festri.

Nid aelodau eglwysig yw'r bobl y bu'n ymweld â nhw. Sut y dylai'r blaenoriaid ymateb i'r patrwm gwaith yma?

Wedi rhoi eich ymateb cyntaf, trowch yn ôl at "ddisgrifiad swydd" y Gweinidog ym Mhennod 2 (t. 19). Onid yw'r gweinidog hwn yn ffyddlon i'r blaenoriaethau a restrir yno?

3. Mae problemau dybryd wedi codi gyda'r capel hardd Fictorianaid yr ydych yn cwrdd ynddo. Yn ôl y pensaer fe fyddai ei ddymchwel ac adeiladu capel newydd, pwrpasol yn rhatach na'i atgyweirio. Fe ellid cynnwys ystafelloedd at ddefnydd cymdeithasau'r eglwys, yr ysgol Sul, ac yn y blaen, a llogi ystafelloedd i grwpiau eraill. Nid oes ystafelloedd pwrpasol felly ar gael yn yr adeilad presennol. Ond fe ddechreuir ymgyrch brotest yn erbyn y syniad gan nifer o drigolion lleol nad ydynt yn aelodau, ac ambell aelod hefyd. Beth ddylai'r blaenoriaid ei wneud nesaf?
4. Mae un o'r blaenoriaid wedi dod dan ddylanwad mudiadau efengylaidd yn y Brifysgol. Roedd y grwpiau hyn yn ymweld ag ystafell pob myfyriwr unwaith y flwyddyn i rannu copi o un o'r efengylau a chymell ymateb i'r ffydd Gristnogol. Mae'r blaenor yn frwd i gael y blaenoriaid i gyd i ymrwymo i gynllun tebyg yn yr ardal. Beth yw'ch ymateb?

"Gwaith Cartref"

Ystyriwch wneud un neu fwy o'r tasgau canlynol, fel unigolyn neu er mwyn adrodd yn ôl i'r grŵp y tro nesaf:

1. Gofynnwch i rywun nad yw yn arddel unrhyw berthynas â'ch capel pa argraff o'r eglwys a'i gwaith mae'r adeiladau, y fynwent, yr ardd, y Mans ac ati yn ei roi iddo.
2. Gwahoddwch gyfaill nad yw fel arfer yn mynychu'r capel i ddod i "oedfa gyffredin" ar y Sul, a gofyn iddo pa argraff o'r eglwys a'i gwaith a gaiff o fod yno.
3. Siaradwch ag aelodau'r capel sy'n cyflawni gwaith gwirfoddol (fel bod yn gynghorydd lleol neu gynorthwyo ar y stondin WRVS yr ysbyty, neu ...) a gofynnwch iddynt ba gysylltiad a welant rhwng hynny a'u ffydd Gristnogol, a pha gyfle mae eu gwaith gwirfoddol yn ei roi iddynt i siarad am Iesu a'i Eglwys.



4: Gwaith Bugeiliol y Blaenor

ADDOLIAD AGORIADOL

Darlleniad: Ioan 10.1–16

Gweddi

Nefol a chariadus Dad, fe'n ceraist cyn ein bod ac fe bery dy gariad dros byth. Maddau i ni mor llugoer yw'n cariad ninnau tuag at dy bobl, ein tuedd i osgoi cwrdd â'r sawl nad ydym yn hoff ohonynt, a'n hofn rhag i ni ddweud y peth anghywir mewn sefyllfa anodd.

Derbynia'n hawydd i fod o gymorth, rho i ni glust barod i wrando, dwylo parod i helpu, breichiau parod i gofleidio, a gostyngeddwydd i wybod pryd i gadw draw.

Nertha ni trwy dy Ysbryd i ofalu'n fugeiliol am y praidd er mwyn i bobl gael gweld mai dy gorff di ydym yn dy fyd, yn enw Crist ein Harglwydd. Amen.

CYFLWYNIAD

Wrth drafod â blaenoriaid, clywir dro ar ôl tro nad oes dim sy'n bwysicach yn eu tyb hwy na'u dyletswyddau bugeiliol gyda'r aelodau; ac nad oes dim sydd yn eu poeni nac yn codi mwy o ofn arnynt ychwaith!

Efallai y dylem ofyn pam y mae hyn yn dasg mor anodd? Wedi'r cyfan, mae pob un ohonom yn ymwneud â phobl ac yn ymweld â phobl yn ein bywyd beunyddiol – hyd yn oed y mwyaf swil yn ein plith! Nid oes raid i lawer ohonom yn ein bywyd arferol gymryd cyfrifoldeb am adeiladau hynafol, na threfnu cyfarfodydd cyhoeddus, na bod yn gyfrifol am symiau sylweddol o arian pobl eraill. Ond rydym oll o bryd i'w gilydd yn ymweld â ffrindiau a pherthnasau. Pam, felly, y mae gofal bugeiliol yn peri gofid i ni? Dichon ein bod yn gweld fod rhyw bwysigrwydd dwys ynghlwm wrth ymweliadau bugeiliol, ein bod ar ryw ystyr yn cynrychioli'r Eglwys a bod rhaid felly i ni greu argraff ffafriol ohoni. O ganlyniad, credwn o bosibl y dylem gadw'r sgwrs ar lefel ysbrydol, aruchel.

GOFAL BUGEILIO

Gadewch i ni, felly, ystyried pam y mae gofal bugeiliol yn rhan o'n dyletswydd. Mae'r eglwys leol yn gymuned; ar un ystyr, mae'n deulu, er nad ym mhob ffordd wrth reswm. Mae teulu yn cynnwys sawl perthynas. Mae pob aelod o deulu yn arddel perthynas â phob un arall – nid â'r penteulu yn unig. Felly hefyd yn yr eglwys leol. Nid yw'n ymarferol, ac nid yw'n ddymunol, i'r gweinidog fod yn fugail ar ei ben ei hun. Mae gwaith bugeiliol yn gyfrifoldeb yr eglwys gyfan dan y Pen Bugail, Iesu Grist. Mae'r eglwys yn dewis blaenoriaid i weithredu llawer o'r consyrn bugeiliol ar ei rhan. Nid yw hynny'n rhyddhau'r aelodau rhag cyfrifoldebau bugeiliol; ond y blaenoriaid sydd i sicrhau fod y gofal yn digwydd ar y cyd â'r gweinidog.

A noder nad am "ymweld" yn unig y sonnir yma. Anodd gofalu'n fugeiliol am yr aelodau heb ymweld â'u cartrefi o dro i dro. Ond y gofal sy'n bwysig, nid yr ymweld fel y cyfryw. Felly, cyn troi at ymweld, hoffwn gyfeirio at ddulliau eraill o sicrhau gofal bugeiliol.

1. Rhywbeth cwbl allweddol yw cyfarch yr aelodau yn yr eglwys. Mewn llawer eglwys ceir rota o bobl i wneud hynny wrth y drws. Ond da o beth yw i'r blaenoriaid i gyd sylwi pwy sy'n bresennol – a phwy sy'n absennol. Gellir cael gair â'r gweinidog os yw ffyddloniaid yn colli'r cwrdd, oherwydd fe all fod yn arwydd bod salwch neu ryw drafferth arall yn eu cadw draw.
2. Ffordd arall o ofalu am aelodau yw eu gwahodd i'ch cartref chi. Mewn eglwysi lle mae pob blaenor yn gofalu am ardal neilltuol, neu am hyn a hyn o aelodau, gellir gwneud hynny fesul grŵp. Ond



mewn eglwysi lle nad yw hynny'n rhan o'r drefn, da o beth i'r blaenoriaid drefnu cynnal cyfres o nosweithiau neu foreau coffi, a gwahodd yr aelodau i fynychu yn y lle ac ar yr amser mwyaf cyfleus iddyn nhw.

Wrth wneud hyn, fe ddarganfyddwn gymaint o'n haelodau nad ydynt mewn gwirionedd wedi dod i adnabod ei gilydd – heb sôn am y rhai sydd ar gyrion yr eglwys, megis rhieni plant yr ysgol Sul neu addolwyr achlysurol. Fe fydd yn gyfle i bobl ddod i adnabod ei gilydd, ac i adnabod y blaenoriaid. Profiad eglwysi a fentrodd ar gynllun o'r fath yw ei fod yn talu ar ei ganfed.

Wrth gwrs, nid pob blaenor sy'n meddu ar dŷ y gellir yn rhwydd wahodd llawer o bobl iddo. Efallai y gall blaenor "fenthyg" cartref aelod arall cyfagos, neu rannu'r cyfrifoldeb â blaenor sydd â thŷ mwy cyfleus. Ond gocheler rhag y perygl o gael y blaenoriaid mwyaf cefnog yn estyn gwahoddiad bob tro, a'r rhai llai ariannog bob amser yn gorfod bod yn "ymwelwyr" ar dir rhywun arall.

3. Peidied neb ag anghofio gwerth cyflwyno aelodau i'w gilydd a gofyn iddynt weddio dros ei gilydd. Gall eglwys lunio calendr gweddi ar gyfer yr holl aelodau a chymdeithasau, neu gynnal cwrdd gweddi lle y gwneir hyn, neu'r ddau.

Eto i gyd, wedi gwneud yr holl bethau hyn, fe fydd angen o hyd i fynd i gartrefi aelodau a chyfeillion yr eglwys er mwyn ymweld â nhw.

Trafodwch:

Beth yw diben ymweld ag aelodau a gwrandawyr y capel yn eu cartrefi? Lluniwch restr a'i harddangos. Cyfeiriwch yn ôl ati ac ychwanegwch ati wrth i'r drafodaeth barhau.

Mae'n bwysig bod yna rhyw drefn i'r ymweld – ac nad yw'r aelodau mwyaf poblogaidd yn cael sawl ymweliad bob wythnos, tra nad yw'r rhai mwy lletchwith yn gweld blaenor o'r naill flwyddyn i'r llall! Un ffordd o sicrhau trefn yw rhannu'r rhestr aelodau a'r rhestri gwrandawyr, teuluoedd yr ysgol Sul, ac ati rhwng y blaenoriaid, gyda phob blaenor yn cymryd cyfrifoldeb arbennig am (dyweder) rhyw ddeg o deuluoedd. Mae'r patrwm hwn yn gyffredin yn Eglwys yr Alban a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig, a bydd rhai o'n heglwysi cyd-enwadol eisoes yn gyfarwydd â'r syniad. Yn y rhan fwyaf o eglwysi sylweddol eu maint, bydd rhannu'r grwpiau yn ddaearyddol yn ffordd ymarferol o wneud hyn. Cofiwch gynnwys pob blaenor a'i deulu neu ei theulu ar restr rhyw flaenor arall – nid yw'n hawdd rhoi gofal bugeiliol i chi'ch hunan!

Hyd yn oed os penderfynir peidio â mabwysiadu'r drefn hon, mae'n rhaid wrth ryw drefn. Gellir cynnwys "gofal bugeiliol" a "newyddion am yr aelodau" ar agenda cyfarfodydd y blaenoriaid (gweler Pennod 8) – a dylid sicrhau nad yw'r eitem hon yn cael ei hepgor oherwydd pwysau gwaith gweinyddol. Yna, gellir penderfynu bob tro ar bwy mae angen ymweliad arbennig, a pha flaenor a ddylai fynd. Ond peidiwch ag anghofio trefnu ymweld â'r rhai nad ydynt mewn trybini neilltuol, neu na wyddoch am eu problemau am eu bod yn eu cadw'n dawel.

Trafodwch:

A oes gofal bugeiliol digonol ar gyfer pob aelod ac addolwr yn ein capel ni? Os nad oes, yna beth sydd o'i le? A fyddai mabwysiadu trefn "grŵp i bob blaenor" yn gymorth? Os na fyddai, sut arall y gellir sicrhau gofal bugeiliol teilwng i bawb?

CURO WRTH Y DRWS

Beth sy'n digwydd pan rydym ni'n cyrraedd carreg y drws ac yn canu'r gloch? Dylem yn gyntaf anghofio am ymweliadau Tystion Jehofa, Y Mormoniaid ac ati, sy'n efengylu o dŷ i dŷ. Galw ar ein cyd-aelodau neu'n cyd-addolwyr yr ydym ni, nid cynnal cenhadaeth o ddrws i ddrws.



Fe fydd llawer yn dibynnu ar ba mor dda yr ydym yn adnabod y teulu sydd y tu ôl i'r drws, ac a ydyn nhw yn sylweddoli pam yr ydych yn galw. Dyma rai canllawiau i'ch helpu:

1. Sicrhewch eich bod yn ymddangos yn gyfeillgar pan agorir y drws.
2. Dywedwch eich enw yn glir, ac esboniwch eich bod yn flaenor yn yr eglwys. Os oes angen, byddai'n werth cario rhywbeth i gadarnhau hynny – cylchlythyr yr eglwys neu Llais y Gymanfa, cerdyn ymweld neu gerdyn cymundeb. Mae dipyn yn rhwyddach dechrau'r sgwrs os oes gennych chi rhywbeth i'w roi! Os ydych wedi ysgrifennu at y teulu eisoes, dangoswch gopi o'r llythyr.
3. Disgwyliwch gael croeso. Os nad ydych yn cael gwahoddiad i'r tŷ, yna gofynnwch "Alla i ddod mewn?" Os yw'n adeg anghyfleus, yna trefnwch amser arall. Os nad yw'r teulu am eich gweld, yna ymadewch â nhw yn gwrtais. Ceisiwch beidio â chymryd y peth yn bersonol – efallai iddynt ddigio wrth yr eglwys am ryw reswm cwbl anhysbys i chi. Mewn sefyllfa felly, mae'n werth codi'r mater gyda'r gweinidog neu gyda'r blaenoriaid eraill. Ond cofiwch gadw unrhyw wybodaeth a gewch ganddyn nhw yn gwbl gyfrinachol.
4. Ystyriwch ymlaen llaw ai dod i adnabod y teulu yn unig yw'ch bwriad, neu a ydych am eu gwahodd i ryw gwrdd arbennig, neu eu gwahodd i goffi yn eich tŷ chi, neu wahodd y plant i'r ysgol Sul, ac yn y blaen. Os felly, sicrhewch fod yr holl fanylion yn glir gyda chi – cerwch â nodyn ysgrifenedig gyda chi os yw hynny'n help i'ch cof.
5. Anghofiwch am ddelwedd y blaenor fel "archwiliwr", yn ceryddu aelodau am golli'r cwrdd, neu yn disgyblu plant am gamymddwyn. Beth bynnag oedd yr arfer yng Nghymru yn y gorffennol, nid dyna'ch swyddogaeth yn awr.
6. Peidiwch â disgwyl sgwrsio am bethau ysbrydol trwy gydol eich amser yno. Wrth fagu perthynas, bydd tipyn o amser yn cael ei dreulio yn trafod y tywydd! Ymddiddorwch yn hanes y teulu – llwyddiannau'r plant, pen-blwydd yn bedwar ugain, ymddangosiad ar y teledu, trip i Ganada, neu beth bynnag.

"SGWRS BWYSIG"

Wrth fagu perthynas â'ch aelodau, fe ddaw cyfle i drafod materion dyfnach o dro i dro. Byddwch yn effro i'ch cyfle.

Ystyriwch y gwahaniaeth rhwng y ddau ymateb posibl gan y blaenor i bob un o'r sylwadau hyn gan un o'r aelodau:

1. "Mae pobl ifainc yn gallu bod yn dreth ar eu rhieni heddiw."
 - a. "Ydyn. Roeddwn i'n darllen yn y papur bore 'ma am hanes rhyw grwt..."
 - b. "A sut mae'ch plant chi y dyddiau hyn, Mrs Jones?"
2. "Mae'n hyfryd cael sgwrs fel hyn. Rwy'n gweld eisiau'r hen weinidog oedd yn galw yma mor aml."
 - a. "A, mae'r gweinidog newydd yn ddyn prysur iawn, wyddoch chi- mae e ar gynifer o bwyllgorau."
 - b. "Oedd e wir? Hoffech chi i mi ofyn i'r gweinidog newydd alw draw?"
3. "Does y fath beth â swydd ddiogel erbyn hyn, oes e?"
 - a. "Na, mae'r llywodraeth yma yn gwbl ddi-feind, on'd yw hi?"
 - b. "Ydych chi'n gofidio am eich swydd chi ar hyn o bryd?"



4. "Mi oedd pobl yn arfer credu popeth glywen nhw o'r pulpud, ond erbyn hyn rydym ni wedi dysgu'n wahanol, rwy'n credu."
 - a. "Ydy, mae safon pregethu wedi dirywio'n ofnadwy, on'd yw e, Mrs Jones?"
 - b. "Ydych chi'n ei chael hi'n anodd i gredu, Mrs Jones?"

Ymhob achos, mae'r ail ymateb yn anos o lawer, am ei fod yn treiddio'n ddyfnach ac yn gofyn am ymateb personol. Ond os gallwch chi fagu'r hyder i ymateb felly, fe fyddwch chi'n dangos eich diddordeb diffuant, a'ch bod yn barod i wrando – ac efallai mai dyma'r cymorth gorau y gallwch chi ei gynnig. Y duedd naturiol ynom yw ymateb fel yn llinell (a) bob tro, sef troi'r sgwrs i gyfeiriad mwy cyffredinol, neu feirniadu rhywrai eraill nad ydynt yn bresennol. Ceisiwch weld a allwch ddod i adnabod yr aelodau yn ddigon da i ddilyn yr ail drywydd.

Wedi dweud hynny, rhaid i ni gofio bod yna gost ynghlwm wrth ddwyn beichiau pobl eraill a chamu i ddyfroedd dyfnion. Un peth yw cynnig paned o de neu liffet i rywun mewn trafferth; peth arall yn hollol yw dechrau rhannu eu heuogrwydd, eu tristwch neu eu hofnau. Ond os medrwyd chi helpu fel hyn, yna fe fyddwch yn gwneud gwaith gwirioneddol Gristnogol. Dyma ychydig ganllawiau i'r gwaith:

1. Mae'n debyg iawn mai eich prif gyfraniad fydd gwrando, a pheidied neb â meddwl nad yw gwrando'n bwysig, na chwaith nad yw'n ddigon anodd ar brydiau. Gwrando ar bobl yw'r ffordd orau o gydnabod eu pwysigrwydd a'u gwerth.
2. Os teimlwch chi eich bod yn ymwneud â phethau sy'n rhy anodd i chi – yn emosiynol neu yn ddeallusol – yna peidiwch â theimlo unrhyw gywilydd o gyfadde'ch anallu i helpu ymhellach, a cheisio cymorth – gyda chaniatâd – gan y gweinidog neu gan flaenor arall.
3. Gofalwch rhag cael eich tynnu ormod i hiraethu am ddoe, pan oedd popeth yn wych. Mae her yr Efengyl yno i bobl heddiw. Hyd yn oed gyda'r henoed a'r methodig, ceisiwch eu dwyn yn ôl i waith Duw yn y presennol yn hytrach nag aros yn y gorffennol o hyd.
4. Beth bynnag yw'r sgwrs, byddwch yn onest. Wrth gwrs, does dim angen bod yn gas ynglŷn â chwaeth eich gwestai o ran lliw'r carpedi! Ond ar y cyfan mae'n well dweud y gwir. Mae hyn yn arbennig o wir ym materion cred. Peidiwch â chael eich temptio i dystio i ryw sicrwydd nad yw gennych na dyfynnu'r "Gyffes Fer o'n Ffydd" yn ateb i bob cwestiwn. Ar y cyfan, fe fydd eich mynegiant yn ystod yr ymweliad ac yn eich bywyd o gariad a maddeuant yr efengyl dipyn yn fwy o ysbrydoliaeth i'r aelodau na'r gallu i ddyfynnu adnodau am bob pwnc dan haul.
5. Peidiwch byth â bradychu cyfrinach. Efallai mai dim ond wrth un cyfaill agos y bwriadwch ddweud – ond fe all hwnnw ddweud wrth un arall, a hwnnw eto, ac yn y blaen. Os cewch eich tynnu i sefyllfa anodd, yna gofynnwch am ganiatâd i ofyn i'r gweinidog, neu flaenor arall, alw. Os gwrthodir y caniatâd, yna rhaid derbyn y ffaith anodd na ellir helpu ymhellach. Mae hyn yn galed, ond cofiwn nad duwiau bach ydym, ac nad ydym yn gwybod yr ateb i bob sefyllfa.
6. Does dim rhaid ymweld ar eich pen eich hunan os yw hynny'n anodd. Dim ond i chi osgoi ymdebygu i Dystion Jehofa yn eich agwedd, fe all cymorth blaenor arall – neu'ch gŵr neu wraig – fod yn rhwyddach wrth ddelio â phobl. Ond cofiwch fod yr hyn a ddywedwyd uchod am gyfrinachedd o hyd yn berthnasol i'r ddau ohonoch.
7. Cofiwch nad yw'r rhan fwyaf o'ch ymweliadau yn mynd i esgor ar unrhyw broblemau mawr. I'r gwrthwyneb, fe fydd llawer o'r gwaith yn bleser wrth i chi ddod i adnabod eich cyd-Gristnogion yn well, rhannu eu llawenydd a'u profiadau, a dyfnhau cymdeithas â hwy. Dichon y cewch ffrindiau newydd trwy'ch gwaith.



Trafodwch:

Ydy'r canllawiau uchod yn gyson â'ch profiad chi o ymweld, ac o dderbyn ymwelwyr? Beth sy'n ymddangos yn anodd ynddyn nhw? Sut mae magu hyder wrth ymweld?

Beth yw pwrpas ymweld â phobl yr ydych yn eu gweld bob Sul beth bynnag? Gwnewch restr a thrafodwch. Cymharwch y rhestr â'r un a luniwyd ar ddechrau'r bennod.

AELODAU ABSENNOL

Dywedodd Thomas Hardy y nofelydd o Sais hyn yn y 19eg ganrif; "Mae yna ddau fath o bobl eglwys – y sawl sy'n mynd a'r sawl nad ydynt yn mynd; dim ond un math o bobl capel sydd – y sawl sy'n mynd." (*The Life and Work of Thomas Hardy*, gol. M. Millgate, 1984, t. 31). Gwaetha'r modd, nid yw hyn bellach yn wir. Mae yna ddiogonedd o "bobl capel" nad ydynt yn "mynd", chwaith.

Dyma un o dasgau anoddaf y blaenor – ymweld â'r sawl a fu unwaith yn barod i arddel eu haelodaeth yn gyhoeddus, ond nad ydynt bellach yn arfer eu ffydd o fewn yr Eglwys Gristnogol. Maent "ar y llyfrau", fe delir eu Cyfraniad Cyfundebol drostynt i'r enwad, ond ni cheir ganddynt ddim ymrwymiad gweladwy. Beth ddylid ei wneud ynglŷn â nhw?

Gadewch i ni gofio'n gyntaf nad enwau ar restr mo'r rhain, ond pobl, pobl a ymgysylltodd â'r eglwys leol, ond sydd heb weld gwerth mewn aros. Efallai iddyn nhw ddechrau ar y daith Gristnogol gyda gobeithion mawr a brwdfrydedd, ond na allent nawr fanteisio ar gymdeithas yr eglwys na themlo presenoldeb Crist yn eu bywydau.

Cofiwn hefyd yr ystyr arbennig, ac annisgwyl, a roddwyd gan Iesu ei hun i'r ymadrodd "gofal bugeiliol". Darllener **Luc 15.1-7**. Mae'r bugail yn gadael y 99 dafad ffyddlon yn yr anialdir, ac yn mynd ar ôl yr un goll, ac yn chwilio amdani nes dod o hyd iddi a'i dwyn hi adref. Nid gofalu am y ffyddloniaid yn unig yw gwaith bugeiliol, ond hefyd chwilio am y sawl sydd ar goll.

Yn aml iawn, fe fydd y bobl hyn yn dweud yn groyw eu bod o hyd yn Gristnogion "ond does dim angen dod i'r capel i fod yn Gristion". Rhaid i ni geisio ffyrdd i'w darbwyllo nad byw bywyd da a pheidio â niweidio'n cymydog yw hanfod Cristnogaeth. Mae'n rhaid i'r berthynas â Christ Iesu fod yn graidd i fywyd Cristnogol – dyna ystyr y gair "Cristion".

Patrwm y Testament Newydd yw'r gymuned Gristnogol. Rhaid gweithredu a dyfnhau ein ffydd bersonol yng Nghrist drwy'r gymuned Gristnogol, sef yr Eglwys. Doedd dim Cristnogion unigol yn y Testament Newydd. Arfer Iesu oedd bod yn nhŷ ei dad ar y Sabath, a hynny er ei fod mor feirniadol o sefydliad crefyddol ei ddydd.

Mae'n haelodau absennol yn colli calon eu ffydd, felly. Ond maent o hyd ar ein llyfrau, efallai yn cyfrannu'n ariannol, ac felly yn arddel rhyw gysylltiad â'r eglwys. Rhaid iddynt, felly, fod yn flaenoriaeth uchel i'n hymdrechion bugeiliol ac efengylaidd.

Pam y mae aelodau yn ymadael? Mae yna lu o resymau, wrth gwrs, ond gellir nodi pum math o amgylchiad sydd yn arwain at hyn:

1. Diffyg ymrwymiad, neu ddiffyg dealltwriaeth o'r ymrwymiad yn y lle cyntaf. Mae plant ein haelodau yn gallu dod dan bwysau – diarwybod efallai – gan rieni neu athrawon ysgol Sul i ddod yn gyflawn aelodau ar ryw adeg arbennig, neu fe allan nhw ddod dan bwysau eu ffrindiau. Ond nid mater o gyrraedd oedran arbennig yw aelodaeth yng Nghorff Crist, eithr ymwybyddiaeth o berthynas agos ac arbennig ag ef. Heb y berthynas honno, fe fydd ymrwymiaidau aelodaeth yn cyflym ddiplannu. Dylai'r blaenoriaid ofyn, felly a yw'r dosbarth derbyn (neu ba drefn bynnag a fabwysiedir) yn cyflwyno Iesu ei hun i'n pobl ifainc, yn hytrach na bod yn fodd i ddwyn pwysau arnynt i "ddod yn aelod".

2. Rhywbeth yn digwydd. Gall trasiedi mewn bywyd gryfhau ffydd. Ond fe all ei darnio hefyd, gan beri dadrithro'r aelod ynghylch Duw, neu'r Eglwys. Weithiau fe all rhyw ddolur – gwir neu ddychmygol – wedi'i achosi gan weinidog, blaenor neu aelod arall ddigio rhywun i'r fath raddau eu bod yn cadw draw o'r oedfa. Fe all y rhesymau ymddangos yn bitw i ni, ond rhaid eu bod yn bwysig i'r aelod i gael y fath effaith. Dylem gymryd y fath gŵyn o ddifrif, a cheisio cymod neu esboniad os oes modd. Ond cofier na ddylech ddefnyddio'r ymweliad fel cyfle i ategu'r cŵyn na lleisio'n cwynion ein hunan. Ymweliad preifat â'r gweinidog, neu, os oes raid, yng nghyfarfod y blaenoriaid yw'r lle i wneud hynny, nid ar aelwyd neb arall.
3. Blaenoriaethau eraill. Dyma'r prif fwgan i lawer. Mae'n rhaid i rai weithio ar y Sul neu golli eu swydd (beth felly am drefnu oedfa ganol wythnos? Neu wahoddiad i'r cwrdd gweddi?). Fe fydd yn well gan rai pobl eraill ddilyn gweithgarwch hamdden, ac fe ddaw rhai rhieni dan bwysau gan eu plant i ymuno â chlybiau chwaraeon ac ati. Mae'r pwysau secwlar hyn yn gryf ac yn anodd eu gwrthsefyll. Dylem beidio â chondemnio pobl am ildio i demtasiwn, ond fe ddylem achub ar y cyfle i osod hawliau Crist ar eu bywyd o'u blaenau unwaith eto. Gellir cydymdeimlo heb gymeradwyo.
4. Pobl yn symud. Bellach, prin yw'r teuluoedd sy'n aros yn eu cynefin am byth. Gyda newidiadau ym myd gwaith, mae pobl yn gorfod symud sawl gwaith yn ystod eu gyrfa, a'r teulu gyda nhw. Yn aml, fe'u collir o'r eglwys. Efallai eu bod yn rhy swil i fynd i eglwys newydd. Efallai fod gogwydd diwinyddol yr eglwys agosaf dipyn yn wahanol i'r hyn yr oeddynt wedi arfer ag ef. Efallai fod iaith yr addoli yn faen tramgwydd. Efallai eu bod o hyd yn gobeithio symud "adref" ac yn anfodlon ymrwymo i eglwys gerllaw eu cartref newydd. Dyma flaenoriaeth fugeiliol arall – i sicrhau danfon nodyn i'r eglwys leol agosaf am aelod sy'n symud, a gofyn i'r eglwys honno gysylltu ag ef ar y cyfle cyntaf i estyn croeso.
5. Newidiadau yn y capel. Weithiau mae newid yr adeilad (neu ei ddymchwel), newid gweinidog neu ofalaeth, neu newid patrwm bywyd yr eglwys yn golygu fod rhai yn ymadael fel rhyw fath o brotest. Dyma'r sefyllfa anoddaf oll. Ond efallai y daw cyfle hyd yn oed wedyn i'w hatgoffa am Iesu Grist a'r hyn a olygodd iddynt unwaith.

Beth, felly, ddylid ei wneud ag aelodau absennol? Yn sicr, fe ddylid trafod y mater mewn cwrdd blaenoriaid. Dyma rai awgrymiadau ymarferol, wedi'u seilio ar brofiad rhai o'n heglwysi, ar beth allai ddigwydd wedyn:

1. Ymweld â'r cartref, efallai gyda gwahoddiad i ryw ddigwyddiad neu oedfa benodol. Peidier byth â dweud "O, does dim iws gofyn iddyn nhw. Ddôn nhw ddim!" Dyma gnul marwolaeth cenhadaeth yr eglwys mewn llawer man. Nid yw Duw byth yn anobeithio am neb. Dylem ni ddal ati. Efallai y gallem gynnig cyflwyniad i eglwys arall gyfagos a fyddai fwy at eu dant, ac a allai eu hail-gyflwyno i ffydd fyw. Gwell gwneud hynny na'u gadael i fod.
2. Ymgyrch arbennig i adolygu'r rhestr aelodau. Mae'n ddoeth cysylltu â phob aelod, nid dim ond y rhai absennol, rhag iddynt deimlo dan ryw ddisgyblaeth lem. Fe all cyfnod o ail-ymrwymo, gydag oedfa arbennig yn glo i'r ymgyrch efallai, fod yn gyfnod bendithiol iawn i eglwys. (A noder, nad ymrwymiad ariannol yn unig a olygir). Bellach daeth yn arfer mewn llawer o eglwysi i gynnal Sul Croeso Nôl neu achlysur tebyg yn yr Hydref, a gellir cael adnoddau ar gyfer hynny gan y Cyfundeb (ewch i www.ebcpcw.org.uk/Cymraeg/Adnoddau/sul-croeso-nol/)
3. Trwy grwpiau bach. Os oes dosbarthiadau Beiblaidd yn cwrdd yng nghartrefi'r aelodau, fel all hynny fod yn well ffordd nôl na dod i'r capel ar unwaith. Ond fe all cwrdd y chwirydd, neu'r cwrdd gweddi, neu'r ysgol Sul, neu unrhyw gyfarfod felly ddarparu cyfle.
4. Edrych arnom ni'n hunain. Mae eglwysi yn colli llawer o aelodau am na allant ddarparu dim ar gyfer eu plant; na darparu rhywun i ofalu yn ystod y cwrdd am hen berthynas sy'n byw gyda nhw; na rhoi croeso gwirioneddol i'r sawl sy'n ddiffygiol yn feddyliol neu sydd â phroblemau amlwg. Gweler Pennod 3 am ragor o awgrymiadau pam y mae rhai o'n pobl yn teimlo nad oes iddynt groeso yn y capel.
5. Yn olaf, ond yn gyntaf mewn gwirionedd, trwy weddio. Dylem fod yn gweddio'n rheolaidd dros ein haelodau absennol. Y tebygolrwydd yw eu bod nhw'n gweddio – awgrymodd arolwg gan Eglwys Loegr yn 2013 fod 6 o bob 7 o bobl yn credu yng ngrym gweddi. Dylem ni ddangos yr un ffydd â hwy!



GWEDDÏO

Mae gweddïo yn gallu bod yn faen tramgwydd i flaenoriaid. Ac mae'n faen tramgwydd anodd ei gyfaddef, gan mai "ateb" i broblemau yw gweddi fel arfer yn ein llawlyfrau eglwysig, ac nid unrhyw fath o "broblem".

Fe all **gweddïo preifat** fod yn broblem weithiau, ond nid yw hynny'n fwy anodd i flaenor nag i unrhyw Gristion. Yn y fan hon, ni ellir gwneud mwy na'ch cyfeirio at yr amryfal llawlyfrau gweddi sydd ar gael i geisio rhoi arweiniad. Yn y Gymraeg, fe argymhellir yn arbennig y llawlyfr blynyddol, ac *O Ddydd i Ddydd*, sy'n cynnwys darlenniad a gweddi ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn.

O feddwl am yr adran nesaf, dylid ychwanegu un peth arall, sef – cofiwch weddio drosoch eich hun yn ogystal ag eraill yn eich gweddïau personol.

Y broblem fawr i flaenoriaid yn aml yw gweddïo'n agored gydag eraill. Nid oedd hyn yn broblem o gwbl i'n cyn-deidiau a allai weddio'n hirfaith a huawdl mewn cyfarfodydd gweddi, yn y festri ac yng nghartrefi'r aelodau. Yn wir, bydd rhai o'n haelodau hynaf o hyd yn cofio blynyddoedd olaf yr arfer hwn. Efallai mai cofio'r traddodiad hwn sydd y tu cefn i'n hanhawster ni. Naill ai rydym wedi cymryd yn erbyn yr arfer, ac yn mynd i'r pegwn arall, neu rydym yn credu na allwn gyrraedd safon yr "oes aur" honno.

Dyma dri awgrym a all fod o gymorth:

1. Nid oes raid i weddïau bugeiliol fod yn huawdl. Fe'u cyfeirir nid at y sawl sydd yn ein cwmni ond at Dduw, a gwyddom nad yw huodledd yn mennu dim arno fe. Nid oes ots am safon eich Cymraeg wrth ei gyfarch. Yr unig amod yw eich bod yn ddigon dealladwy i'r sawl fo gyda chi gael rhannu yn y weddi, a bod yna ddigon o synnwyr i'ch gweddi iddi olygu rhywbeth. Nid oes pwrpas rhaffu ystrydebau.
2. Gellir defnyddio gweddi bwrpasol o ryw lyfr. Yn y gorffennol, fe gredid mai dim ond gweddi o'r frest allai fod yn ddiwyll a difrifol. Gobeithio i ni ddysgu o'r mudiad ecwmenaidd a'n cysylltiadau â'r Eglwys fyd-eang nad felly y mae. Wrth gwrs, fe all gweddi o lyfr fod yn ddiwydd ac yn ddiystyr. Ond fe all gweddi o'r frest fod yn ystrydebol ac yn ddi-gyfeiriad. Os nad ydych yn hyderus wrth weddio'n gyhoeddus, da o beth defnyddio un o'r amryw lyfrau sydd ar gael at y pwrpas. Neu fe allwch lunio nodiadau byrion i'ch cynorthwyo. Ni fydd ots gan Dduw!

Ond peidiwch â chredu y gall y llyfr roi'r weddi i chi. Allwch chi ddim codi'r llyfr ar y funud olaf, boed yn y festri cyn y cwrdd neu yn y tŷ ar ddiwedd ymweliad, a chael gweddi bwrpasol. Dylid paratoi ymlaen llaw.

3. Wedi dweud hyn i gyd, mae hi'n bosibl dysgu gweddïo o'r frest. Fe allwch ddysgu ambell weddi fer o'r Llyfr Gwasanaeth neu rai o golectau'r Llyfr Gweddi Gyffredin, er enghraifft. Ond yn aml fe fydd angen i chi ddefnyddio'ch geiriau eich hunan. Mae yn 'Ewch yn ei Enw Ef' arweiniad i weddio wrth ymweld – gwelwch y cyfeiriad at y cwrs hwn ar ddiwedd y bennod hon. Efallai y gallech ei ddefnyddio yn eich cyfarfod nesaf i'ch helpu i feddwl ymhellach am weddio wrth ymweld.

GOFALU AMDANOCH CHI'CH HUNAN

Fe all yr adran hon fod yn astudiaeth Feiblaidd ar ei phen ei hunan, yn ogystal â bod yn ddiweddglo addas i'r sesiwn am ofal bugeiliol.

Cyfeiriwyd eisoes (ym Mhennod 3, Adran 3) at y ffaith fod llawer o flaenoriaid yn mynegi teimlad o fod yn annigonol at y gwaith, dywedwyd nad drwg hynny i gyd. Mae pob un ohonom yn annigonol yng ngolwg Duw. Profiad Paul oedd "pan wyf wan, yna rwyf gryf" (**2 Corinthiaid 12.10**).

Ond fe all yr ymdeimlad hwn lethu'n gwaith os nad ydym yn ofalus. Gallwn oll ar brydiau uniaethu â phrofiad Paul, "Yr wyf yn cyflawni, nid y daioni yr wyf yn ei ewyllysio, ond yr union ddrygioni sy'n groes i'm hewyllys". (**Rhufeiniad 7.19** – buddiol fyddai darllen y bennod hon a'r bennod nesaf yn eu cyfanrwydd).



Beth, felly, yw gwraidd yr ymdeimlad hwn? Mae sawl ateb posibl, a chynigiau yma bedwar ohonynt yn unig:

1. Fe allwn deimlo ein bod mewn lleiafrif di-rym mewn cymdeithas, heb allu dylanwadu arni. Mewn un ffordd, fe droes ein cymdeithas yn unigolyddol iawn, yn tra dyrchafu gwerth yr hunan tu hwnt i'r hyn sy'n iawn. Ond ar y llaw arall, ac ar yr un pryd, fe ddaeth unigolion yn ddim mwy na rhannau mewn rhyw beiriant anferth, yn rhifau ar gyfrifiadur, heb allu newid dim.
2. Dylem geisio cadw persbectif Cristnogol ar hyn oll. Fel y gwelsom eisoes yn llythyron Paul, nid newydd mo'r teimladau hyn, ac er bod ein cymdeithas ni yn wahanol i unrhyw oes o'r blaen, yr un yw'r ddynolryw yn y bôn. Felly, fe lefara Iesu wrthym ninnau hefyd pan yw'n gosod fel calon ein hymarweddiad, "Câr dy gymydog fel ti dy hun" (**Marc 12.31**). Hynny yw, rydw i a'm cymydog, y ddau ohonom, yn blant i Dduw, ac o anfeidrol werth.

Gallwn, ar y llaw arall, ddisgwyl gormod gennym ni'n hunain. Mae angen i ni adnabod ein gwendidau yn ogystal â'n cryfderau, a gwybod felly pryd y dylem ymddiried yn aelodau eraill y tîm i gario rhyw faich arbennig. Cafwyd enghreifftiau o sefyllfaoedd felly eisoes yn y bennod hon. Nid di-fudd ein galwad i fod yn flaenoriaid. Nid yw Duw yn camsynied – ac nid yn aml mae'n cynulleidfaoedd yn camsynied ewyllys Duw yn hyn o beth, ychwaith.

3. Gallwn hefyd ar brydiau deimlo'n annheilwng gerbron Duw. Ond cofiwn i ni gael ein dewis a'n hordeinio gan bobl sydd wedi gweld ynom dalentau a photensial a roddwyd gan Dduw. Ac mae'n galwad yn ddibynnol nid ar ein teilyngdod ni, eithr ar ras Duw.

Cofiwn hefyd i lawer o'n rhagflaenwyr deimlo'n annheilwng. Gweler, er enghraifft, hanes Moses (**Exodus 3.11-12, 4.10-16** – noder bod Moses yn cael rhannu'r baich ag Aaron), Eiseia (**Eseia 6** – noder nad llwyddiant oedd i ddod i'w ran yn ei waith) a Jeremeia (**Jeremeia 1.4-10**).

4. Weithiau, fe deimlwn ein bod yn gyfrifol am ryw drafferthion a gododd ym mywyd yr eglwys. Cyn i ni dderbyn y bai i gyd, dylem gofio nad ydym yn gyfrifol am:
 - ddisgwyliadau pobl eraill ohonom ni;
 - ddeall pawb a phopeth;
 - hoffi pawb;
 - gytuno â phawb;
 - benderfyniadau a chamgymeriadau pobl eraill;
 - wneud i bobl gredu neu "ddod i'r capel".

Ein cyfrifoldeb fel blaenoriaid yw gweithredu ar alwad Duw i ni a gwneud ein gwaith orau y gallwn. Ddylem adael i bobl eraill ac i Dduw yr hyn sy'n gyfrifoldeb iddyn nhw – gan gofio i Iesu Grist ei hun eisoes ysgwyddo baich holl bechod y byd ar y groes.

Diolch i Dduw, felly, nad ar ein pennau ein hunain y gwnawn waith blaenor na chyflawni unrhyw alwedigaeth. Cawn gymorth ein gilydd, ac fe gawn nerth yr Ysbryd Glân. Am hwnnw yr efyynnir yng ngwasanaeth ordeinio blaenoriaid. Ysbryd Glân Duw yn unig a'i gwna'n bosibl i unrhyw un gyflawni swydd blaenor. Nid yw'r sawl sy'n credu'i fod yn gallu cyflawni'r gwaith ar ei ben ei hunan yn addas i'r swydd o gwbl!

Wrth wneud ein gwaith, mae angen sicrhau ein bod ni'n gofalu amdanom ein hunain, a'n bod yn mynd ar ofyn blaenoriaid eraill a'r gweinidog pan fo angen gofal arnom. Nid oes angen bod yn ferthyr!



Gwaith i'r grŵp:

Mewn grŵp fe all fod yn ddadlennol – ac yn dipyn o hwyl – i chwarae rôl. Rhannwch yn barau, un i fod yn flaenor yn ymweld, a'r llall i fod yn aelod yn agor y drws i'r blaenor. Ar ôl (dyweder) pum munud, cyfnewidiwch rôl.

Dewiswch rai o blith yr "aelodau" canlynol i ymweld â nhw:

- i. aelod ffyddlon, sy'n synnu eich bod yn galw o gwbl;
- ii. aelod ar y llyfrau nad yw wedi bod i'r cwrdd ers misoedd;
- iii. aelod hŷn, caeth i'w gartref;
- iv. pâr ifanc sydd newydd symud i'r cylch ac wedi dechrau mynychu'r cwrdd;
- v. aelod gweithgar sy'n ddifrifol wael;
- vi. person ifanc sy'n ateb y drws wedi i'r blaenor alw i weld ei rieni, sydd allan ar y pryd;
- vii. person sydd newydd golli perthynas agos.

Os oes rhai mwy mentrus na'i gilydd, gallai un pâr chwarae rôl tra bod gweddill y grŵp yn gwyllo. Fe all hyn godi llawer o faterion i'w trafod a'u hystyried.

Dysgu mwy am ofal bugeiliol

Mae ar gael gan Gyfarwyddwr Hyfforddiant Eglwys Bresbyteraidd Cymru gwrs sy'n cynnwys CD a nodiadau ar gyfer cynnal trafodaeth ar sawl agwedd o waith bugeiliol. Enw'r cwrs yw *Ewch yn ei Enw Ef* ac y mae'n rhoi sylw i chwe thema; sef

- Yr her i ofalu
- Modelau o ofal bugeiliol
- Ymweld â rhai sy'n ddifrifol wael
- Gofalu am rai mewn profedigaeth
- Gofalu am henoed dryslyd eu meddwl
- Cyd-weddio

Mae Penodau 5 a 6 yn y llyfr hwn yn ymdrin â dwy wedd ar waith bugeiliol sydd yn aml yn peri pryder arbennig i flaenoriaid.



5: Ymweld â'r cleifion a'r sawl a gafodd brofedigaeth

ADDOLIAD AGORIADOL

Darlleniad: Marc 2.1–12 & 3.1–6; Iago 5.13–16

Gweddi

Nefol Dad, yn dy Fab Iesu Grist fe ddangosaist faint dy gonsyrn am dy fyd trwy iddo ddioddef a marw ar ein rhan, cyn cael ei gyfodi y trydydd dydd.

Yn ystod ei fywyd, bu'n iacháu'r cleifion. A gwelwyd nad gwaith hawdd mohono: rhwng y tyrfaoedd yn rhyfeddu ac yn camddehongli a'r arweinwyr crefyddol yn gwgu ac yn gwrthwynebu, prin y câi lonydd i roi gofal fel y dymunai.

Arglwydd, rho i ni'r nerth i wrthsefyll temtasiynau'r gwaith:
yr awydd i weld gwyर्थiau lle nad wyt ti'n dymuno hynny;
yr awydd i rythu a busnesu lle mae angen llonydd a thawelwch
a chenfigenu o weld llwyddiant pobl eraill.

A rho i ni, trwy dy Ysbryd Glân, y tawelwch meddwl a'r ffydd sy'n angenrheidiol i deithio gyda'r sawl sydd mewn poen, mewn galar neu ar fin marw. Rho i ni ymdeimlo â phwysigrwydd y dasg ac â maint yr adnoddau a roddi di ar ei chyfer.

Yn enw Iesu Grist, y Meddyg Da. Amen.

CYFLWYNIAD

Salwch a galar yw'r ddwy sefyllfa fwyaf brawychus i lawer ohonom wrth ymweld, ac eto yn y sefyllfaoedd hyn yn aml iawn y ceir y gwerthfawrogiad dwysaf o'ch ymweliad. Mae popeth a ddywedwyd ym Mhennod 4 yn wir am y sefyllfaoedd hyn hefyd. Sylfaen pob ymweld llwyddiannus yw rhannu'n dynoliaeth a'n gwendid â'n gilydd. Nid oes disgwyl i flaenoriaid fod yn gwmselwyr profiadol – galwad wahanol a gawsoch.

Ond fe elwir yn aml am gyfarwyddyd penodol ar gyfer y sefyllfaoedd hyn. Rhoddir yma felly ychydig o gymorth i'r sawl sydd am ystyried a thrafod y materion dwys hyn.

Trafodwch:

Dyma ddwy restr, yn crynhoi yr hyn y mae ein gofal fel blaenoriaid yn ei olygu, a beth nad yw'n ei gynnwys. Ydych chi'n cael y rhestr hyn yn gymorth? Ychwanegwch eich awgrymiadau eich hunan at bob restr.

Gofalu yw PEIDIO Â:

- chymryd meddiant o fywyd rhywun arall
- datrys problem rhywun drostyn nhw
- dweud "mi wn i yn union sut ydych chi'n teimlo"
- cyflwyno ystradebau a gwirebau

- arbed pobl rhag eu teimladau poenus
- bod ag angen rhoi cyngor
- gwneud penderfyniadau dros bobl eraill
- dweud wrth rywun am beidio ag wyllo
- sicrhau rhywun y bydd "pob dim yn iawn"
- dweud pethau fel "mae'n rhaid mai dyna oedd ewyllys Duw"

Gofalu YW:

- helpu rhywun i deimlo eich bod chi yn sefyll ochr yn ochr â nhw yn eu sefyllfa
- teimlo sut beth yw hi i fod yn esgidiau rhywun arall ("empathi")
- bod ar gael
- gwrando a derbyn ac ymateb yn dwymgalon
- dangos ei bod hi'n iawn i fynegi'r teimladau hyn yn eich gŵydd chi
- llaw ar ysgwydd

GWEINIDOGAETHU I'R CLEIFION

Ar adeg salwch, pan fo rhywun yn gorfforol wan, ac efallai bod eu cryfder emosiynol neu ysbrydol hefyd wedi edwino, gall ymweliad gan flaenor fod yn arbennig o bwysig. Mae profi salwch yn aml yn herio ffydd rhywun. Gallant deimlo fod eu dioddefaint yn greulon ac nad yw'n cyfateb i'w syniad o Dduw cariadlon. Mae ymweliadau cyson gan flaenor yn dangos mewn ffordd ddynol a phersonol y gofal a'r tosturi a welir yng Nghrist.

Mae'r sawl sy'n sâl yn debycach o geisio cymorth blaenor os oes ymddiriedaeth eisoes wedi'i sefydlu rhyngddynt (gweler Pennod 4). Ond fe all profi ymweliadau yn ystod cyfnod o salwch ynoddo'i hunan ffurfio cwlwm felly. Ar adegau pan fo pobl eraill yn ei chael hi'n anodd i ymweld, mae'n bwysicach fyth fod y blaenor yn parhau i wneud hynny.

Mae ymweld yn ystod salwch yn gofyn am gryn sensitifrwydd. Mae'n bwysig bod ar yr un donfedd â'r sawl sy'n sâl. Nid oes angen i bob sgwrs fod yn ddifrifol – gall cyfle i sgwrsio am bethau bob dydd fod yn bwysicach fyth ar adeg fel hyn.

Ystyriwch y cyfarwyddiadau canlynol ar gyfer eich ymweliadau:

- Os dywedwch y byddwch yn ymweld ar adeg arbennig, cadwch at y trefniant hwnnw.
- Cofiwch fod y claf yn berson cyflawn, â diddordeb mewn mwy na'i salwch ei hunan.
- Ar y llaw arall, peidiwch ag osgoi trafod y salwch.
- Gwrandewch ar beth mae'r claf yn ei ddweud, a chymerwch ef/hi o ddifri'.
- Peidiwch ag osgoi trafod materion ysbrydol. Efallai y byddai darllen darn o'r ysgrythur a gweddio yn arbennig o fendithiol.
- Peidiwch ag aros yn hwy nag sy'n ddoeth. Byddwch yn effro i'r angen am orffwys neu feddyginiaeth.



Trafodwch:

Ychwanegwch gyfarwyddiadau ychwanegol o'ch profiad eich hunan, o ymweld ac o dderbyn ymwelwyr.

IACHÂD CRISTNOGOL

Fe fydd ambell glaf yn ceisio gwellhad gwyrthiol, a dechrau mynychu cyfarfodydd Cristnogol neu led-Gristnogol lle y cynigir hynny. Fe all Ysbrydegaeth [Spiritualism] fod yn atyniadol yn aml dan amgylchiadau felly.

Ceisiwch beidio â bod yn rhy feirniadol o hynny. Ar y llaw arall, peidiwch â swcro disgwyliadau naif neu afreal. Fe all fod o gymorth i gynnig gwir "weinidogaeth iachâd" Gristnogol, sy'n cynnig nid gobaith ffals, eithr cynhaliaeth Duw yng Nghrist. Fe all y weinidogaeth hon ar adegau agor y ffordd i Dduw iacháu, trwy ryddhau emosiwn a fu dan glo, neu rwystrau eraill i iechyd a chyflawnder. Ond ni ellir gwarantu hynny, ac ni ddylid byth wneud addewidion ffug.

Mae i weinidogaeth iachâd ddwy elfen:

- Gweddi, yn aml gweddi syml neu weddi gwbl dawel.
- Arddodi dwylo a/neu eneinio ag olew. Gall hyn fod mor syml â dal dwylo neu esmwytho talcen y claf. Nid oes angen rhyw ddefod gymhleth.

Fe all y bydd aelodau eraill neu'r gweinidog yn awyddus i rannu'r weinidogaeth hon gyda chi. Ni ddylid gweld hyn yn rhyw weinidogaeth anarferol, ond yn hytrach yn rhan o fywyd naturiol yr Eglwys, "Corff Crist", wrth i ni geisio gwneud ei ewyllys Ef mewn ysbryd parod i dderbyn, i ymddiried, ac i ddisgwyl.

Ymhlith y darnau addas o'r Ysgrythur y mae:

Salm 16; Salm 27; Salm 46. 1-3; Salm 130; Salm 139.1-18

Mathew 7.7-11; Marc 4.35-41; Marc 5.25-34; Luc 4.40;

Rhufeiniaid 8.35-39; 2 Corinthiaid 12.8-10; Effesiaid 3.16-31; Phillipiaid 4.4-9

Mae Adran y Weinidogaeth Iacháu yn darparu mwy o wybodaeth a thafenni defnyddiol. Ceir enw a chyfeiriad yr Ysgrifennydd yn y Blwyddiadur cyfredol ac ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru (www.ebcpcw.org.uk/cymraeg/ein-gwaith/y-weinidogaeth-iachau). Efallai y gwelwch ddefnydd i rai o'r gweddïau a'r darlleniadau a geir yn y Gwasanaeth Iacháu yn y Llyfr Gwasanaethau (tt 195 – 201) – ond cofiwch iddynt gael eu llunio ar gyfer oedfa gyhoeddus yn hytrach nag ar gyfer gweinidogaeth unigol.

Trafodwch:

Efallai fod meddygon a nyrsys yn eich cynulleidfa, ac yn sicr fe fydd yna bobl a chanddynt brofiad o fod yn gleifion, ac yn gwella neu'n wynebu salwch tymor hir. Sut y gall aelodau eglwysig, gyda'u hamryfal ddoniau a hyfforddiant, weinidogaethau ar y cyd er iachâd?

YMWELD Â CHLEIFION TERFYNOL WAEL

Pan fyddwch yn ymweld â'r sawl sy'n dioddef eu salwch olaf, dichon y cewch eu bod yn mynegi un o'r ymatebion canlynol i'w sefyllfa:

- Gwadu eu bod yn sâl iawn
- Dicter am eu sefyllfa (ac efallai yn gosod y bai ar feddygon neu arnynt hwy eu hunain)



- Bargeinio am fwy o amser i gwblhau gwaith anorffenedig [er mor anodd yw hyn, ceisiwch osgoi cael eich tynnu i mewn i'r bargeinio hyn!]
- Iselder ynghylch colli nerth a gallu, ac ynghylch y golled sydd i ddod
- Derbyn a dod i delerau â'r hyn sydd i ddod.

Nid yw pawb yn profi'r holl deimladau hyn, a gallant ddod mewn unrhyw drefn – neu i gyd ar yr un pryd! Nid yw'n gymorth i neb glywed rhywun yn dweud "Rydych chi'n siwr o deimlo felly – ond peidiwch â phoeni, fe aiff heibio." Ond fe all fod o gymorth i'r ymwelydd wybod bod y teimladau hyn yn gwbl naturiol.

Wrth ymweld â chlaf terfynol wael, rhaid i'r blaenor wynebu'r sefyllfa, a dod o hyd i ffyrdd i gefnogi'r claf a'r teulu yn dyner ac yn rasol. Dichon mai bod yno gyda nhw – yn hytrach na bod â gormod o gywilydd i ymweld, neu ofni y bydd yna gyfnodau o dawelwch – yw'r cymorth gorau posibl i chi ei gynnig.

Yr arfer meddygol bellach yw dweud wrth y claf a'r teulu am y clefyd. Yn aml, fe wŷr y claf ei hun eisoes o reddf cyn derbyn y diagnosis meddygol swyddogol. Ond hyd yn oed heddiw, efallai y cewch gais i guddio'r wybodaeth am y cyflwr oddi wrth y claf, neu gais gan y claf i guddio'r wybodaeth oddi wrth y teulu. Gall hynny greu tyndra ychwanegol ar adeg sy'n ddigon anodd eisoes, a rhwystro'r cyfle i ffarwelio'n urddasol ac yn gariadlon. Os cewch eich hun ar ganol sefyllfa fel hyn, yna trafodwch hi gyda'ch gweinidog neu gyda gweinidog cyfagos ar y cyfle cyntaf. Peidiwch â chael eich tynnu i mewn i unrhyw gynllwyn – efallai na faddeuir i chi byth ac y collwch gyfeillgarwch o bwys.

Trafodwch:

1. Ystyriwch unrhyw brofiad a gawsoch o ymateb i salwch terfynol. Rhannwch â'ch gilydd yn ôl eich gallu.
2. Mae'r ffydd Gristnogol yn sôn am "fywyd tragwyddol", "atgyfodiad y corff", "cymundeb y saint" – grym Duw dros farwolaeth. Sut y gall hyn helpu:
 - y claf yn ystod ei salwch olaf;
 - ei deulu neu ei theulu;
 - chithau, eu blaenor?

GWEINIDOGAETHU I'R SAWL SY'N GALARU

Y profiad mwyaf cyffredin o alar yw hwnnw ar ôl marwolaeth rhywun agos atom ni. Ond fe ellir dioddef colled ddifrifol o fath gwahanol sy'n gwneud i ni alaru. Ymhlith y rhain mae:

- symud cartref neu waith
- plentyn yn gadael cartref
- colli swydd a diweithdra
- colli clyw neu olwg
- colli hunan-barch, preifatrwydd neu iechyd

Mae'r hyn sy'n dilyn yn berthnasol i'r holl sefyllfaoedd hyn.

Arferid credu, a dysgu, i'r galarus brofi "pedwar cam galaru". Gwyddys yn awr fod hyn yn gor-symleiddio pethau. Nid pawb sy'n dioddef pob un o'r pedwar cam, a gallant ddod mewn unrhyw drefn, neu hyd yn oed i gyd ar yr un pryd. Ond fel yn achos clefyd terfynol, fe all fod o ddefnydd i'r blaenor wybod am y pedwar



math o emosiwn y gellir cwrdd â nhw wrth ymweld:

- *Sioc* – gall hyn arwain at ryw ddiffyg teimlad, a gadael y galarus heb allu meddwl am eu colled, na chynllunio at y dyfodol. Yn y sefyllfa hon, mae'n bwysig sicrhau fod rhywun wrth law i wneud penderfyniadau dydd i ddydd (beth i'w brynu, beth i'w fwyta). Ar wahân i hynny, fe fydd bod yno yn ddigon.
- *Rheoli'r sefyllfa* – cadw i fynd er mwyn pobl eraill. Fe fydd hyn bron yn sicr o ddigwydd adeg yr angladd, ac fe all barhau dros gyfnod hwy o lawer. Fe all guddio ymdeimlad dyfnach o lawer o golled. Fe all dweud "On'd ydych chi'n dod ymlaen yn dda?" fod yn sylw creulon yn ogystal ag yn ffeithiol anghywir.
- *Llithro'n ôl* – gall gwendid, colli tymer neu ddiffyg ymddiriedaeth ddod i'r amlwg wrth i'r galarus ddefnyddio'u holl egni ar dasgau pob dydd. Mae hyn yn arbennig o debyg os oes teulu i ofalu amdano. Ceisiwch beidio â chael eich brifo. Fe all fod yn addas i gynnig cymorth ymarferol – ond mae'n ddigon tebyg y gwrthodir y cynnig! Unwaith eto, gall bod ar gael fod yn gystal cymorth â dim.
- *Addasu* – yn raddol, fe fydd y sawl a gafodd brofedigaeth yn dod yn barod i gychwyn perthynas o'r newydd (neu swydd newydd neu beth bynnag, os mai math gwahanol o golled a gafwyd). Fe fydd yn amrywio o un i'r llall pa mor hir y cymer hyn. Mae rhai pobl yn methu ag ymdopi byth. Mewn amgylchiadau fel hyn, fe all fod angen cymorth proffesiynol. Ymgynghorwch â'ch gweinidog, neu â meddyg sy'n cydymdeimlo, am gyngor ar sut y gellir cynnig y fath gymorth mewn ffordd sensitif.

SUT Y DYLWN I YMATEB I ALAR?

Dyma ychydig o awgrymiadau ymarferol. Fe ddylid eu darllen ochr yn ochr â'r sylwadau cyffredinol am ymweld ym Mhennod 4.

1. Mae'ch presenoldeb dipyn pwysicach na'ch geiriau. Fe all fod yn gymorth i gyffwrdd ag ysgwydd neu law. Ond peidiwch â gorfodi'ch cyffyrddiad ar rywun nad yw'n gyfforddus â hynny.
2. Gwrandewch ar beth a gyfathrebir, drwy eiriau a thawelwch ac ystum corff. Yn hytrach na dychmygu sut y byddech chi'n teimlo dan y fath amgylchiadau, gwrandewch ar sut y maent hwy yn teimlo go iawn. Ymatebwch yn ofalus ac yn dyner – ac yn fyr. Peidiwch â chael eich temtio i adrodd eich hanes chi'ch hun.
3. Helpwch y sawl sy'n galaru i siarad am y sawl sydd wedi marw (neu am y swydd/plentyn/ayb a gollwyd). Peidiwch ag osgoi'r pwnc.
4. Rhowch eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost fel y gellir cysylltu â chi. Efallai all cynnig cymorth fod yn gefn yn ogystal â chynorthwyo.
5. Byddwch yn ymwybodol o'ch teimladau'ch hunan o golled a phrofedigaeth. Fe all y cewch eich atgoffa am brofiadau poenus. Ond cofiwch y gall y ffaith i chi eich hun ddiodef fod yn adnodd i chi yn eich gwaith fel blaenor.
6. Mae angen i chi ystyried beth ydych chi'ch hunan yn ei gredu am fywyd a marwolaeth. Efallai y cewch y darnau canlynol o'r Beibl yn gymorth:
 - **Salm 16.1-2,5-11; Salm 22.1-11; Salm 23; Salm 31.9-14; Salm 46; Salm 90.1-6; Salm 103.8-18; Salm 139**
 - **Llyfr Job** (sy'n adrodd hanes sawl math o golled)
 - **Ioan 11.17-27; 14.1-7, 15-21, 27**

- Atgyfodiad Iesu: gweler **Mathew 28; Marc 16; Luc 24; Ioan 20 & 21**
 - **Rhufeiniaid 8.18, 28, 31-39**
 - **1 Corinthiaid 15**
 - **Datguddiad 21.1-5**
7. Nid nawr yw'r amser i gyflwyno dadleuon rhesymegol am fywyd a marwolaeth (neu beth bynnag). Pan yw person mewn galar yn gofyn "pam", nid holi am ateb deallusol y mae, eithr protestio neu holi am ystyr a phwrpas.
 8. Yng nghanol y galar, fe ganfyddir ystyr yn y gofal a gynigir gan bobl eraill, yn yr un modd ag y canfyddir ystyr terfynol nid mewn fformiwla ddeallusol, ond mewn perthynas â Duw cariad. Mae Duw yn cerdded gyda ni yng nglyn cysgod angau. Mae efengyl yr atgyfodiad yn sôn nid yn unig am fywyd ar ôl marw, ond hefyd am rym cariad, nas trechir gan hyd yn oed y tywyllwch mwyaf dudew (**Ioan 1.5**).
 9. Mae gweddi yn ymateb pwysig. Gweler y sylwadau am weddio ym Mhennod 4. Mewn profedigaeth, mae'n arbennig o wir nad oes angen huodledd nac amlhau geiriau. Yr hyn sydd ei angen yw'r awydd i rannu teimladau dyfnion a dirdynnol gerbron Duw. Gellir gwneud hynny mewn tawelwch, trwy gyffwrdd, neu mewn ychydig eiriau. Nid oes llinell derfyn rhwng sgwrs a gweddi - mae Duw yn clywed ein holl sgwrsio, p'un ai ydym yn ei gyfeirio'n benodol ato Ef ai peidio.

Ymarfer:

Meddyliwch am golledion yn eich profiad eich hun neu rai y daethoch ar eu traws yn eich gwaith fel blaenor. Dewiswch un sefyllfa felly. Teimlwch o'r newydd sut beth ydoedd. Sut weddi fyddai'n addas? Ysgrifennwch weddi fer ar gyfer y sefyllfa honno.



6: Pontio'r Cenedlaethau: Gweinidogaethu gyda phobl ifainc

CYFLWYNIAD

Cri llawer o'n cynulleidfaoedd y dyddiau hyn yw "Ble mae'r bobl ifainc?", ac fe welir awydd cyffredinol i groesawu a chymhathu pobl ifainc i fywyd yr eglwys. Ar y llaw arall, cri llawer o bobl ifainc yw eu bod am ddiwallu eu hanghenion ysbrydol, ond nad yw'r eglwys yn cynnig modd ystyrlon iddynt wneud hynny.

Nid pennod ar sut i redeg ysgol Sul neu gyflawni gwaith ieuentid yw hon – ceir adnoddau a chymorth i'r cyfeiriad yna gan y Cyngor Ysgolion Sul, Gwasanaeth Plant ac Ieuentid y Cyfundeb a Choleg y Bala (Gweler y rhestr cyfeiriadau ar ddiwedd y bennod hon). Y bwriad yn y bennod hon yw cynnig ffordd i'r blaenoriaid – ac efallai rai o arweinwyr eraill yr eglwys – gwrdd â phobl ifainc, a dechrau deialog â nhw.

Dywedir yn aml fod agendor mawr rhwng y cenedlaethau. Os yw hynny yn wir yn yr eglwys, yna rydym ymhell iawn o'r ddelfryd o gymuned deuluol sydd gan Grist mewn golwg ar ein cyfer ni. Y ffordd orau i bontio'r cenedlaethau yw dod â nhw at ei gilydd yn llythrennol. Awgrymir yma raglen o bedwar cyfarfod, i'w cynnal dros gyfnod o bedair wythnos neu bedwar pythefnos neu bedwar mis, fel y bo'n gyfleus. Yn wahanol i bob pennod arall yn y llyfr, nid yw'r bennod hon i'w defnyddio gan y blaenoriaid yn unig – mae'n rhaid i chi fod yn barod i rannu'ch amser gyda phobl ifainc i'w defnyddio'n effeithiol.

Nid nod y pedwar cyfarfod hyn yw dod o hyd i atebion cywir, ac ni chymerir yn ganiataol fod doethineb yn cynyddu gydag oedran Yn hytrach, apelir at brofiad bywyd yr ifainc a'r rhai hŷn fel ei gilydd i ddatgelu'n dynoliaeth gyffredin. Os yw'r cyfarfodydd hyn i fod yn effeithiol, yna bydd raid i'r oedolion ymwrthod ag unrhyw ymdeimlad o uwch raddoldeb, a bydd raid i'r bobl ifainc ymwrthod ag ymdeimlad o annigolrwydd neu ystyfnigrwydd.

Y ddelfryd fyddai gwahodd at ei gilydd y blaenoriaid (ac efallai ychydig o oedolion eraill sydd â diddordeb arbennig mewn gwaith gyda phobl ifainc) a phobl ifainc sydd eisoes â rhyw gysylltiad â'r capel – trwy ei fynychu, trwy gysylltiad teuluol neu drwy gysylltiadau'r capel â'r ysgol leol. Os nad oes pobl ifainc felly o gwbl, gellid gwahodd Clwb Ieuentid lleol neu Glwb Ffermwyr Ifanc i'ch helpu gyda'r ymarfer hwn.

Awgrymir gwahodd niferoedd lled gyfartal o oedolion (30 oed neu drosodd) a phobl ifainc (yn eu harddegau). Mae cadw'r niferoedd yn lled gyfartal yn bwysig. Gall yr holl flaenoriaid neu rai ohonynt fod ynglŷn â'r gwaith yma. Cofiwch y bydd pobl ifainc yn aml yn teimlo'n lletchwith os yw eu rheni eu hunain yno.

Y CYFARFOD CYNTAF: DONIAU

Cynull a chychwyn

Cynullwch y cyfarfod mewn man cyfforddus – byddai lolfa rhywun yn well na festri'r capel. Os oes gan bobl ifainc y capel le arferol i gwrdd, beth am gwrdd yno. Peidiwch, da chi, â chwrdd ym man cyfarfod arferol y blaenoriaid, gan y bydd hyn yn rhoi mantais i chi dros y bobl ifainc.

Peidiwch â mynnu bod pobl yn cymysgu o'r cychwyn cyntaf – fe ddaw hynny'n nes ymlaen – a cheisiwch osgoi holi pethau allai bwysleisio'r gagendor rhyngoch, megis "Beth yw eich gwaith?" neu "Ble rydych chi'n byw?"


Eisteddwch mewn cylch neu batrwm arall lle y gallwch wynebu'ch gilydd (gweler Pennod 8 am y rhesymau pam y mae hyn yn bwysig ymhob cyfarfod). Cymerwch hyd at ddeng munud i fynd o amgylch yr ystafell yn gofyn am enwau cyntaf yn unig (neu llysenw cyfarwydd, os oes yn well gan rai) a brawddeg yn mynegi beth sydd ym meddwl pob un (dyhead neu amheuaeth) wrth ddod i'r cyfarfod.



Gweithdy

Rhannwch y grŵp yn ddau am yr hanner awr nesaf. Gofynnwch i'r holl oedolion i fynd i un ystafell, a'r holl bobl ifainc i ystafell arall.

Yn y ddwy ystafell, trefnwch fod yna ddau ddarn mawr o bapur (megis papur *flipchart*) neu gerdyn, wedi'u gosod allan fel a ganlyn:



Yn y naill ystafell a'r llall, gofynnwch i'r grŵp gymryd y papur sy'n ymwneud â'u hoedran eu hunain, a threulio rhyw ddeng munud yn nodi'r hyn sy'n dda neu'n ddrwg am eu cyfoedion. Yna noder y pethau gorau oll a'r pethau gwaethaf oll (gellir eu rhifo 1,2,3, ayb).

Yna treuliwch yr un faint o amser yn trafod yr oedran arall.

Yn olaf, dylid rhoi i bob grŵp dri darn o bapur A4, a gofyn iddynt nodi arno ag ysgrifen fras dair dawn y maent yn teimlo fod gan eu cyfoedion i'w cynnig i'r oedran arall.

Dod ynghyd

Dewch â'r ddau grŵp at ei gilydd, ac eisteddwch mewn cylch fel bod pawb yn gallu gweld y taflenni.

Cymerwch yn gyntaf y ddau boster yn sôn am Oedolion, a gyda'ch gilydd cymharwch yr hyn yr oedd y ddau grŵp yn ei weld fel cryfderau a gwendidau pobl mewn oed. Nodwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n annhebyg rhwng y ddwy restr. Mae croeso i aelodau'r naill grŵp a'r llall esbonio beth oedd y tu cefn i ambell sylw.

Ar ôl rhyw ddeng munud, trowch at y ddwy daflen am bobl ifainc, a gwnewch yr un fath â nhw.

Yna gosodwch o flaen pawb y ddwy restr o ddoniau a gynigwyd gan y ddau grŵp.

Grwpiau trafod

Rhannwch yn grwpiau, gyda thua thri pherson ifanc a thri oedolyn ym mhob un. (Mewn eglwys fach, un grŵp fyddwch chi fan hyn a phob tro y sonnir am rannu'n grwpiau bach). Trafodwch y ddau gwestiwn canlynol:

1. Pa eitemau ar y siartiau oedd yn peri syndod i chi? Pam?
2. Sut y gallwn ni roi a derbyn doniau'n gilydd o fewn yr eglwys? (neu, os mai pobl ifainc o'r tu allan i'r eglwys sydd gyda chi, o fewn y gymuned?)

Ar ôl chwarter awr, darperwch i bob grŵp gopi o **loan 6.1-13** (bwydo'r pum mil) a'r cwestiwn: Beth mae'r stori hon yn ei ddweud am Iesu a phobl ifainc?

Rhowch 5-6 munnud i'r grwpiau drafod hyn.

Cloi



Dewch ynghyd eto. **Peidiwch** â gofyn am grynodedb o'r drafodaeth. Yn hytrach, caniatewch rai eiliadau o dawelwch i bobl gael diolch i Dduw am ei gilydd ac am yr hyn a rannwyd, a dewch â'r cyfarfod i ben drwy gydadrodd y Fendith.

YR AIL GYFARFOD: GOFID A PHOEN

Gofynnwch i aelodau'r grŵp atgoffa'i gilydd o'u henwau cyntaf, ac yna dweud pa flwyddyn yn eu bywydau hyd yma fu'r orau, a pham. Da o beth i'r arweinydd osgoi ateb gyntaf neu olaf, rhag iddo ymddangos yn bwysicach na neb arall.

Gweithdy

Ar gyfer y sesiwn hwn, fe fydd arnoch angen cyflenwad o gylchgronau lliw, papurau newydd, ac ati sy'n cynnwys nifer dda o luniau; un pâr o siswrn i bob dau berson; pot glud ar gyfer pob grŵp a darnau o gerdyn (tua 20 modfedd sgwâr yr un).

Sicrhewch bawb nad cystadleuaeth gelf mo hon, ond cyfle i ddarlunio rhywbeth am ein bywydau y gallwn ei rannu â'n gilydd.

Rhannwch bawb yn grwpiau bach (tua 4–6 o bobl), yn gymysg o ran oedran. Yna, cymera pawb ddarn o gerdyn a meddwl am bump o ofidiau, neu bethau a barodd loes neu boen iddynt, yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf (h.y. yn ystod eu hoes yn achos y bobl ifainc, ond yn ystod blynyddoedd mewn oed yn achos y rhai hŷn). Gall y rhain fod yn ofidiau corfforol neu gymdeithasol neu grefyddol neu'n rhai a ddaw o dyfu a datblygu. Yn hytrach na'u trafod, dylent chwilio trwy'r cylchgronau a phapurau am luniau neu benawdau sy'n cyfleu'r hyn a brofasant. Ceisiwch annog pobl i ddewis llun yn hytrach na geiriau.

Gellir treulio hyd at 40 munud yn gwneud hyn o fewn y grwpiau. Mae croeso i bobl drafod â'i gilydd wrth lunio'u collage – ond llunio collage yn hytrach na thrafod yw'r nod yn y pen draw!

Dod ynghyd

Dewch â phawb ynghyd ar ôl 40 munud, a glynwch y lluniau ar y mur, gan osod y rhai sy'n perthyn i bobl o oedran tebyg gyda'i gilydd. Gofynnwch i'r grŵp nodi'r hyn sy'n gyffredin o fewn y grwpiau oedran.

Grwpiau trafod

Nawr rhannwch yn grwpiau bach newydd, gyda phawb yn dwyn eu collage i'w grŵp newydd. Anogwch drafodaeth am y rhain trwy gyfrwng y ddau gwestiwn hyn:

1. Pa ofidiau neu boenau llencyndod y mae'r oedolion yn eu cofio, a sut y gwnaethon nhw ymdopi â nhw?
2. Pa ofidiau neu boenau a brofwyd gan yr oedolion y mae'r bobl ifainc yn eu hofni, a pham?

Caniatewch ryw ugain munud i drafod, yna dosbarthwch i bob grŵp gopi o **loan 5.1–9**, gyda'r cwestiwn hwn: *Beth mae'r wyrth hon (yn enwedig adnod 7) yn ei ddweud am oedolion?*

Ar ôl darllen yr hanes a'r cwestiwn, a'i drafod am ryw ddeng munud pellach, dylid rhoi cyfle i aelodau pob grŵp bach i ddweud a ydynt yn adnabod rhywun sydd heddiw mewn poen neu ofid. Nodwch yr enwau cyntaf yn unig, ac yn fyr beth yw eu dolur (gweler y weddi isod am enghreifftiau).

Cloi

Dylai'r arweinydd nodi y bydd y sesiwn yn cloi gyda gwneud yr hyn awgrymodd lesu, sef gweddio dros y sawl sydd mewn poen neu ofid. Gall aelod o bob grŵp bach wedyn yn syml enwi'r sawl a nodwyd, a pham eu bod mewn angen. Gellid ychwanegu ymateb byr i bawb ar y diwedd, e.e:

Gweddiwn dros Mair, sy'n dioddef o gancr y groth;
Gweddiwn dros Duncan, sy'n ceisio rhoi'r gorau i alcohol;
Gweddiwn dros Mandy, sy'n cael bod yn feichiog yn anodd.
Arglwydd, yn dy drugaredd: **Clyw ein gweddi.**

Gellir cloi'r cyfarfod trwy gydadrodd y Fendith .

Y TRYDYDD CYFARFOD: BREUDDWYDION

Gofynnwch i bawb ddweud eu henwau bedydd eto, ac enwi rhywun arall (byw neu farw) yr hoffent fod pe baent yn dihuno yfory yn berson arall. Pwyswch ar bawb i enwi rhywun fel hyn. Croeso i bobl holi pam.

Yna rhowch i bawb ddarn o bapur A4 a phensel. Dylid rhannu'r papur ymlaen llaw yn bedwar sgwâr cyfartal. Gofynnwch i bawb lunio symbol (nid llun artistig!) yn dynodi pedair breuddwyd o'u heiddo – heb ysgrifennu geiriau. Breuddwydion ar ffurf gobeithion neu ddyheadau neu ar ffurf hunllefau am y dyfodol yw'r rhain i fod (nid breuddwyd go iawn a gafwyd neithiwr!). Er enghraifft, pe bai rhywun yn breuddwydio am ennill swm sylweddol o arian, yna gellid rhoi symbol £ neu dynnu llun bag o arian. Caniatewch hyd at 15 munud i bawb wneud hyn.

Gofynnwch i bawb osod eu papurau ar y llawr. Ceisiwch rannu'r grŵp i grwpiau bach o 3 neu 4 yn ôl yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt – e.e. gosodwch bawb fu'n breuddwydio am arian gyda'i gilydd, ac yn y blaen. (Yn wyneb yr ail ymarfer yn y grwpiau, anwybyddwch am y tro freuddwydion yn ymwneud â rhyfel neu heddwch).

Gweithdy

O fewn y grwpiau bach, gofynnwch i bob un nodi ar gefn ei bapurau lle ceir thema gyffredin:

1. Pe bai'r freuddwyd i'w pheintio, beth fyddai'r prif liw?
2. Pe bai'r freuddwyd i'w gosod ar gân, pa dôn fyddech chi'n ei defnyddio?
3. Pe bai'r freuddwyd i'w ffilmio, pwy fyddai'n chwarae'r brif ran?

Gadewch i bob un gyflwyno'i freuddwyd yn ei dro, a rhowch gyfle i'w trafod. Nodwch yr hyn sy'n debyg, a'r hyn sy'n annhebyg. Trafodwch faint o egni fyddai pob un yn fodlon ei ddefnyddio er cyflawni'i freuddwyd (neu er mwyn ei hatal, os yw'n fwy o hunllef).

Ar ôl rhyw bum munud ar hugain, sicrhewch fod cymysgedd o wahanol oedrannau yn y grwpiau – gan symud pobl o un grŵp i'r llall os oes rhaid – ac yna rhowch i bawb gopi o'r canlynol, iddynt nodi atebion yn unigol i gychwyn:

BREUDDWYDIO AM RYFEL A HEDDWCH

Beth sy'n dylanwadu ar sut yr ydych yn meddwl am ryfel a heddwch? (Rhestrwch bobl, gwybodaeth, profiadau a fu'n ddylanwad arnoch)

Beth, yn eich barn chi, yw'r prif wahaniaeth rhwng trafod materion rhyfel a heddwch ym 1943 a'u trafod heddiw?

Ar ôl deng munud, dylai'r grwpiau drafod eu hatebion i'r cwestiwn cyntaf am ryw bum munud.



Dod ynghyd

Wedi i'r grwpiau ddod ynghyd, dylai'r arweinydd osod ar y mur ddarn mawr o bapur, wedi'i rannu yn ddwy golofn, y naill ag arni'r pennawd **1943** a'r llall **heddiw**. Yna dylid crynhoi yr atebion unigol a roddwyd i'r ail gwestiwn uchod. Gofynnwch i'r grŵp cyfan a ddylai'r agwedd Gristnogol at ryfela fod yn wahanol heddiw o'i chymharu â 1943.

Cloi

Gofynnwch i bawb ddychwelyd i'r un grwpiau bach gyda chopi o **Marc 10.17-22** a'r cwestiwn: *Yng nghyd destun breuddwydio, delfrydu a gobeithio, beth y mae'r hanes hwn yn ei ddweud am ymrwymiad ac ymroddiad?*

Gwahoddwch bawb i ddweud un peth y credant iddyn nhw ei ddysgu yn ystod y cyfarfod, ac ar ôl ychydig o eiliadau o dawelwch, clowch y cyfarfod trwy gydadrodd y Fendith o fewn eich grŵp.

Y PEDWERYDD CYFARFOD: CWESTIYNAU

Dechreuwch trwy ofyn i bawb beth yw'r cwestiwn mwyaf embarasing a ofynnwyd iddynt erioed – neu y gellid ei ofyn iddynt.

Gweithdy

Rhannwch yn ddau grŵp yn ôl oedran, gan benodi arweinydd i bob grŵp. Dylai'r ddau grŵp restru'r deg cwestiwn yr hoffent eu gofyn i'r grŵp arall. Caniatewch ugain munud neu fwy, a rhowch gyfle i bob unigolyn gopio'r rhestr. (Os yw hyn yn debyg o fod yn anodd i rai, byddwch yn barod i gael rhywun i wneud copïau wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen).

Wedi gorffen y rhestrau, gofynnwch i bawb fynd yn barau, un o bob grŵp, a gofyn i'w gilydd yn eu tro y deg cwestiwn a luniwyd. Dylai pawb nodi'r atebion a roir. Yna, mae pawb i ddychwelyd i'r grwpiau oedran, a bydd arweinydd y grŵp yn nodi'r ateb mwyaf cyffredin ymhob achos.

Yna, dylid trafod beth mae'r atebion hyn yn ei ddweud am y grŵp arall, a llunio cynllun tri phwynt yr hoffent i'r grŵp arall ei fabwysiadu er mwyn newid er gwell.

Dod ynghyd

Pan fydd y rhestrau atebion a'r cynlluniau er newid yn barod, dewch â phawb at ei gilydd, a gadewch i'r ddwy garfan gyflwyno'u casgliadau a'u cynlluniau ar gyfer y lleill. Rhowch gyfle i'r garfan arall wedyn i ymateb.

Grwpiau trafod

Rhannwch bawb yn grwpiau bach o ryw 4-6, yn gymysg o ran oedran.

Gosodwch ddwy dasg iddynt:

1. Ystyried ar y cyd sut y buont yn ymateb i'r holiadur, y canlyniadau a'r cynllun a gyflwynwyd ar eu cyfer.
2. Ar ôl rhyw ddeng munud, rhowch iddynt gopi o **Luc 2.41-52** a'r cwestiwn: *Beth y mae hyn yn ei ddweud am y berthynas rhwng yr hen a'r ifainc o fewn yr eglwys?*

Cloi

Dewch â phawb ynghyd a gadewch i'r grwpiau bach rannu eu sylwadau am hanes y bachgen Iesu yn y Deml. **Os yw'r eglwys yn barod i gymryd camau pellach**, yna gofynnwch pa wersi y gellir eu tynnu o'r hanes yma am berthynas yr hen a'r ifainc o fewn y gynulleidfa, a sut y gellid ei gwella. **Os nad yw'r gynulleidfa yn barod i ymateb i o leiaf rai o'r atebion a geir, yna peidiwch â gofyn y cwestiwn.**

Gellir cyflwyno cyfnod o weddio agored i'r sawl a fyn gael mynegi eu consyrn, eu diolch neu rywbeth arall.

Ar ôl cwblhau'r pedwar cyfarfod, mae'n bosib yn cychwynir ar bennod newydd yn hanes cydberthynas aelodau'r gynulleidfa ar draws y gwahanol genedlaethau. Tasg y blaenoriaid fydd sicrhau fod y cyfathrebu yn parhau, a bod eu gofal bugeiliol a'u harweiniad yn cymryd i ystyriaeth yr hyn a ddysgwyd yn ystod y sesiynau hyn.

ADNODDAU AT Y GWAITH

Ceir cymorth a chyfarwyddyd ar bob agwedd o waith gyda phlant a phobl ifainc gan **Wasanaeth Gwaith Plant a Ieuentid** y Cyfundeb. Mae'r Gwasanaeth yn cyhoeddi llawer o ddeunydd ar gyfer clybiau plant ac ati, (gw. www.ebcpcw.org.uk/Cymraeg/adnoddau/plant-ieuentid/) ac fe ellir cysylltu â'r gwasanaeth trwy: Coleg y Bala, Ffordd Ffrydan, Y Bala, Gwynedd LL23 7RY.

Ffôn: 01678 520565. E-bost: colegybala@ebcpcw.org.uk

Trefnir deunydd ar gyfer yr ysgol Sul a gwaith plant gan **Gyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru: (gw. www.ysgolsul.com)**

E-bost aled@ysgolsul.com

Cyhoeddir deunydd tebyg yn y Saesneg gan:

Christian Education www.christianeducation.org.uk



7: Y Blaenor a'r Cyfundeb

ADDOLIAD AGORIADOL

Darlleniad: 1 Pedr 5.1-4 – amlinelliad byr o'r hyn yw bod yn flaenor.

Gweddi

Arglwydd Iesu, y Pen Bugail, fe'n gelwaist i fugeilio dy braidd ac i wneud hynny yn ostyngedig, gan gofio dy ddiodefaint di.

Maddau i ni ein methiannau yn y gwaith, a rho i ni dy ras i barhau yn dy wasanaeth, a cheisio cymorth, cefnogaeth ac anogaeth ein cyd flaenoriaid a gweinidogion yn y Cyfundeb, fel y gallwn ar y cyd ddangos a gweithredu cariad Duw, dy Dad cariadlon dithau a ninnau. Amen.

CYFLWYNIAD

Corff cymharol newydd yn hanes crefyddol Cymru yw'r "Hen Gorff". Dim ond ym 1826 y cafodd ei ymgorffori'n enwad. (Ceir peth o'r hanes ym Mhennod 2, ac yn yr Atodiad i'r bennod hon). Eto i gyd, fe fagodd draddodiad dros sawl cenhedlaeth.

Ar un adeg, fe gymerid yn ganiataol y byddai blaenoriaid newydd yn lled gyfarwydd â phrif agweddau hanes a threfn yr enwad. Ond nid felly erbyn hyn. Daeth rhai i ffydd yng Nghrist fel oedolion, heb gael eu codi yn y capel. Daeth eraill atom o enwadau eraill. Mae nifer o'n capeli bellach yn gapeli cyd-enwadol neu yn rhan o ofalaethau bro cyd-enwadol. Fe all ymgodymu â strwythur yr enwad, felly, fod yn dipyn o dreth ar ein blaenoriaid.

Yn y bennod hon, ceisir rhoi amlinelliad syml ond cywir o'r strwythur hwnnw, ac yna rai canllawiau ynglŷn â sut y dylai'r blaenoriaid lleol ymwneud â'r enwad trwy Gymru.

Rhaid dweud i gychwyn nad hierarchaeth o lefelau llywodraethol mo'r strwythurau hyn yn bennaf, eithr cylchoedd mwy o gymdeithas Gristnogol, yn hyrwyddo'n tystiolaeth, ein hatebolrwydd y naill i'r llall a'n gofal am ein gilydd. Yn rhanbarthol ac yn genedlaethol fel yn lleol – ar y cyd y mae gweithredu awdurdod ac arweinyddiaeth Gristnogol.

O ganlyniad, fe fu Presbyteriaid yn draddodiadol yn amheus o sefydlu swyddfeydd a swyddi rhanbarthol a chenedlaethol, gan ddibynnu ar wirfoddolwyr. Ond gyda'r cynnydd yng nghymhlethdodau ein cymdeithas, a'r ddeddfwriaeth gynyddol sy'n gofyn am ymateb cenedlaethol, fe fu'n rhaid bwrw ati i wneud hynny. Gellir dilorni hyn fel "biwrocratiaeth", ond yr un yw'r bwriad o gyflogi pobl yn rhanbarthol neu yn genedlaethol ag yn lleol – sef hyrwyddo aelodau'r eglwys a'i phwyllgorau i gyflawni eu priod waith yn fwy effeithiol, a chyda gwasanaeth proffesiynol yn gefn iddynt. Eto i gyd, fel y gwelwn, ar flaenoriaid di-dâl cyffredin y syrth llawer o'r cyfrifoldeb o hyd.

YR HENADURIAETH

I'r rhan fwyaf o'n haelodau, yr eglwys leol yw ffocws eu bywyd crefyddol a'u hymlyniad. Ond mewn gwirionedd, yn yr Eglwys Bresbyteriaid yr Henaduriaeth yw'r "eglwys leol", a'r eglwysi unigol yn ganghennau ohoni. Corff llywodraethol yr eglwys, felly, yw'r Henaduriaeth, sy'n cynnwys holl flaenoriaid y cylch. Yn wahanol i'r drefn gyda'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig neu Eglwys yr Alban, lle y danfonir cynrychiolwyr yn unig o bob eglwys i'r Henaduriaeth, mae'n ddisgwyliad yn ein trefn ni y bydd pob blaenor a all fynychu'r Henaduriaeth yn gwneud hynny. Nid opsiwn mohono, ond rhan o'r swydd.



Dyma yw cyfrifoldebau'r Henaduriaeth yn ôl y Llawlyfr Trefn a Rheolau (t11):

- Arolygu gwaith holl eglwysi'r cylch.
- Paratoi ac adolygu Strategaethau Gweinidogaeth a Chenhadaeth, gan gynnwys y defnydd o adnoddau.
- Ymddiddan â gweinidogion a blaenoriaid am eu profiad ysbrydol a'u profiad yn y swydd.
- Arolygu ethol blaenoriaid yn yr eglwysi.
- Derbyn ac arolygu pregethwyr llewg nad ydynt yn flaenoriaid.
- Gwrando achos a disgyblu blaenoriaid, ymgeiswyr, pregethwyr a phregethwyr llewg y profir cwynion yn eu herbyn. Pan fo angen ystyriaeth bellach i gwyn yn erbyn Gweinidog rhaid ei hanfon ymlaen i sylw'r Gymdeithasfa.
- Ystyried apeliadau.
- Derbyn ac ystyried cenadwriau a ddaw yn uniongyrchol o'r eglwysi lle nad oes Cyfarfod Dosbarth/Cylch, o'r Cyfarfod Dosbarth/Cylch ac anfon cenadwriau i'r Gymdeithasfa.
- Arolygu gwaith yr Ysgol Sul, ieuenctid a phlant.
- Arolygu cwrs a gwaith Ymgeiswyr am y Weinidogaeth, ymddiddan â hwy o leiaf unwaith y flwyddyn a chymeradwyo Ymgeiswyr i'r Gymdeithasfa i'w hordeinio.
- Arolygu galwadau i Weinidogion, eu sefydlu a'u rhyddhau o'u gofalaethau.
- Arolygu trefn a chynhaliaeth y Weinidogaeth.
- Hybu uno eglwysi a chwilio am gyfleon i sefydlu achosion newydd fel mae'r boblogaeth yn symud.
- Gofalu am holl fuddiannau'r Cyfundeb, arolygu adeiladau a phob gofyn ariannol ynglŷn â hwy.
- Gofalu bod holl ofynion y Gymdeithasfa yn cael eu cyfarfod.
- Ymddiddan ac ordeinio y rhai a etholir yn flaenoriaid yn eglwysi'r Henaduriaeth a threfnu Eisteddiad Agored i'w hordeinio.
- Cadw cofrestr gyfredol o flaenoriaid yr Henaduriaeth a'i chyhoeddi ym Mlwyddlyfr yr Henaduriaeth gan anfon copi i'r Swyddfa Ganolog.
- Cyflwyno enwau'r Blaenoriaid sydd i'w hyfforddi a'u trwyddedu i weinyddu'r Sacramentau, a darparu rhestr o'r Blaenoriaid a drwyddedwyd i'r Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth.
- Trefnu oedfaon i gomisiynu blaenoriaid a drwyddedwyd i weinyddu'r Sacramentau

Yn ychwanegol at hyn y mae gan yr Henaduriaethau gyfrifoldebau ariannol gyda golwg ar incwm a gwariant yr eglwysi, a dyledion eglwysi gyda golwg ar y Cyfraniad Cyfundebol ac ati (gw. Y Llawlyfr Trefn a Rheolau tt.11-12)

Mae rhai henaduriaethau yn dal i gynnal **Cyfarfodydd Dosbarth**. Mae'r rhain yn cydlynu eglwysi ar draws ardaloedd llai o faint na henaduriaeth gyfan, ac yn cynnwys holl weinidogion a blaenoriaid eglwysi'r cylch hwnnw. Mewn rhai henaduriaethau, fe beidiodd y Dosbarthiadau â chwrrd o gwbl, ac nid oes gan rai Dosbarthiadau yr un gweinidog i'w gwasanaethu.



Dyma ddywed y Llawlyfr Trefn a Rheolau (t 10) am y Cyfarfod Dosbarth.:

Bydd yr Henaduriaethau yn penderfynu ar waith a ffiniau'r Cyfarfodydd Dosbarth/Cylchoedd o fewn yr Henaduriaeth. Bydd rhai Henaduriaethau yn dewis hepgor y Cyfarfod Dosbarth/Cylch yn llwyr tra bydd eraill am roi awdurdod sylweddol i'r Cyfarfod Dosbarth/Cylch yn ôl anghenion a maint daearyddol yr Henaduriaeth. Gall y Cyfarfod Dosbarth/Cylch ddiogelu cyswllt agos rhwng eglwysi lleol a hybu gweinidogaeth a chenhadaeth. Er mwyn osgoi ymdeimlad o bellter, gallai'r Cyfarfod Dosbarth / Cylch chwarae rhan bwysig mewn hybu cymdeithas weddigar rhwng eglwysi ac mewn cryfhau gofal bugeiliol y naill dros y llall. Ni fydd gan y Cyfarfodydd Dosbarth /Cylchoedd yr awdurdod i gymryd penderfyniadau oni bai fod yr Henaduriaeth yn penderfynu fel arall, ond yn hytrach byddid yn trafod argymhellion a materion o'r llysoedd enwadol ac yn gweithio tuag at gryfhau perthynas eglwysi'r Henaduriaeth â'i gilydd. Hyd yn oed pe byddai'r Dosbarthiadau/Cylchoedd yn derbyn cyfrifoldebau gan yr Henaduriaeth, byddai'r awdurdod i gymryd penderfyniadau mewn perthynas â Chyllid yn aros gyda'r Henaduriaeth.

Dyma ddangos ehangder cyfrifoldeb yr Henaduriaeth a'r Dosbarth. Cofier nad oes lle gan yr un blaenor i gwyno fod yr Henaduriaeth neu'r Dosbarth yn "ymyrryd" ym mhenderfyniadau'r blaenoriaid yn lleol – maent oll yn aelodau o'r Henaduriaeth, a chanddynt yr hawl i siarad a phleidleisio.

Y GYMDEITHASFA (Y SASIWN)

Mae'r holl Henaduriaethau a'u heglwysi yn aelodau o'r Gymdeithasfa. Un corff yw hwn, yn rhychwantu'r enwad i gyd. Ond yn ymarferol, fe gyferfydd y Gymdeithasfa mewn tair talaith – yn y Gogledd a'r De, lle gweithredir trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn y Dwyrain, lle gweithredir trwy gyfrwng y Saesneg. (Ond mae rhai eglwysi lleol Saesneg eu hiaith yn perthyn i'r Gymdeithasfa yn y Gogledd a'r De, a rhai eglwysi dwyieithog yn perthyn i'r Gymdeithasfa yn y Dwyrain). Mae yna duedd i gyfeirio at "Sasiwn y Gogledd", "Sasiwn y De" a "Sasiwn y Dwyrain" fel pe baent yn gyrff annibynnol ar ei gilydd. Yn y llyfr hwn, fe gedwir at y diffiniad technegol gywir, sef bod yr un Gymdeithasfa yn cwrdd mewn tair talaith – Gogledd, De a Dwyrain.

Mae'r Gymdeithasfa yn cwrdd ymhob talaith ddwywaith y flwyddyn. Mae hawl gan bob gweinidog a blaenor gweithredol i fynychu cyfarfodydd y Gymdeithasfa mewn unrhyw dalaith. Ond fe benodir aelodau gan yr Henaduriaethau o fewn y dalaith i ddwyn y prif gyfrifoldeb cynrychioliadol.

Prif gyfrifoldebau'r Gymdeithasfa (Llawlyfr Trefn tt 12 – 13) o fewn ei thalaith, yw ystyried:

- Holl achosion yr eglwysi, a'r Henaduriaethau.
- Derbyn Ymgeiswyr am y Weinidogaeth ac arolygu eu cwrs.
- Ystyried ceisiadau gan Henaduriaethau parthed Gofalaethau sy'n dymuno galw gweinidog.
- Ordeinio Gweinidogion a gyflwynir iddi gan yr Henaduriaethau ac a gymeradwyir ganddi.
- Gwrando achosion ac os yn briodol atal neu ddiswyddo Gweinidogion y profir cwynion yn eu herbyn.
- Derbyn ac ystyried apeliadau.
- Derbyn ac ystyried cenadwriau o'r Henaduriaethau.
- Derbyn ac ystyried cenadwriau o'r Gymanfa Gyffredinol, ac i'r Gymanfa Gyffredinol.
- Gofalu am gronfeydd a berthyn iddi.
- Arolygu athrawiaeth, cenhadaeth, a disgyblaeth.

- Gofalu bod polisiau y Cyfundeb yn cael eu gweithredu Penderfynu ar elfen y Gymdeithasfa o'r Cyfraniad Cyfundebol.
- Paratoi a gweithredu Strategaethau Gweinidogaeth a Chenhadaeth mewn cydweithrediad â'r Henaduriaethau a'r Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth.
- Ystyried ceisiadau i werthu eiddo a cheisiadau ariannol yn unol â'r Rheolau.

Yn ymarferol, sefydlir pwyllgorau i gyflawni llawer o'r gwaith hwn. Yn un o'r sesiynau, mae'n arferol i'r blaenoriaid a'r gweinidogion gwrdd ar wahân, ac mae yna werth arbennig i flaenoriaid yn y "Cyfarfod Blaenoriaid" hwn, sy'n rhoi cyfle i rannu profiad gyda blaenoriaid o gylch ehangach.

Gan y Gymdeithasfa y mae'r gair olaf mewn llawer o faterion, ac ymhob mater nad yw wedi ei ystyried gan y Gymanfa Gyffredinol.

Y GYMANFA GYFFREDINOL

Yn gyfansoddiadol, cydgyfarfod y Gymdeithasfa yn y tair talaith yw'r Gymanfa Gyffredinol – Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithasfa, fel petai. Oherwydd hyn ni all y Gymanfa weithredu ar faterion pwysig ond ar ôl clywed ac ystyried barn y Gymdeithasfa ymhob un o'r tair talaith. Unwaith eto, mae hawl gan bob gweinidog a blaenor i fynychu a chymryd rhan yn y Gymanfa flynyddol, ond fe sicrheir cynrychiolaeth trwy i bob Henaduriaeth enwebu cynrychiolwyr.

Yn ymarferol, fe gyflawnir llawer o waith cenedlaethol y Cyfundeb gan Fyrddau'r Gymanfa a'u Hadrannau. Dyma drefn bresennol y rheiny (yn dilyn Cymanfa Gyffredinol 2008):

Bwrdd y Gymanfa Gyffredinol sy'n trefnu cyfarfodydd y Gymanfa, yn ystyried materion o'r Gymdeithasfa yn y tair talaith i'w cyflwyno i'r Gymanfa, ac yn cyd-gysylltu gwaith y Byrddau. Perthyn i'r Bwrdd ddwy adran a 7 panel;

- Adran Eglwys a Chymdeithas
- Adran y Bwrdd Pensiynau
- Panel Cyfathrebu
- Panel Ecwmenaidd
- Panel Athrawiaeth ac Addoli
- Panel y Gymdeithas Hanes
- Panel Bwrdd y Ddarlith Davies
- Panel Enwebu
- Panel monitro Gwaith y Swyddfa

Y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth sy'n trefnu, hybu a datblygu gweinidogaeth a chenhadaeth y Cyfundeb yng Nghymru a thrwy'r byd. Mae'n gyfrifol am waith chwe Adran – Adran Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid, Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant, Adran Chwiorydd, Adran Gweinidogaethau, Adran Ysbrydolrwydd ac Adran yr Eglwys Fyd-eang.

Y Bwrdd Adnoddau ac Eiddo sy'n cyd-gysylltu gwaith yr Adran Geisiadau, yr Adran Polisi a Pherfformiad, Adran Coleg y Bala ac Adran Coleg Trefeca.

Mae'r Byrddau yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, a'r Adrannau rhwng y cyfarfodydd hynny. Ceir enwau a chyfeiriadau Ysgrifenyddion pob Bwrdd ac Adran yn y Blwyddiadur cyfredol. Mae'n rhydd i flaenoriaid pob eglwys droi at y swyddogion hyn am gyngor a chymorth anffurfiol ynglŷn â materion neilltuol – ond cymeradwyir gwneud hynny fel cwrdd blaenoriaid ac nid fel blaenor unigol ar ei liwt ei hun. Os nad ydych yn sicr â pha Fwrdd neu Adran i gysylltu, fe all Ysgrifennydd yr Henaduriaeth roi arweiniad.



Cyfeirir negeseuon ffurfiol at unrhyw Fwrdd trwy'r Henaduriaeth a'r Gymdeithasfa – o fwrw bod y cyrff hynny yn cymeradwyo eu cynnwys. Ond gwell cadw'r drefn honno ar gyfer gofyn am newidiadau mewn polisi neu gynigion ffurfiol ar gyfer cynlluniau newydd. Gwell cyfeirio ymholiadau dydd i ddydd yn uniongyrchol at y Bwrdd neu'r Adran sy'n gyfrifol.

YR EGLWYS TU HWNT I'R CYFUNDEB

Rhan fach o Gorff Crist yng Nghymru yw'r Cyfundeb, a rhan fach o Gorff Crist yn y Byd yw'r eglwysi yng Nghymru. Caiff rhan y Cyfundeb yn yr Eglwys fyd eang ei fynegi mewn llawer ffordd, gan gynnwys myrdd o gysylltiadau anffurfiol. Ond mae'r Cyfundeb hefyd yn aelod ffurfiol o nifer o gyrff ecwmenaidd.

Dyma'r prif gyrff y perthynir iddynt ar hyn o bryd:

CYTŪN: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru – corff sy'n cynnwys y prif enwadau Ymneilltuol Cymreig, rhai o'r enwadau Prydeinig a gynrychiolir yng Nghymru, yr Eglwys (Anglicanaidd) yng Nghymru a'r eglwysi Pabyddol ac Uniongred yng Nghymru. Ei nod yw hybu cydweithrediad effeithiol a deialog rhwng yr enwadau hyn yng Nghymru.

Cyngor Eglwysi Prydain ac Iwerddon yw'r corff Prydeinig cyfatebol i CYTŪN. Mae'n cynnwys amrediad eang o enwadau o'r pedair gwlad (gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon), gan gynnwys eglwysi newydd yn ogystal â'r enwadau traddodiadol.

Cynhadledd Eglwysi Ewrop, sy'n cynnwys yr un amrywiaeth o eglwysi (ar wahân i'r Pabyddion) ledled Ewrop.

Cyngor Eglwysi'r Byd, sy'n lledu'r teulu Cristnogol yn fyd-eang. Cyngor Eglwysi'r Byd fu'n gyfrifol am hybu trafodaethau am bynciau megis Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth yn ein plith.

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, sy'n cydlynu gwaith y teulu Cristnogol Anghydfurfiol yng Nghymru – sef yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, Y Methodistiaid Wesleidd a'r Presbyteriaid, a rhai o'r enwadau Prydeinig yng Nghymru.

Cyngor yr Eglwysi Rhyddion, sy'n cynrychioli'r eglwysi hyn ledled Cymru a Lloegr, a hefyd nifer o'r eglwysi newydd Anghyddurfiol eu llywodraeth (gan gynnwys rhai enwadau newydd a Phentecostalaidd). Y corff hwn sy'n cydlynu cynrychiolaeth yr Eglwysi Rhyddion parthed caplaniaethau iechyd, addysg ac ati.

ENFYS, sef y Cyfamod Cymreig rhwng yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Eglwys Fethodistaidd (Wesleidd) Cymru, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru a rhai cynulleidfaoedd o Fedyddwyr Saesneg. Nod ENFYS yw creu undeb gweledig rhwng yr enwadau hyn, ac yn y cyfamser fe hybir trafodaethau cyd-enwadol, cynlluniau ecwmenaidd lleol a chreu litwrgïau derbynol i'r holl enwadau.

Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (CWM) – teulu byd-eang o eglwysi Cynulleidfaol a Phresbyteraidd, y rhan fwyaf ohonynt yn deillio o genhadaeth Annibynwyr a Phresbyteraidd Cymru a Lloegr, ond yn cynnwys hefyd enwadau tebyg ac iddynt hanes gwahanol. Hybir cyd-ddealltwriaeth trwy rannu adnoddau, ac yn fwyaf arbennig trwy gyfnewid pobl rhwng yr eglwysi. Cyhoeddir Llawlyfrau Gweddio Cymraeg a Saesneg blynyddol, a rennir gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, y Gynghrair Gynulleidfaol a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Cynghrair Eglwysi Diwygiedig y Byd, sy'n dod â'r teulu Presbyteraidd ynghyd ar draws y byd, ac ar draws Ewrop yn ei Hadran Ewropeaidd. Mae rhai enwadau o'r traddodiad Annibynnol, a nifer o enwadau Unedig, hefyd yn perthyn i'r corff hwn. Yn eu plith y mae holl enwadau CWM ym Mhrydain, a hefyd Eglwys yr Alban ac Eglwys Bresbyteraidd Iwerddon.

Mae yna hefyd nifer o gyrff ecwmenaidd sy'n gweithredu ar ran yr eglwysi mewn meysydd penodol, er enghraifft:

Cymorth Cristnogol, sef asiantaeth yr enwadau ym Mhrydain sy'n gweithredu mewn partneriaeth â thlodion y byd

Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru, sy'n trefnu maes llafur yr Ysgolion Sul Cymraeg a gweithgareddau eraill o'r fath.

Trafodwch:

Mynnwch gopi o Weithrediadau y Gymanfa Gyffredinol ddiweddaraf.

Gofynnwch i rywun restru'r penderfyniadau a ddaeth gerbron, a cheisiwch eu gosod yn nhrefn eu pwysigrwydd ar gyfer eich eglwys chi. Pa faterion y dylech chi fod yn eu dilyn ymhellach nawr?

ATODIAD: HANES Y CYFUNDEB

1731-1761

Griffith Jones, Llanddowror a'i Ysgolion Cylchynol. Er na pherthynai i'r Methodistiaid, fe'i cyfrifir yn Seren Fore'r mudiad.

1735

Dechreuad y Diwygiad Methodistaidd trwy dröedigaeth Howel Harris, Trefeca, dan weinidogaeth Pryce Davies, Ficer Talgarth; a thröedigaeth Daniel Rowland, curad Llangeitho, dan weinidogaeth Griffith Jones.

1937

Cyfarfu Harris a Rowland yn Nefynnog, Sir Frycheiniog, a chytunwyd i hyrwyddo'r hyn a ddaeth i'w alw'n "ddiwygiad Methodistaidd" yng Nghymru. Tröedigaeth Howel Davies, ysgolfeistr yn Nhalgarth, dan weinidogaeth Howel Harris. Cafodd ei ordeinio yn Eglwys Loegr ac aeth i sir Benfro yn 1741 lle daeth yn amlwg ymhlith y Methodistiaid.

Argyhoeddwyd William Williams, a ddaeth wedyn yn emynydd y Diwygiad, dan weinidogaeth Howel Harris, ac yntau'n efrydydd yn Athrofa Llwyn-llwyd. Ordeiniwyd ef yn ddiakon yn Eglwys Loegr yn 1740, ond ni chafodd urddau pellach.

O ganlyniad i'r tröedigaethau hyn, fe deithiai arweinwyr y mudiad newydd ar hyd a lled Cymru yn pregethu'r Efengyl, a hynny yn aml dan erledigaeth; o'r braidd y dihangasant â'u heinioes ar adegau. Buont yn casglu'r dychweledigion at ei gilydd yn "seiadau", a gwneud trefniadau i'w meithrin trwy benodi "cynghorwyr". Penodwyd "arolygwyr" hefyd dros ddisbarthiadau o seiadau (Gweler Pennod 1).

1738

Argyhoeddwyd John Wesley, gan roi cychwyn ar y Diwygiad Methodistaidd yn Lloegr. Deillia'r gair "Methodist" o Loegr, ac fe'i bathwyd ar y cyntaf i ddirmygu aelodau'r "Clwb Sanctaidd" yn Rhydychen.

1742

Cyfarfod cyntaf y Sasiwn yn y Dugoedydd, Cil-y-cwm, ger Llanymddyfri.

1743

Y Sasiwn yn cwrdd yn Mhlas y Watffordd, ac yng Nghapel y Groes-wen, ger Caerffili. Yn bresennol: George Whitefield (Llywydd), Howell Harris, Daniel Rowland, Howel Davies, William Williams, John Powell, Joseph Humphreys a John Cennick. Sasiwn unedig o Fethodistiaid Calфинаidd Cymru a Lloegr oedd hon. Am rai blynyddoedd roedd arweinwyr y mudiad yn y naill wlad a'r llall mewn cyswllt â'i gilydd.

Argyhoeddwyd Peter Williams dan weinidogaeth George Whitefield. Ordeiniwyd ef yn ddiakon ym 1745, ond ni chafodd ei ordeinio'n offeiriad. Ymunodd â'r Methodistiaid ym 1747.

1750

Cododd anghydfod rhwng Harris ar y naill law a Rowland a'r arweinwyr eraill ar y llall ynghylch athrawiaeth ac ymddygiad personol Harris. O ganlyniad bu ymraniad ymhlith y Methodistiaid rhwng "pobl Harris" a "phobl Rowland", a bu hynny'n rhwystr i ledaeniad y mudiad.



1752

Ymneilltuodd Harris i Drefeca a sefydlu ei "Deulu" yno. Ei syniad oedd cadw'i bobl gyda'i gilydd trwy sefydlu cymuned grefyddol-ddiwydiannol ar batrwm rhai sefydliadau Morafaidd ar Gyfandir Ewrop, ac ar lun Actau penodau 2 & 4. Codwyd adeiladau sylweddol i'r pwrpas, ac erys rhannau ohonynt o hyd. Amrywiai nifer y sawl a dderbyniodd wahoddiad Harris, eithr gwyddys fod rhyw gant o bobl yno yn nechrau 1756 heblaw deg o deuluoedd a ymsefydlodd mewn ffermydd yn yr ardal.

Cynhelid tri gwasanaeth y dydd yno, a phedwar ar y Suliau. Roedd bywyd tan reolaeth yno; rhaid oedd i bobl ifanc gael caniatâd i briodi. Bwriadai Harris i'r "Teulu" hyrwyddo diwydiant yn ogystal â chrefydd, ac amaethyddiaeth yn arbennig. Er mwyn gwneud y "Teulu" yn hunan-gynhaliol sefydlwyd tua thrigain o grefftau a galwedigaethau yn Nhrefeca – gwehyddion, nyddwyr, seiri coed a maen, cryddion, rhwymwyr llyfrau ac argraffwyr. Roedd hi'n fenter arwrol, ond bu i'r "Teulu" ei dreialon a'i broblemau hefyd.

1760 – 63

Bu Harris yn gwasanaethu carfan o filisia Brycheiniog, a bu'n absennol oddi wrth ei "Deulu". Yn ystod y cyfnod hwn, collwyd pedwar ugain o'r aelodau pan drawyd Trefeca gan y frech wen.

1762

Diwygiad gymus yn Llangeitho, a chafodd y Mudiad Methodistiaidd adnewyddiad ysbryd. Tyrrai'r bobl yno o bobman, ar draed ac ar geffylau, dan gyfaredd gweinidogaeth Daniel Rowland, yn enwedig ar "Suliau Pen Mis" i gymuno. Bu gan emynau William Williams gyfraniad arbennig i'r deffroad newydd hwn.

1763

Collodd Daniel Rowland ei guradiaeth yn Llangeitho, a chododd ei "Eglwys Newydd" yn y pentref, lle bu'n gweinidogaethu hyd ei farw ym 1790. Dychwelodd Harris adref. Cymodwyd Harris a Rowland, ac adferwyd undeb yn rhengoedd y Methodistiaid.

1768

Agorodd Iarllles Huntingdon goleg yn Nhrefeca Isaf i hyfforddi pregethwyr efengylaidd. Traddodwyd y bregeth agoriadol gan George Whitefield.

Symudwyd y coleg i Cheshunt ym 1791, ac yn

ddiweddarach i Gaergrawnt.

1770

Cyhoeddodd Peter Williams ei Feibl "gyd â Nodau a Sylwadau". Derbyniwyd "Beibl Peter Williams" yn gyffredinol gan y werin Gymreig, a chafwyd mwy nag un argraffiad ohono cyn diwedd y ganrif. Ond yn rhai o'i sylwadau gwyrdd Peter Williams i gyfeiriad hersei Sabeliaeth, sef y duedd i wadu'r Drindod. Gweler 1791.

Bu farw Howell Davies.

1773

Bu farw Harris yn 59 mlwydd oed. O hyn ymlaen fe ddechreuodd y "Teulu" yn Nhrefeca edwino. Daliodd hen gynorthwryw Harris ati, eithr nid oedd ganddynt hwy ei ynni a'i ddylanwad ef.

1784

Ymunodd Thomas Charles â'r Methodistiaid. Ordeiniwyd ef yn ddiakon yn Eglwys Loegr ym 1778, a gwasanaethodd fel curad mewn amryw blwyfi yn Lloegr a Chymru. Collodd ei le yn Llanymawddwy ym 1784. Priododd Sally Jones o'r Bala ym 1783; a bu ei hamharodrwydd i gefnu ar y Bala, a'i wrthod gan yr eglwys sefydledig yn Esgobaeth Llanelwy yn drobwynt tyngedfenol ym mywyd Charles. Dan ei ddylanwad ef daeth y Bala yn ganolfan y Methodistiaid yng Ngwynedd.

1790

Dechreuodd y Sasiwn yn y Gogledd gwrdd fel y cyfryw. Cynhaliwyd sasiwnau yn y Gogledd cyn hyn ond o 1790 ymlaen cyfarfyddai'r Sasiwn yn y De ac yn y Gogledd, gyda chyfyngiad ar diriogaeth y naill gyfarfod a'r llall er cyfleustra. Dichod fod a fynno dyfodiad Thomas Charles i'r Bala rywbeth â'r datblygiad hwn, ond yn dechnegol un Sasiwn yn cyfarfod yn y de ac yn y gogledd a geid o hyd.

Bu farw Daniel Rowland.

1791

Disgyblwyd Peter Williams yn Sasiwn Llandeilo (gweler 1770). Treuliodd weddill ei fywyd, hyd ei farw yn 1796, y tu allan i'r Corff.

Gyda marwolaeth William Williams fe ddiffannodd yr olaf o'r pedwar prif arweinydd cyntaf. Eithr daeth Thomas Charles o'r Bala i'r amlwg, ynghyd â Thomas Jones o Ddinbych. Roedd Thomas Jones yn bregethwr, ysgolhaig, diwinydd, gwleidydd eglwysig, ac awdur. Ei argraffwasg ef a brynwyd gan Thomas Gee. Yn y De, roedd dylanwad offeiriaid megis David Jones, Llan-gan, ac eraill yn gryf iawn.

1798

Ar ôl arbrofi gydag Ysgolion Cylchynol ar linellau rhai Griffith Jones, dechreuodd Thomas Charles ymddiddori ym mudiad yr ysgolion Sul – ef oedd arolygydd Gogledd Cymru o Gymdeithas yr Ysgol Sul o 1798 hyd ei farwolaeth ym 1814. Ysgrifennodd Gatecism Byr, yr Hyfforddwr, a'r Geiriadur Ysgruthurol ar gyfer yr ysgolion Sul. Cafodd gymorth mawr yn y Gogledd gan Owen Jones o'r Gelli, a chan Ebenezer Richard o Dregaron yn y De. Yn ddiweddarach bu a fynno Charles â sefydlu Cymdeithas y Beiblau, a ddarparodd gyflenwad o Feiblau a Thestamentau i'r Cymry.

1808

Dechreuodd gwaith cenhadol ymhlith pobl y gororau yn siroedd Dinbych a Threfaldwyn.

1811

Ordeinio gweinidogion yn y Bala ac yn Llandeilo Fawr, dan arweiniad Thomas Charles. Trwy hyn ymwahanwyd oddi wrth Eglwys Loegr. Ordeiniwyd 13 yn y De, ac wyth yn y Gogledd (gyda Thomas Jones, Dinbych, yn eu plith), gwŷr o aeddfedrwydd ac fu'n pregethu'n llwyddiannus am flynyddoedd lawer cyn hynny.

1813

Sefydlu adran sir Ddinbych o'r Gymdeithas Genhadol Gartrefol, a Thomas Charles a John Elias yn bresennol yn y cyfarfod yn Wrecsam. Ei phwrpas oedd efengyleiddio ar y gororau rhwng Cymru a Lloegr. Sefydlwyd adran sir Drefaldwyn ym 1815, ac unwyd y ddwy adran yn Sasiwn Llanrwst yn 1834.

1814

Bu farw Thomas Charles.

1823

Lluniwyd a chyhoeddwyd Cyffes Ffydd i'r Cyfundeb ar sail 39 Erthygl Eglwys Loegr a Chyffes Westminster. Mabwysiadwyd y Gyffes gan y Corff yn Aberystwyth.

1826

Corffori'r Cyfundeb trwy weithred gyfreithiol, gan sicrhau meddiant a rheolaeth ar yr holl gapeli; gwnaed hynny'n effeithiol trwy Ddatganiad o Ymddiriedolaeth, a gofrestrwyd ym 1828.

Sefydlu "cymdeithas i efengylu canolbarth Cymru" yn y De. Hynny yw, yn sir Faesyfed. Gadawai yr

Ymraniad, ac ymneilltuad Howell Harris i Drefeca (1750) ei ôl ar sir Faesyfed. Cyfeirid hefyd at Fynwy a Phenfro fel siroedd lle collwyd tir gan y Methodistiaid. Dyma Cymdeithas Genhadol Gartrefol y De.

1837

Agorodd Lewis Edwards a David Charles ysgol yn y Bala, a gymerwyd trosodd ym 1839 fel Coleg i addysgu Gweinidogion. Ym mis Mehefin 1837 hefyd meddiannodd Cyfarfod Misol Sir Frycheiniog eiddo Trefeca gan i aelodau olaf y "Teulu" ei gyflwyno i'r henaduriaeth.

1838

Trosglwyddwyd yr holl eiddo yn Nhrefeca i'r Cyfundeb yng Nghyfarfod Misol Crai, a chytunwyd ar hynny yng Nghymdeithasfa'r De yn Awst 1839. Yn 1842 sefydlwyd Coleg Diwinyddol yn Nhrefeca dan brifathrawiaeth David Charles.

1840

Sefydlu, yn Lerpwl, Gymdeithas Genhadol Dramor, i lafurio ym Mryniau Khassia a Jaintia yn Assam, India. Cyrhaeddodd y cenhadwr cyntaf y maes ym 1841, ond byr oedd tymor ei arhosiad yno.

1843

Cyrhaeddodd William Lewis y maes cenhadol, a bu yno hyd nes y dirywiodd ei iechyd ym 1860.

1845

Y symudiad cyntaf, yn Sasiwn Llanelli, ynglŷn â bugeiliaeth eglwysig. Penderfynwyd rhoi'r holl eglwysi dan ofal bugeiliol. Roedd i'r symudiad ei gefnogwyr a'i wrthwynebwyr, ond yn araf a sicr fe enillwyd y dydd erbyn ail hanner y ganrif. Y prif gefnogwyr oedd Edward Matthews yn y De, ac Edward Morgan yn y Gogledd.

Ymddangosodd rhifyn cyntaf Y Traethodydd, cylchgrawn chwarterol, dan olygddiaeth Roger Edwards o'r Wyddgrug a Thomas Charles. Fe'i cyhoeddir yn chwarterol hyd heddiw.

1859

Blwyddyn "Diwygiad '59", y deffroad mwyaf parhaol o ran ei ddylanwad yn ystod y ganrif a hanner diwethaf. Parhaodd yn ei rym hyd 1862.



1864

Cyfarfod cyntaf y Gymanfa Gyffredinol, yn Abertawe, dan lywyddiaeth Henry Rees. Nid oedd yn llys eglwysig ar y cychwyn, eithr math o bwyllgor mawr i'r holl Gyfundeb drafod materion a gyflwynid i'r Gymanfa trwy gwrteisi'r sasiynau yn y De a'r Gogledd. Maes o law, fe roddwyd iddi statws gan y Cyfundeb trwy ddeddfu bod pob Gweinidog a Blaenor yn aelodau ohoni.

1867

Agorwyd adeiladau presennol Coleg y Bala. Casglodd Edward Morgan y Dyffryn £34,203 i gario'r gwaith ymlaen yno, ynghyd â £5,000 tuag at y draul o adeiladu.

1870

Y symudiad cyntaf yn y Gogledd i sefydlu "achosion Saesneg".

1878

Penderfynodd y Gogledd gychwyn Trysorfa Gynorthwyol i roi cyfraniadau at gynnal y Weinidogaeth.

1889

Cynhaliwyd y Gynhadledd Saesneg Undebol gyntaf yn Aberystwyth, a'r un nesaf yn Lerpwl ym 1892; o 1894 ymlaen fe'i cynhaliwyd yn gyson hyd flynyddoedd y rhyfel, 1915–18. Ailsefydlwyd hi ym 1919.

1891

Sefydlwyd y Llyfrfa yng Nghaernarfon. Daeth Dr T.E. Edwards i ddilyn ei dad yn brifathro'r Bala.

1891 – 2

Dechrau'r Symudiad Ymosodol. Yr arolygydd cyntaf, 1891 – 1907, oedd Dr John Pugh. Adeiladwyd nifer o neuaddau yn y De a sefydlwyd eglwysi newydd.

1900

Casgliad y Ganrif, pan gasglwyd £100.000 gan eglwysi'r Cyfundeb.

1904 – 5

Diwygiad Evan Roberts, a fu'n gyfrwng i adfywio'r eglwysi ar hyd a lled Cymru. Ymledodd dros y ffin ac y mae ei ddylanwad yn parhau o hyd, yn enwedig ymhlith yr eglwysi "Pentecostalaidd" a ddaeth i fri trwy'r byd yn ystod yr ugeinfed ganrif.

1906

Symudodd y Coleg Diwinyddol o Drefeca i Aberystwyth. Cadwyd Ysgol Ragbaratoawl i ymgeiswyr am y weinidogaeth yn yr adeilad yn Nhrefeca.

1919

Sefydlwyd yr Argraffdy yng Nghaernarfon.

1919 – 20

Y Comisiwn Ad-drefnu cyntaf ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Un o'i ganlyniadau oedd uno'r Genhadaeth Gartrefol a'r Cronfeydd Cynorthwyol, a ffurfio Cronfa Ganolog at Gynnal y Weinidogaeth.

1922

Uno Coleg Diwinyddol y Bala â Choleg y De yn Aberystwyth.

Dechreuwyd cynnal cwrs blwyddyn o addysg ymarferol yng ngwaith y Weinidogaeth yn y Bala.

1926

Ffurio Eglwys Bresbyteriaidd Cymru Gogledd–Ddwyrain yr India gan yr eglwysi a sefydlwyd gan y genhadaeth Gymreig.

1927

Cyhoeddi'r *Church Hymnary Revised Edition* ar y cyd â'r Eglwysi Presbyteriaidd yn yr Alban, Iwerddon, Lloegr, Awstralia, Seland Newydd a De Affrica.

1929

Cyhoeddi'r *Llyfr Emynau a Thonau* gan y Cyfundeb a'r Methodistiaid Wesleiaidd yng Nghymru.

1932

Mabwysiadu'r Datganiad Byr ar Ffydd a Buchedd.

1933

Cymeradwyodd y Senedd ddeddf i newid cyfansoddiad y Corff, sef diwygio'r Erthyglau Datganiadol (1826), rhyddhau eiddo'r Cyfundeb o ymlyniad diysgog wrth Gyffes Ffydd 1823, sefydlu a chorffori Bwrdd Eiddo i ddal a rheoli holl eiddo'r Cyfundeb. Newidiwyd enw'r Cyfundeb yn swyddogol i "Eglwys Bresbyteriaidd Cymru neu Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru".

1936

Cyfarfu Cyngor yr Eglwysi Saesneg am y tro cyntaf yng Nghaerdydd.



1937

Unwyd Cynhadledd a Chyngor yr Eglwysi Saesneg dan yr un swyddogion gydag un pwyllgor gwaith.

1942 – 6

Yr Ail Gomisiwn Ad-drefnu.

1947

Sefydlu'r Sasiwn yn y Dwyrain, yng Nghaerdydd. Cafodd yr eglwysi Saesneg felly eu llys eglwysig eu hunain, ac o hyn ymlaen cyferfydd y Sasiwn mewn tair talaith, y De, y Gogledd a'r Dwyrain.

1948

O ganlyniad i'r Comisiwn Ad-drefnu, sefydlwyd y Gronfa Gynnal.

Y tro cyntaf i flaenoriaid gael eu hordeinio (yn hytrach na'u "neilltuo")

1953

Daeth y cwrs ymarferol ar gyfer y weinidogaeth i ben yn y Bala, y gwaith i'w gyflawni yn Aberystwyth o hyn ymlaen. Agorwyd Ysgol Ragbaratoawl yng Ngholeg y Bala.

1955

Sefydlu Cronfa Bensiynau y Gweinidogion.

1956

Sefydlu Cyngor Eglwysi Cymru, gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn un o'r aelodau cyntaf.

Sefydlu Pwyllgor y Pedwar Enwad i drafod ffurfio un eglwys rydd unedig yng Nghymru.

1958

Sefydlu Cronfa Gynnal newydd gyflawn i sicrhau lleiafswm o gydnabyddiaeth a Mans rhydd i bob Gweinidog.

Cyhoeddi Llyfr Gwasanaethau Cymraeg.

1961

Sefydlu Cydbwyllgor dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymru i gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg o'r newydd. Cyhoeddwyd y Testament Newydd ym 1975, y Salmau ym 1979 a'r Beibl cyfan ym 1988. Ymddangosodd argraffiad diwygiedig yn cynnwys iaith gynhwysol yn 2004.

1964

Dathlwyd Canmlwyddiant y Gymanfa Gyffredinol.

Caewyd y Colegau Rhagbaratoawl yn Nhrefeca a'r Bala, yn wyneb y cynnydd mewn addysg uwch yn y sector cyhoeddus.

Methodd adroddiad Pwyllgor y Pedwar Enwad, Tuag at Uno, â derbyn cymeradwyaeth ddigonol gan yr enwadau.

1966

Sefydlu Bwrdd y Genhadaeth i gymryd drosodd yr hyn a wnaed gynt gan bwyllgorau y Genhadaeth Dramor a'r Symudiad Ymosodol, gyda swyddogion, staff, a swyddfa ganolog yng Nghaerdydd.

Sefydlwyd Coleg Trefeca yn ganolfan ar gyfer hyfforddi llyegwyr, a Choleg y Bala yn ganolfan ieuencid i'r Cyfundeb.

1968

Cyhoeddi Llyfr Gwasanaethau Presbyteriaid Saesneg ar y cyd ag Eglwysi Presbyteriaidd Lloegr ac Iwerddon.

1969

Y cenhadwr olaf o Gymru yn ymadael ag Eglwys Bresbyteraidd Gogledd-Ddwyrain India.

1973

Cyhoeddi'r *Church Hymnary Third Edition* ar y cyd ag Eglwysi Presbyteriaidd yr Alban ac Iwerddon, a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig (a ffurfiwyd ym 1972 trwy uno Eglwys Bresbyteraidd Lloegr â rhan fwyaf o'r Eglwys Gynulleidfaol yn Lloegr a Chymru).

1974

Cyfamododd y Cyfundeb â'r Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru i weithio er uno'r enwadau yng Nghymru.

1978

Ymunodd y Cyfundeb ac Eglwys Bresbyteraidd Gogledd-Ddwyrain yr India â Chyngor y Genhadaeth Fyd Eang (CWM), a sefydlwyd ym 1977 yn bartneriaeth o eglwysi Cynulleidfaol a Phresbyteraidd eu trefn.



1985

Cyhoeddi'r Atodiad i'r Llyfr Emytau a Thonau.

1987

Cynrychiolwyd y Cyfundeb yng Nghynhadledd Ryng-
Eglwysig Swanwick, a gytunodd i gymryd camau
brasach tuag at gydweithio rhwng y prif enwadau
Cristnogol yn Ynysoedd Prydain, gyda'r Eglwys
Gatholig Rufeinig yn aelod cyflawn am y tro cyntaf.

1990

Yn sgîl Cynhadledd Swanwick, ymunodd y Cyfundeb
â CYTÛN a Chyngor Eglwysig Prydain ac Iwerddon.

1991

Ad-drefnwyd byrddau a phwyllgorau'r Gymanfa
Gyffredinol yn chwe Bwrdd a nifer o Adrannau, pob
adran yn gysylltiedig ag un Bwrdd.

Cyhoeddi Llyfr Gwasanaethau dwyieithog newydd.

1993

Ar gais Bwrdd Cyfathrebu'r Cyfundeb, ffurfiwyd
cydbwyllgor gan y Cyfundeb, Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, yr Eglwys
Fethodistaidd yng Nghymru a'r Eglwys yng
Nghymru i gyhoeddi llyfr emytau cydenwadol
newydd.

1995

Ar gais Cyngor Eglwysig Rhyddion Cymru, ffurfiwyd
cydbwyllgor i ystyried ffurfio un Eglwys Rydd
Gymreig, gan y Cyfundeb, Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, Yr Eglwys
Fethodistaidd yng Nghymru a'r Eglwys Ddiwygiedig
Unedig yng Nghymru.

Sefydlu Y Cylch, sef cydbwyllgor yn cynnwys
cynrychiolaeth o'r Eglwys yng Nghymru, Eglwys
Bresbyteraidd Cymru, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr,
yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygiedig
Unedig i achredu cyrsiau hyfforddi ar gyfer y
weinidogaeth.

2001

Cyhoeddi llyfr emytau cyd-enwadol newydd
Caneuon Ffydd

2003

Cau y Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth
a sefydlu yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant fel
elusen ar wahan o dan adain y Cyfundeb.

2008

Ad drefnu strwythur gweinyddol y Corff gan leihau
nifer yr Henaduriaethau

2010

Cyhoeddi argraffiad diwygiedig o'r Llyfr
Gwasanaethau dwyieithog

2012

Cyflwynodd Cydgynhulliad Comisiwn yr Eglwysig
Cyfamodol gyfarfu yn Aberystwyth ar 13 Hydref
wahoddiad i'r pum enwad, sef yr Eglwys yng
Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys
Fethodistaidd yng Nghymru, yr Eglwys Ddiwygiedig
yng Nghymru, a'r Eglwysig Bedyddiedig Cyfamodol
o fewn Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, ddod
i ystyried eu hunain fel 'yr eglwys yn uno yng
Nghymru' ac argymhellion am y modd i wireddu
hynny.



8: Blaenoriaid yn Cwrdd

ADDOLIAD AGORIADOL

Darllen: 1 Corinthiaid 11.17–34

Gweddi:

Arglwydd Iesu, yn dy ras fe'n gelwaist ni – ie, nyhi! – i fod yn Gorff i ti ar y ddaear. Ond mor aml rydym yn dibrisio y fraint a roddaist i ni trwy ymddwyn fel cyfarfod bwrdd rhyw gwmni neu hyd yn oed fel criw anystywallt. Maddau i ni pan ydym yn syrthio'n fyr o'r hyn yr wyt ti'n ddisgwyl gennym. Helpa ni i ystyried gyda'n gilydd sut y gallwn wella ansawdd ein cyfarfodydd, fel y byddont yn agored i'th arweiniad, wedi'u llenwi â'th Ysbryd ac yn ein hysbrydoli i weithredu yn dy Enw di. Amen.

CYFLWYNIAD

Fe fydd blaenoriaid yr eglwys leol yn cwrdd â'i gilydd yn fynych iawn – bob Sul, o leiaf. Yr hyn a wneir yn y bennod hon yw amlinellu rhai cyfarwyddiadau ac awgrymiadau er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyfarfodydd ffurfiol y blaenoriaid lleol, i sicrhau fod arweiniad Duw yn ganolog iddynt, a'u bod yn gallu cyflawni eu gwaith.

Afraid dweud y bydd agenda a natur pob cyfarfod yn cael eu trefnu gyda'r gweinidog lle ceir un. Ond yn yr eglwysi hynny sydd heb weinidog rhaid i'r blaenoriaid eu hunain sicrhau trefn addas ac agenda gynhwysfawr. Gobeithir y bydd y bennod hon yn gymorth arbennig mewn sefyllfaoedd felly.

PWRPAS CYFARFOD

Mewn llyfr deifiol a gyhoeddwyd yn Awstralia, *Your Church Can Come Alive*, fe ddywed Rowland Croucher a ganlyn:

Mae llawer o fugeiliaid ac arweinwyr yn credu os am gael rhywun i fod yn rhan o fywyd yr eglwys, yna gwahodder ef neu hi i ymuno â phwyllgor, a byddant yn teimlo bod ar yr eglwys eu heisiau, eu bod yn cyflawni gwaith, a'u bod yn rhan o'r grŵp. Mae hyn yn anghywir. Yn un peth, mae llawer o amaturiaid yn cynnal pwyllgorau eglwys ac yn aml yn eu cynnal mewn ffordd ddiflas, gan greu rhwystredigaeth ymysg y rhai sy'n rhoi blaenoriaeth uchel ar ddefnyddio'u hamser yn ffrwythlon. Ymhellach, mae'r digwyddiadau gorau mewn bywydau yn tarddu o agosatrwydd, cariad, ymddiriedaeth a gwreiddioldeb – pethau sydd ar goll pan fo pobl yn cwrdd yn rhinwedd eu swyddi yn hytrach nag fel brodyr a chwiorydd.

(Rowland Croucher, *Your Church Can Come Alive*, Uniting Church Press, Melbourne; tt 40–41)

Ydy hyn yn eich atgoffa am eich eglwys a'ch henaduriaeth chi? Dywed Croucher y dylid bod yn eglur beth yw pwrpas unrhyw bwyllgor cyn iddo gyfarfod, a beth yw pwrpas unrhyw gyfarfod cyn ei gynnal. Gall un person sy'n mynnu atal ei gydweithrediad ddinistrio pwyllgor.

Sut mae ymdrin â sefyllfa felly? Er mor anodd ydyw, y cyngor cyntaf yw peidio ag ysgubo'r mater dan y carped gan esgus nad oes yna broblem. Dim ond gwaethygu'r broblem fydd hynny.

Yr ail gyngor yw, peidio â gadael i'r sawl sy'n fythol wrthwynebus ennill y dydd byth a beunydd. Bydd hynny ond yn sicrhau y bydd yna dro nesaf a thro wedyn, a'r un lletchwith yn mynd yn fwy grymus ac yn

fwy barus bob gafaél. Gall rhywun fynd yn gaeth i "gael ei ffordd" gymaint ag i alcohol neu gyffuriau – a gall hynny fod yr un mor ddinistriol yn y pendraw, hefyd.

Mae llawer yn dibynnu ar gadeirydd y cyfarfod. Dylid ei sicrhau y caiff gefnogaeth pawb os yw'n barod i fynnu fod pob un yn cadw at reolau trafodaeth foesgar. Ni ddylid byth ganiatáu bygythiadau mewn cyfarfodydd Cristnogol ("Os na wnawn ni beth rydw i ei eisiau, yna bydda' i'n ymddiswyddo..."). O wrthsefyll ymddygiad afresymol unwaith, fe leiheir yn sylweddol y perygl y cyfyd eto. O'i wrthsefyll ddwywaith, fe geir saib. O'i wrthsefyll y trydydd tro, yna ceir llonydd.

Y cyngor olaf yw peidio ag ofni ymddiswyddiad, os daw. O osod y cyfan yn nwylo Duw, fe all ef ddarparu yr un sydd ei angen i'r swydd. Rydym yn cyfarfod yn nerth ei Ysbryd ef, ac nid yn unol â'n hadnoddau'n hunain yn unig.

Trafodwch:

"Ni ddylai neb fod yn aelod o bwyllgor, heblaw efallai fel cynghorwr achlysurol, oni bai ei fod eisoes yn aelod o ddosbarth Beiblaidd neu gwrdd gweddi."

(Croucher, tud. 41). A gytunwch â hyn?

TREFNU'R YSTAFELL

Dyma bennawd annisgwyl! Ond fe all sut y gosodir y celfi yn yr ystafell wneud gwahaniaeth mawr i gyfarfod. Y drefn "draddodiadol" i'n cyfarfodydd yw rhywbeth fel hyn:

<u>Trysorydd</u>	<u>Gweinidog</u>	<u>Ysgrifennydd</u>
	Bwrdd	
_____	_____	_____
	Seddi gwag	
_____	_____	_____
	Blaenoriaid	
_____	_____	_____
_____	_____	_____
_____	_____	_____

Trafodwch:


Beth yw canlyniadau trefnu'r ystafell fel hyn?

Awgrymir y sylwadau canlynol yn ateb i'r cwestiwn hwn:

1. Awgrymir mai'r tri swyddog yn y blaen sydd â'r prif gyfrifoldeb am y gwaith ac am y cyfarfod – mae gagendor corfforol rhyngddynt a'r gweddill (oherwydd y ford). Gall y sawl yn y blaen daro'r ford i atal y drafodaeth neu "gryfhau" eu dadl os mynnant; gallant chwilio am dystiolaeth yn eu papurau yn rhywyddach na'r gweddill.
2. Os yw'r cyfarfod yn troi'n ddadl, yna dadl rhwng y swyddogion a'r gweddill sydd fwyaf tebygol, am eu bod yn wynebu'i gilydd ar draws y bwrdd.
3. Bydd sawl blaenor yn siarad â chefnau pennau'r gweddill (ond fe all y swyddogion weld wynebau pawb).
4. Gellir camddeall trwy gam-glywed o'r cefn, neu trwy fethu â gweld ystumiau ar wyneb neu osgo corff y sawl sy'n siarad neu'r sawl sy'n gwranddo.



Beth felly, am aildrefnu'r ystafell fel hyn:



Trafodwch:

Beth yw neges yr ad-drefnu hwn?

1. Mae cyfle i bawb glywed a gweld pawb arall.
2. Nid oes manteision gan y swyddogion dros y gweddill yn y drafodaeth.
3. Bydd yna gyfarfod go iawn yn digwydd – hynny yw, fe fydd pawb yn yr ystafell yn gallu cyfarfod â phawb arall, yn ystod y drafodaeth a thrwy gydol eich amser gyda'ch gilydd.

Profiad eglwysi a weithredodd ad-drefnu ar y llinellau hyn yw i gyfarfodydd blaenoriaid fu'n ddigon anodd a checrus ar adegau droi'n gyfarfodydd tîm, gyda chydweithredu a chyd-ymdrechu am y gwir yn ennill y blaen ar "ennill y ddad!". Onid yw'n rhyfedd sut y gellir newid holl naws cyfarfod trwy ad-drefnu'r celfi?!

AGENDA'R CYFARFOD

Bwriad yr adran hon yw rhestru'r gwahanol agweddau ar waith yr eglwys a ddylai ymddangos o dro i dro ar agenda cyfarfod y blaenoriaid. Ni fydd pob eitem yn cael lle ym mhob cyfarfod, ac nid oes pwrpas cyflwyno adroddiad dim ond er mwyn cyflwyno adroddiad. Ar y llaw arall, os yw'r un eitemau yn mynd ar goll bob tro, yna fe all fod rhywbeth o'i le ym mlaenoriaethau neu drefn y blaenoriaid. Argymhellir, felly, fod y sawl sydd yn cynllunio'r agenda yn bwrw golwg ar yr adran hon o bryd i'w gilydd.

Wrth lunio agenda ar gyfer cyfarfod neilltuol, dylid cadw'r canlynol mewn cof:

1. Dylai'r blaenoriaid wybod ymlaen llaw beth sydd i'w drafod. Heblaw mewn gwir argyfwng, ni ddylid disgwyl iddynt wneud penderfyniadau pwysig heb gael cyfle i feddwl a gweddïo am y peth ymlaen llaw.
2. Dylai fod cydbwysedd rhwng materion mân a materion mawr, rhwng materion dydd i ddydd a materion o egwyddor.

3. Dylid sicrhau cyflwyno eitemau pwysig ar lafar neu ar bapur cyn dechrau eu trafod.
4. Dylai pawb gael cyfle i godi pynciau sydd yn eu poeni, efallai er mwyn iddynt gael eu hystyried yn llawn y tro nesaf.
5. Dylai fod amser i drafod yn gymharol hamddenol yn ogystal â thrafod materion brys.
6. Dylai fod dealltwriaeth ynglŷn ag amser cloi'r cyfarfod.
7. Dylai pawb gael y cyfle a'r rhyddid i ymuno â'r drafodaeth.

Efallai y gall grŵp bach o flaenoriaid helpu gyda llunio'r agenda, yn hytrach na'i adael i'r gweinidog neu'r ysgrifennydd bob tro.

Wrth droi at gynnwys penodol yr agenda, yn gyntaf, dylai pob cyfarfod gynnwys amser o **fawl a gweddi**. Os oes angen gwneud penderfyniad mawr, yna dylid cael seibiant i weddio cyn bwrw ymlaen. Os cafwyd trafodaeth anodd neu gas, yna dylid aros i weddio ar Dduw, a gofyn am ei faddeuant os oes angen, cyn bwrw ymlaen â'r agenda. Y cam cyntaf i'w gymryd os oes blaenor yn cyrraedd pen ei dennyn ac yn gadael cyfarfod yw gweddio drosto neu drosti a thros y teulu y bydd yn dychwelyd ato.

Dylid ystyried yn ofalus sut i ddelio â **chofnodion y cyfarfod diwethaf**. A oes modd eu teipio a'u danfon ymlaen llaw drwy e-bost efallai? Byddai hyn yn fodd i bobl feddwl am yr hyn a wnaed y tro diwethaf, ac fe arbedir amser yn y cyfarfod ei hunan. Yn sicr, ni ddylid mabwysiadu'r arfer o gymeradwyo'r cofnodion heb eu gweld na'u clywed – fe all hyn arwain at broblemau difrifol yn y dyfodol.

Yn drydydd, mae gan y blaenoriaid **gyfrifoldebau penodol** ynglŷn â derbyn aelodau, codi pregethwyr ac ati. Yn y Llawlyfr Trefn presennol fe wasgerir y wybodaeth yma drwy'r llyfr, a buddiol felly rhestru'r dyletswyddau hyn yma:

1. Cadw ac adolygu **rhestr yr aelodau**, a gweinyddu disgyblaeth pan fo gofyn am hynny (Rhoddir cyngor manwl a doeth am weinyddu disgyblaeth yn y Llawlyfr Trefn tt 5-6 . Gweler hefyd yr adran am "aelodau absennol" ym Mhennod 4).
2. *Pan nad oes yna weinidog ar yr eglwys*, cyfrifoldeb y blaenoriaid hefyd yw:
 - a. Trefnu i un o'r blaenoriaid gael sgwrs ag ymgeiswyr am aelodaeth;
 - b. Trefnu dosbarth arbennig i baratoi plant yr eglwys ac eraill a fo yn dymuno ymaelodi, ar gyfer eu derbyn yn aelodau cyflawn;
 - c. Trefnu cyflwyno llyfrau priodol i bobl ifainc a dderbynnir yn aelodau.
3. Ystyried ceisiadau gan aelodau sydd am fod yn **bregethwyr lleyg**, a threfnu gyda'r Henaduriaeth gyfarfod eglwys i benderfynu a gymeradwyr y cais ai peidio (Llawlyfr Trefn t 44).
4. Chwilio am aelodau sydd â **galwad i'r weinidogaeth**, rhoi iddynt y cyfle i arfer eu dawn, a threfnu gyda'r Henaduriaeth gyfarfod eglwys i benderfynu a ddylid cymeradwyo'r brawd neu'r chwaer i fod yn ymgeisydd (Llawlyfr Trefn tt 46).
5. Hysbysu'r Henaduriaeth os yw'n ddymuniad gan yr eglwys gynnal **etholiad blaenoriaid** yn amlach na phob saith mlynedd, a threfnu etholiadau gyda'r Henaduriaeth (Llawlyfr Trefn t. 7).

Credir y byddai'n fuddiol i'r blaenoriaid ystyried y pedwar mater hyn unwaith y flwyddyn o leiaf, i sicrhau na chollir golwg ar ddoniau nac anghenion aelodau'r eglwys.



Mae gan y blaenoriaid ddyletswyddau penodol pan fo gweinidog yn ymadael neu pan fo angen **galw gweinidog newydd**:

1. Hysbysu'r Henaduriaeth pan fo'n ddymuniad gan yr ofalaeth i **alw gweinidog**. O gadarnhau'r cais gan yr eglwys(i), yna fe etholir Pwyllgor Bugeiliol i fwrw ymlaen â'r gwaith ynghyd â'r Henaduriaeth (gweler y Llawlyfr Trefn tt 34)
2. Derbyn **ymddiswyddiad gweinidog**, a hysbysu'r Henaduriaeth o hynny (Llawlyfr Trefn t. 35)

Ond nid dyma derfyn dyletswyddau'r blaenoriaid. Mae ganddynt gyfrifoldeb am holl rychwant gwaith yr eglwys yn lleol, ac fe awgrymir y penawdau canlynol fel rhai a ddylai fod yn ymddangos ar yr agenda yn rheolaidd:

1. **Cenhadaeth a thystiolaeth gyhoeddus** yr eglwys. Gweler Pennod 3.
2. **Addoliad** yr eglwys, o ran trefn, cynnwys ac addasrwydd i'r gynulleidfa. Mater i'r gweinidog yn bennaf yw hyn lle bo gweinidog, ond lle nad oes, yna fe ddylai hyn fod yn fater uchel ar yr agenda. Yn sicr, ni ddylid disgwyl i Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau ysgwyddo'r baich i gyd. Gellir cael cyngor gan yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant os dymunir trafod gwella neu ddiwygio trefn yr oedfaon a natur yr addoliad cyhoeddus, e.e. trwy gyflwyno oedfaon teuluol neu oedfaon cenhadol.
3. Gwaith **plant ac ieuenctid**, gan gynnwys yr ysgol Sul. Ceir cymorth gwerthfawr gyda'r gwaith hwn trwy'r Cyngor Ysgolion Sul a staff y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid a Choleg y Bala (Gweler Pennod 6). Manteisiwch arnynt. Noder bod dyletswyddau'r blaenoriaid yn cynnwys trefnu cyswllt a gofal arbennig i blant a fedyddir, yn enwedig os nad yw eu rhieni yn aelodau Mae'n golygu hefyd ystyried ceisiadau gan blant neu eu rhieni i blant gael derbyn y cymundeb, a threfnu paratoad addas iddynt wneud hynny.
4. **Bugeilio**'r aelodau, y gwrandawyr ac eraill a ddaw i gysylltiad â'r eglwys (Gweler Penodau 4-6). Mae'r Llawlyfr Trefn yn gosod cyfrifoldebau arbennig ar y blaenoriaid a'r gweinidog yn achos y sawl sy'n cael trafferthion priodasol, neu sydd am ailbriodi wedi cael ysgariad (Llawlyfr Trefn tt 74-75). "Rheolau" synnwyr cyffredin yw'r rhain, ond da cael ein hatgoffa nad ar chwarae bach mae priodi na chwalu priodas.
5. Gwaith **addysgol** i oedolion- dosbarthiadau Beiblaidd, cyrsiau sylfaen, ac ati. Ceir cymorth gyda'r gwaith hwn gan yr Henaduriaeth ac Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant y Cyfundeb..
6. Bwrw golwg ar drefniadau'r **Seiat, y Cwrdd Gweddi, Cwrdd y Chwiorydd** ac ati. Lle nad oes cyfarfodydd felly, yna dylid ystyried y priodoldeb o'u cynnal fel eglwys, gofalaeth, neu yn gyd-enwadol.
7. Yr **adeiladau**. Mae cyfrifoldeb ariannol (gweler isod) a chenhadol yma (gweler y sylwadau ym Mhennod 3 am y wedd genhadol). Y blaenoriaid yw Ymddiriedolwyr Gweithredol eiddo'r eglwys leol, er mai Bwrdd Adnoddau ac Eiddo'r Cyfundeb yw'r Ymddiriedolwyr Gwarchodol. Yn ymarferol, fe rennir y cyfrifoldebau hyn â'r Henaduriaeth, a dylid trafod â swyddogion yr Henaduriaeth cyn mentro ar unrhyw waith mawr neu gostus, i sicrhau fod hyn yn unol â strategaeth yr Henaduriaeth. Rhaid cael caniatâd penodol yr Henaduriaeth i wario mwy na £5,000 (ac eithrio TAW). Ceir cyfarwyddyd ynglŷn â gwerthu, gosod neu brydlesu eiddo yn y Llawlyfr Trefn tt 53 – 54 . Ond noder yma fod yn rhaid i unrhyw gytundeb tenantiaeth gael ei baratoi gan gyfreithiwr proffesiynol, a chael ei gymeradwyo gan yr Henaduriaeth. Gweler gwefan y Cyfundeb (www.ebcpcw.org.uk/Cymraeg/adnoddau/eiddo/) am wybodaeth parthed

- **Pecyn Tenantiaeth**
- **Cytundebau Tenantiaeth**

O bryd i'w gilydd, bydd yr eitem hon ar yr agenda yn ymestyn tu hwnt i faterion cyfreithiol ac ymarferol fel hyn i ystyriaeth lawnach o'r adeiladau a'u dyfodol. Mae Pennod 3 yn cynnwys



arweiniad ar rai o'r cwestiynau y bydd angen eu gofyn. Ond fe all fod y bydd strategaeth yr Henaduriaeth – neu ddymuniadau'r gynulleidfa ei hunan – yn arwain y blaenoriaid i ystyried a ddylid cadw'r adeilad(au) o gwbl, neu a ddylid yn lle hynny ymuno ag eglwys arall, neu rannu adeilad ag eglwys arall. Byddai'n beth da i bob cyfarfod blaenoriaid ystyried yr hyn a ofynnir gan T.J. Edwards yn Y Goleuad 13 Mawrth 1998;

"Ai o ran traddodiad yn unig yr ydym yn parhau i gadw adeiladau gyda naw o bob deg sedd yn wag? A ydyw'n well gennym weld pob cynulleidfa yn marw ar ei thraed nac uno mewn addoldy pwrpasol? A yw'n foesol i ni roi baich dianghenraid o gostau ar ysgwyddau niferoedd llai fydd yn dod ar ein hôl, neu a ddylem uno gan adael tystiolaeth lawer cryfach i Eglwys Iesu Grist mewn un gynulleidfa gref?"

(Ar yr un pryd, dylai'r blaenoriaid ofyn a yw hi'n anochel y bydd niferoedd yn gostwng, fel yr awgryma Mr Edwards).

8. **Materion ariannol** – gweler isod.
9. **Cydweithio ag eglwysi lleol eraill**, rhywbeth sy'n fwyfwy hanfodol yn yr oes secwlar hon.
10. **Cyfathrebu'n lleol** ynghylch gwaith y Cyfundeb, a Chymorth Cristnogol, CWM ac ati. Clywir yn aml y gŵyn nad yw'r aelod cyffredin yn cael gwybod am yr holl waith a wneir yn enw Eglwys Iesu Grist. Danfonir gwybodaeth am y pethau hyn yn rheolaidd i bob eglwys – fel arfer at yr ysgrifennydd. Dylid sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei rannu trwy'r eglwys mewn modd deniadol a dychmygus.

Cofier, fel y dywedwyd droeon yn y llawlyfr hwn, nad oes disgwyl i bob blaenor fod yn arbenigwr ymhob un o'r meysydd hyn. Cyfrifoldebau ar y cyd yw'r rhain i gyd, ac mewn sawl achos fe rennir y cyfrifoldeb ymhellach na hynny – â'r aelodau i gyd, neu â'r Henaduriaeth gyfan. Mae'r rhain yn gyfrifoldebau mawr, mae'n wir, ond ni ddylent godi ofn ar y sawl sy'n barod i fentro rhannu yn y gwaith.

MATERION ARIANNOL

Dyma faes sy'n gallu codi ofn – yn enwedig ar y sawl nad yw'n hoff o ffigurau. Mae'n rhy hawdd i adael nid yn unig y gwaith rhifyddol, ond hefyd y cyfrifoldeb, i'r Trysorydd. Ond nid teg mo hynny. Mae gan bob aelod gyfrifoldeb ariannol o ran ymateb i rodd Duw yng Nghrist.

Mae'r Llawlyfr Trefn a Rheolau (tt 59–62) yn cynnwys arweiniad pwysig i eglwysi ynglŷn â'u materion ariannol. Cyfrifoldeb y blaenoriaid, o dan yr eitem "Materion ariannol" yr agenda, yw sicrhau:

1. Bod yr eglwys yn **codi arian** tuag at y canlynol:
 - i. Y **Cyfraniad Cyfundebol** a bennir gan y Gymdeithasfa a'r Gymanfa Gyffredinol yn flynyddol, sydd yn ariannu holl waith y Gymanfa a'r weinidogaeth lawn amser, a chyfraniadau'r Cyfundeb i gyrff megis CWM, CYTŪN, ENFYS, ac yn y blaen;
 - ii. Cyfraniadau tuag at yr **Henaduriaeth a'r Gymdeithasfa**, a bennir yn flynyddol gan y cyrff hynny er cynnal eu gwaith;
 - iii. Gofalu am gynnal ac addurno **adeiladau'r eglwys**, gosod neu wella'r offer cynhesu a goleuo, cadw golwg ar agweddau iechyd a diogelwch, ac yn y blaen;
 - iv. Prynu **lleyddiaeth grefyddol ac offer clyweledol pwrpasol** ar gyfer addysgu oedolion a phlant;
 - v. Cyfrannu yn ôl y gofyn at **CYTŪN neu Gyngor Eglwysi lleol, Cyngor yr Eglwysi Rhyddion**, ac o bosibl at fudiadau cyd-enwadol eraill yn y cylch.



2. **Addysgu'r aelodau** am eu cyfrifoldeb ariannol Mae hyn yn cynnwys sôn wrth aelodau sy'n drethdalwyr sut y gellir cynyddu gwerth eu rhoddion drwy gyfamodi neu trwy'r cynllun Rhodd Cymorth. (gw. www.ebcpcw.org.uk/userfiles/files/resources_C/Ariannol/Ffurflen_rhodd_cymorth.pdf)
3. Paratoi **cyllideb** am y flwyddyn sydd i ddod, a gofyn i'r Trysorydd hysbysu'r eglwys gyfan a lwyddir i gadw at y gyllideb honno. Hawdd llunio cyllideb sy'n ailadrodd cyllideb y llynedd gan ychwanegu chwyddiant. Ond manteisiwch ar y cyfle i weld a ellid gwneud mwy, neu ddefnyddio'n well yr adnoddau sydd ar gael. Sicrhewch fod yr aelodau yn gwybod faint sydd ei angen bob wythnos, a hysbyswch hwy a yw hyn yn cael ei gyflawni ymhell cyn diwedd y flwyddyn. Mae'n bwysig ceisio osgoi byw ar draul rhoddion y gorffennol trwy ddefnyddio arian wrth gefn i gwrdd â gwariant bob dydd.
4. Cefnogi **casgliadau gwirfoddol** a noddir gan y Cyfundeb, y Gymdeithasfa neu'r Henaduriaeth, megis apêl enwadol Cymorth Cristnogol, neu apeliadau arbennig at ganolfannau'r enwad.
5. Penderfynu ar **geisiadau lleol i gynnal casgliadau** o fewn yr eglwys tuag at ryw achosion da eraill, gan gofio fod cefnogi'r anghenus yn ddyletswydd ar aelodau beth bynnag.
6. **Cadw cyfrifon -**

Mae canllawiau y Comisiynwyr Elusennau yn nodi bod gofyn i bob eglwys (elusen) ddarparu cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Eglwysi gydag incwm o dan £25,000 o fewn y flwyddyn ariannol berthnasol.

Rhaid paratoi'r cyfrifon naill ai ar sail derbyniadau a thaliadau neu ar sail croniadau.

Nid oes gofyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio yn annibynnol, ond gall y Comisiwn Elusennau ofyn am archwiliad mewn amgylchiadau eithriadol.

Eglwysi gydag incwm o dros £25,000 ond o dan £250,000 o fewn y flwyddyn ariannol berthnasol.

Rhaid paratoi'r cyfrifon naill ai ar sail derbyniadau a thaliadau neu ar sail croniadau.

Rhaid cyflwyno'r cyfrifon i rai oddi allan i'r eglwys i graffu arnynt, ond gall yr ymddiriedolwyr ddewis naill ai archwiliad annibynnol neu archwiliad gan archwilydd cofrestredig.

Rhaid i unrhyw archwilydd annibynnol fod yn annibynnol ac felly ni all fod yn aelod o'r eglwys leol sydd dan archwiliad.

Gall aelod eglwysig sydd â'r cymwysterau priodol archwilio llyfrau eglwys arall lle nad yw'n aelod.

Eglwysi gydag incwm o dros £250,000 ond o dan £500,000

Rhaid paratoi cyfrifon ar sail croniadau yn unol â rheoliadau 2008 a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP Statement of Recommended Practice).

Rhaid i'r cyfrifon gael eu harchwilio gan rai oddi allan i'r eglwys ond gall yr ymddiriedolwyr ddewis naill ai archwiliad annibynnol neu archwiliad gan archwilydd cofrestredig. Os yw'r incwm dros £250,000 rhaid i'r archwilydd annibynnol fod yn aelod o gorff sydd wedi ei enwi yn Neddf Elusennau 1993.

7. Mae gan y Cyfundeb reolau pendant ynghylch **buddsoddiadau** (gw. Y Llawlyfr Trefn a Rheolau t.54 – 55). Rhaid hysbysu'r Henaduriaeth am unrhyw gymynroddion a dderbynnir. Cyfarwyddir holl adrannau ac eglwysi'r Cyfundeb i wneud pob buddsoddiad (ac eithro symiau y mae'n rhaid eu cadw ar wahan) yn enw'r Bwrdd Adnoddau ac Eiddo neu unrhyw geidwad arall a benodwyd.

Nid yw'r Cyfundeb yn Ymgynghorydd Ariannol cofrestredig, felly nid oes hawl ganddo i roi cyngor i

eglwysi lleol am fuddsoddi. Cyfrifoldeb y Blaenoriaid yw sicrhau cyngor cywir gan gynghorydd annibynnol. Noder bod y rhan fwyaf o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnig cyngor am eu buddsoddiadau eu hunain yn unig, ac felly nid ydynt yn annibynnol yn yr ystyr yma. Mae hefyd yn bwysig fod y buddsoddiad a ddewisir yn dderbyniol ar gyfer buddsoddiad gan elusen. Dylai cynghorydd annibynnol allu cadarnhau hynny.

CYFRIFOLDEB CYFREITHIOL

Mae'r Deddfau Elusennau 1992 a 1993 a deddfwriaeth arall yn gosod nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol manwl ar "Ymddiriedolwyr Gweinyddol" yr eglwysi – sef y blaenoriaid. Ar y cyfan, fe fydd y blaenoriaid yn cwrdd â'r gofynion hyn trwy ddilyn y cyfarwyddiadau uchod, a thrwy gyd-gysylltu'n effeithiol â'r Henaduriaeth.

Cyfyd ofn arbennig ynghylch cyfrifoldeb y blaenoriaid am faterion yn ymwneud â'u gofal fel Ymddiriedolwyr Gweithredol yr adeiladau, e.e. am eu hyswirio, ac am iechyd a diogelwch y sawl sydd yn eu defnyddio. Awgrymir y dylai ymddiriedolwyr, wrth ddefnyddio'r awdurdod cyfreithiol sydd ganddynt parthed eiddo'r eglwys, "gymryd cymaint gofal o'r eiddo ag y byddai gŵr rhesymol yn ei gymryd o'i eiddo ei hun, ddim mwy a dim llai." Yn achos **yswiriant**, fe olygai hynny yswirio'r adeiladau ar sail prisiant proffesiynol. Pe digwyddai'r yswiriant fod yn ddiffygiol – e.e. pe na fyddai'r adeiladau wedi'u hyswirio i'w llawn werth – yna byddai aelodau'r eglwys i gyd (nid y blaenoriaid yn unig) yn gyfrifol am gwrdd â'r costau o gyllid yr eglwys, trwy gyfraniadau personol neu drwy ymdrechion i godi'r arian.

Mae egwyddorion cyffelyb yn berthnasol mewn sefyllfaoedd eraill. Er enghraifft, os anafir rhywun ar dir yr eglwys, fe ofynnir a ellid yn rhesymol fod wedi rhagweld y gallai'r fath beth ddigwydd, ac a oedd camau ymarferol a rhesymol wedi'u cymryd i ddiogelu'r cyhoedd. Er enghraifft, os gwyddys fod cerrig beddi yn simsan eu seiliau, dylid naill ai eu diogelu neu o leiaf osod arwydd clir yn rhybuddio'r cyhoedd am y perygl. Dylai'r blaenoriaid archwilio peryglon posibl o'r fath yn rheolaidd, gyda chymorth proffesiynol os oes ei angen. A fyddai dyn rhesymol yn gadael pethau peryglus fel hyn yn ei ardd ei hunan? Seilir llawer o'r gyfraith yn y meysydd hyn ar beth y disgwyliid i wŵr rhesymol ei wneud. Y mae ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru nifer o ddogfenau perthnasol i faterion iechyd a diogelwch (gw. www.ebcpcw.org.uk/Cymraeg/adnoddau/eiddo/);

- Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch
- Holiadur Iechyd a Diogelwch
- Canllawiau Rheoli Mynwentydd
- Rhestr wirio ar gyfer cynnal digwyddiadau achlysurol

Os oes yna ryw amheuaeth gyfreithiol, yna fe ddylid ceisio cymorth gan Gyfreithiwr y Cyfundeb yn y lle cyntaf, trwy gysylltu drwy'r henaduriaeth â'r Ysgrifennydd Cyffredinol yng Nghaerdydd. Os oes angen mynd at gyfreithiwr lleol am ryw reswm, fe ddylid hysbysu'r Henaduriaeth a mynd i'r cyfarfod ar y cyd. Cofiwch nad yw'r rhan fwyaf o gyfreithwyr lleol yn hyddysg yn y cyfreithiau arbenigol sy'n ymwneud â'r eglwys a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr.

Nid yw'n bosibl gosod yr holl wybodaeth gyfreithiol yn y llyfr hwn – fe fyddai'n golygu cyhoeddi cyfrol drwchus iawn na fyddai angen cyfeirio ati ond yn anfynd iawn. Mae deddfwriaeth newydd yn dod i rym o hyd, ac fe fyddai cynnwys y llyfr cyn bo hir yn anghyflawn neu hyd yn oed yn gamarweiniol. Felly, fe restrir yma rai o'r cyfeiriadau mwyaf defnyddiol i gael gwybodaeth arbenigol ganddynt, ar ôl hysbysu'r Henaduriaeth a chael cyngor ganddi. .

Mae'r **Comisiynwyr Elusennau** yn cynhyrchu taflenni yn rhestru'r prif ofynion cyfreithiol cyfredol ynglŷn, er enghraifft, â llunio ac archwilio cyfrifon. Gw www.comisiwnelusenau.gov.uk

Cyflogir **Swyddog Ystadau** Eglwys Bresbyteraidd Cymru i roi cyngor arbenigol i eglwysi lleol a henaduriaethau ar faterion yn ymwneud ag adeiladau ac eiddo. Gellir cysylltu ag ef trwy'r swyddfa yng Nghaerdydd Gweler gwefan y Cyfundeb.



Diwedd glo – Beth Nesaf?

Cofiwch na ddewch byth i ben â hyfforddi ar gyfer bod yn flaenor – nid yn y byd hwn o leiaf. Mae yna sawl cyfeiriad y gallwch chi fynd iddo fe.

Ceir manylion a chyngor pellach gan:

Y Cyfarwyddwr Hyfforddiant, Y Coleg Gwyn, Bangor LL57 2EH 01248 370463
elwyn.richards@btconnect.com

Cofiwch hefyd am y dyddiau hyfforddiant arbennig a gynhelir ar gyfer blaenoriaid yn flynyddol, ac am y penwythnos blaenoriaid a gynhelir yng Ngholeg Trefeca bob mis Tachwedd. Hefyd dylech ystyried y cyrsiau canlynol y gellir cael rhagor o wybodaeth amdanynt drwy'r Cyfarwyddwr Hyfforddiant;

Archwilio'r Ffydd Gristnogol

Er mai cwrs a luniwyd yn benodol ar gyfer pregethwyr lleyg yw hwn, mae o ddefnydd hefyd i bob blaenor. Mae iddo 6 Modiwl a 4 Uned ym mhob un

- Meddwl am Dduw
- Person a Gwaith Crist
- Eglwys a Chymdeithas
- Natur ac Ymarfer Addoliad
- Gofal Bugeiliol
- Biofoeseg

Ewch yn ei Enw Ef sef adnodd hyfforddiant ar gyfer blaenoriaid a thimau ymweld

Cwrs byr wedi ei sylfaenu ar drafodaeth sy'n rhoi sylw i fugeilio ac ymweld. Darperir CD a nodiadau. Ceir ynddo 6 sesiwn

- Yr her o ofalu
- Modelau o ofal bugeiliol
- Ymweld â rhai sy'n ddifrifol wael
- Gofalu am rai mewn profedigaeth
- Gofalu am henoed dryslyd eu meddwl
- Cyd-weddiwn

Arwain Addoliad

Cwrs byr i'w ddefnyddio'n lleol sy'n rhoi arweiniad ar amrywiol agweddau o gynnal oedfa, ac sy'n ymdrin â

- Diben addoliad
- Y Beibl mewn addoliad
- Sgiliau cyflwyno
- Gweddi mewn addoliad
- Cerddoriaeth mewn addoliad

Ym maes bugeilio a gofalu argymhellir cyfrol Dewi Myrddin Hughes, *Gofala Di, Llawlyfr Bugeiliol Cristnogol*, Cyhoeddiadau'r Gair, 2013.







